# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 12/05/2015

Cynnwys Contents


Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

Teyrnged i Antoinette Sandbach a Byron Davies
Tribute to Antoinette Sandbach and Byron Davies

1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Datganiad: Nodi Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop—Gweithio gyda a Chefnogi ein Cymuned Lluoedd Arfog Heddiw
3. Statement: Anniversary of VE Day—Working with and Supporting our Armed Forces Community Today

4. Datganiad: Llysgenhadon Cyllid yr UE
4. Statement: EU Funding Ambassadors

5. Datganiad: Cyflwyno Bil yr Amgylchedd (Cymru)
5. Statement: Introduction of the Environment (Wales) Bill

6. Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2015
6. The Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014 (Consequential Amendments) (Wales) Order 2015

7. Dadl Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefyd yr Afu
7. Debate on the Liver Disease Delivery Plan

8. Cyfnod Pleidleisio
8. Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:31 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:31 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:31

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

13:31

## Datganiad gan y Llywydd

## Statement by the Presiding Officer

Senedd.tv Fideo Video

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I'm sure Members would like to join me in welcoming Members of the Joint Committee on Public Service Oversight and Petitions from the Parliament of the Irish Republic, who are in the public gallery today. I think they're behind me up there, somewhere—I'm not sure.

Rwy'n siŵr yr hoffai'r Aelodau ymuno â mi i groesawu Aelodau o'r Cyd-bwyllgor Goruchwylio Gwasanaethau Cyhoeddus a Deisebau o Senedd Gweriniaeth Iwerddon, sydd yn yr oriel gyhoeddus heddiw. Rwy'n credu eu bod y tu ôl i mi i fyny yn y fan yna, yn rhywle—dwi ddim yn siŵr.

13:31

## Teyrnged i Antoinette Sandbach a Byron Davies

## Tribute to Antoinette Sandbach and Byron Davies

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I wish to inform Members that, on Friday, I received written notification from Antoinette Sandbach of her resignation with immediate effect as an Assembly Member following her election as Member of Parliament for Eddisbury. And, today, I have received notification from Byron Davies that he too is resigning his seat at the Assembly following his election as Member of Parliament for Gower. His resignation will be effective from 15 May.

Hoffwn hysbysu'r Aelodau fy mod, ddydd Gwener, wedi derbyn hysbysiad ysgrifenedig gan Antoinette Sandbach ei bod yn ymddiswyddo ar unwaith fel Aelod Cynulliad ar ôl iddi gael ei hethol yn Aelod Seneddol dros Eddisbury. A, heddiw, rwyf wedi derbyn hysbysiad gan Byron Davies ei fod yntau hefyd yn ymddiswyddo o'i sedd yn y Cynulliad ar ôl iddo gael ei ethol yn Aelod Seneddol dros Gŵyr. Bydd ei ymddiswyddiad ef yn weithredol o 15 Mai.

I have informed the regional returning officer for North Wales of the vacancy that now exists for that region, and I'll be writing to the returning officer for South Wales West in the same vein. I will await the returning officers' notifications regarding new Members for their respective regions, and I will make further announcements to Members in due course. I'm sure you would all like to join me in wishing Antoinette and Byron all the best for the future.

Rwyf wedi hysbysu'r swyddog canlyniadau rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru am y lle gwag sy'n bodoli yn y rhanbarth hwnnw erbyn hyn, a byddaf yn ysgrifennu at swyddog canlyniadau Gorllewin De Cymru yn yr un modd. Byddaf yn aros am hysbysiadau'r swyddogion canlyniadau ynghylch Aelodau newydd ar gyfer eu rhanbarthau perthnasol, a byddaf yn gwneud cyhoeddiadau pellach i'r Aelodau maes o law. Rwy'n siŵr yr hoffech chi i gyd ymuno â mi i ddymuno'n dda i Antoinette a Byron ar gyfer y dyfodol.

13:32

# 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

# 1. Questions to the First Minister

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to questions to the First Minister, and question 1 is from Julie Morgan.

Symudwn at gwestiynau i'r Prif Weinidog nawr, a daw cwestiwn 1 gan Julie Morgan.

### Polisïau Llywodraeth Cymru

### Welsh Government Policies

13:32

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith canlyniad etholiad cyffredinol y DU ar bolisïau Llywodraeth Cymru? OAQ(4)2262(FM)*

*1. What assessment has the First Minister made of the impact of the outcome of the UK general election on Welsh Government policies? OAQ(4)2262(FM)*

13:32

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We have yet to know, of course. We await what the Queen's Speech will show and what the budget will show. But, of course, I take note of the fact that a promise has been made that legislation for further devolution for Wales will be delivered within 100 days. We wait to see whether that promise is kept.

Nid ydym yn gwybod eto, wrth gwrs. Rydym ni'n disgwyl yr hyn y bydd Araith y Frenhines yn ei ddangos a'r hyn y bydd y gyllideb yn ei ddangos. Ond, wrth gwrs, rwy'n nodi'r ffaith fod addewid wedi ei wneud y bydd deddfwriaeth ar gyfer datganoli pellach i Gymru yn cael ei chyflwyno o fewn 100 diwrnod. Arhoswn i weld a gaiff yr addewid hwnnw ei gadw.

13:32

## Julie Morgan Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the First Minister for that response. Does he think that a key priority for the Westminster Government must be to deliver the commitments it made to the people of Wales, in terms of cutting the Severn bridge tolls, providing the resources to put in a city deal for Cardiff, funding the electrification of the Valleys lines and the First Great Western main line? And will he be pressing the incoming Government to give the attention to Welsh issues that the people of Wales deserve, so that it doesn't spend all its energy on Scotland?

Diolchaf i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna. A yw'n credu ei bod yn rheidrwydd mai blaenoriaeth allweddol i Lywodraeth San Steffan ei bodloni yw'r ymrwymiadau a wnaeth i bobl Cymru, o ran torri tollau pont Hafren, darparu'r adnoddau i sicrhau cytundeb dinas i Gaerdydd, ariannu'r gwaith o drydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd a phrif reilffordd First Great Western? Ac a fydd ef yn pwyso ar y Llywodraeth newydd i roi'r sylw i faterion Cymreig y mae pobl Cymru yn ei haeddu, fel nad yw'n defnyddio ei holl egni ar yr Alban?

13:33

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. I have a phone call with the Prime Minister very shortly. I will be saying, of course, there is a need to move forward with the Wales Bill, as he has promised. In terms of the Severn bridge tolls, the view of the Welsh Government is that it should be controlled from within Wales, rather than the profits going entirely to pay for English roads, as they will once the bridge returns to public ownership. And, of course, with the metro, there will be a need for the UK Government to deliver alongside us, particularly, for example, if light rail is the option that is preferred in terms of the future of the metro.

Byddaf. Byddaf yn siarad ar y ffôn gyda'r Prif Weinidog yn fuan iawn. Byddaf yn dweud, wrth gwrs, bod angen symud ymlaen â Bil Cymru, fel y mae wedi ei addo. O ran tollau pont Hafren, safbwynt Llywodraeth Cymru yw y dylent gael eu rheoli o Gymru, yn hytrach na bod yr elw'n mynd yn gyfan gwbl i dalu am ffyrdd yn Lloegr, fel y byddant ar ôl i'r bont ddychwelyd i berchnogaeth gyhoeddus. Ac, wrth gwrs, gyda'r metro, bydd angen i Lywodraeth y DU gyflawni ochr yn ochr â ni, yn enwedig, er enghraifft, os mai rheilffyrdd ysgafn yw'r dewis a ffefrir o ran dyfodol y metro.

13:33 **Mark Isherwood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

During the general election, one of the repeated concerns raised on the doorstep applied to devolved matters, such as housing and health, and, nine times out of 10, the comments related to—wrongly—the UK Government, rather than the Welsh Government, which, of course, has been responsible since 1999. Is this a concern that you share with me, and, if so, what action does the Welsh Government propose to try and improve public understanding in places like north-east Wales, and elsewhere, around the matters for which this place is responsible, ahead of the Welsh general election next year?

Yn ystod yr etholiad cyffredinol, roedd un o'r pryderon a godwyd dro ar ôl tro ar garreg y drws yn ymwneud â materion datganoledig, fel tai ac iechyd, a, naw gwaith allan o 10, roedd y sylwadau'n ymwneud—yn anghywir— â Llywodraeth y DU, yn hytrach na Llywodraeth Cymru, sydd, wrth gwrs, wedi bod yn gyfrifol ers 1999. A yw hyn yn bryder yr ydych chi'n ei rannu â mi, ac, os felly, pa gamau mae Llywodraeth Cymru'n eu cynnig i geisio gwella dealltwriaeth y cyhoedd mewn mannau fel y gogledd-ddwyrain, ac mewn mannau eraill, o'r materion y mae'r lle hwn yn gyfrifol amdanynt, cyn etholiad cyffredinol Cymru y flwyddyn nesaf?

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We know that part of the problem is, of course, that more than 80 per cent of the population get their print news from outside Wales, and the London media don't bother with Wales, in terms of publishing separate editions, as they do for Scotland. We know, of course, that it's the broadcast media that is most responsible for informing the public here in Wales. Of course, in the north-east, historically, there was a tendency to turn aerials to transmitters away from Moel y Parc, as the transmitter for the area. My suspicion is that, as people have begun to understand more about the Assembly, they have taken more interest in terms of what it does. But, the Member is right to say, of course, that the understanding of who does what is not entirely clear to the public yet.

Rydym ni'n gwybod mai rhan o'r broblem, wrth gwrs, yw bod mwy nag 80 y cant o'r boblogaeth yn cael eu newyddion print o'r tu allan i Gymru, ac nid yw cyfryngau Llundain yn trafferthu â Chymru, o ran cyhoeddi rhifynnau ar wahân, fel y maen nhw'n ei wneud ar gyfer yr Alban. Rydym ni'n gwybod, wrth gwrs, mai'r cyfryngau darlledu sydd fwyaf cyfrifol am hysbysu'r cyhoedd yma yng Nghymru. Wrth gwrs, yn y gogledd-ddwyrain, yn hanesyddol, bu tueddiad i droi erialau at drosglwyddyddion i ffwrdd oddi wrth Foel y Parc, fel y trosglwyddydd ar gyfer yr ardal. Fy amheuaeth i, wrth i bobl ddechrau deall mwy am y Cynulliad, yw eu bod wedi cymryd mwy o ddiddordeb o ran yr hyn y mae'n ei wneud. Ond, mae'r Aelod yn iawn i ddweud, wrth gwrs, nad yw'r ddealltwriaeth o bwy sy'n gwneud beth yn gwbl eglur i'r cyhoedd eto.

13:35 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Un o ddatganiadau cyntaf y Llywodraeth newydd yn San Steffan yw un i ddiddymu Deddf Hawliau Dynol 1998. Nawr, mae'r Ddeddf Hawliau Dynol nid yn unig yn amddiffyniad i bobl yng Nghymru, ond mae hefyd wedi ysgrifennu mewn i gyfansoddiad Cymru, drwy Ddeddf Cymru 2014, ac mae'n rhan, yn wir, o'r cyfansoddiad Prydeinig yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban hefyd. Felly, pa drafodaethau, os ydych am gael sgwrs gyda'r Prif Weinidog yn fuan, fyddwch chi'n eu cael gyda'r Prif Weinidog i wneud yn siŵr bod llais Cymru a'r buddiannau sydd yn llifo i Gymru o'r Ddeddf Hawliau Dynol yn cael eu cadw yma yng Nghymru?

One of the first statements made by the new Government in Westminster was on the abolition of the Human Rights Act 1998. The Human Rights Act not only provides safeguards for people in Wales, but it is also written into the Welsh constitution through the Wales Act 2014 and is part of the constitution of the UK in Northern Ireland and Scotland too. So, if you are to have a conversation with the Prime Minister soon, what negotiations will you hold in order to ensure that the Welsh voice and the benefits that comes to Wales from the Human Rights Act are retained here in Wales?

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, fy marn i yw y dylai'r Ddeddf gael ei chadw, wrth gwrs. Nid wyf yn credu bod unrhyw sylw wedi cael ei wneud ynglŷn â beth yw sefyllfa'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Rhyw fath o ailfeddwl fydd hynny, rwy'n siŵr. Fe gwrddais i â'r grŵp a oedd yn edrych ar Fil hawliau Prydeinig sawl blwyddyn yn ôl, ac mae'n wir i ddweud nad oedd lot fawr o glem gyda nhw ynglŷn â fel byddai'n gweithio a fel byddai'n gweithio o ran datganoli. Ond, fe gawn ni weld beth fydd yn cael ei ddweud ynglŷn â beth fydd yn cael ei roi mewn lle yn lle'r Ddeddf ei hunan.

Well, my view, of course, is that that Act should be retained. I don't think any comment had been made on the situation of Scotland, Wales and Northern Ireland. That won't be their initial thought, obviously. I met with a group that looked at a British rights Bill some years ago, and it's true to say that they didn't have very much of a clue about how it would work alongside devolution. However, we will have to see what will be set out as a replacement for the Act.

13:36 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, do you agree with me that we must continue to press for a constitutional convention and, as part of that, a fair funding formula for all the regions of the UK? Do you also agree that Wales should proactively engage with other regions of the UK to press for change that is of benefit and is sustainable for the whole of the UK?

Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno â mi bod yn rhaid i ni barhau i bwyso am gonfensiwn cyfansoddiadol ac, yn rhan o hynny, fformiwla ariannu teg ar gyfer holl ranbarthau'r DU? A ydych chi hefyd yn cytuno y dylai Cymru ymgysylltu'n rhagweithiol â rhanbarthau eraill y DU i bwyso am newid sydd er lles ac yn gynaliadwy i'r DU gyfan?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. We should work, of course, with our fellow nations and with the English regions. I don't think we'll ever get to a situation where we have the stability that we need without such a convention. Now, I note the views of my colleague in Northern Ireland, Peter Robinson, who is also in agreement with the principle of a convention. This is not something to be afraid of; this is something to strengthen the constitution of the UK for the twenty-first century.

Ydw. Dylem ni weithio, wrth gwrs, gyda'n cyd-wledydd a chyda rhanbarthau Lloegr. Nid wyf yn meddwl y byddwn i fyth yn cyrraedd sefyllfa lle mae'r sefydlogrwydd sydd ei angen arnom ni gennym heb gonfensiwn o'r fath. Nawr, rwy'n nodi safbwyntiau fy nghydweithiwr yng Ngogledd Iwerddon, Peter Robinson, sydd hefyd yn cytuno â'r egwyddor o gonfensiwn. Nid yw hyn yn rhywbeth i'w ofni; mae hyn yn rhywbeth i gryfhau cyfansoddiad y DU ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.

## Strategaeth yr Iaith Gymraeg

## Welsh Language Strategy

13:37 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaed dros y pedair blynedd diwethaf mewn perthynas â strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru? OAQ(4)2264(FM)*

*2. Will the First Minister make a statement on the progress made over the last four years in relation to the Welsh Government's Welsh language strategy? OAQ(4)2264(FM)*

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Dros y pedair blynedd diwethaf rydym wedi cymryd camau breision wrth weithredu strategaeth 'Iaith fyw: iaith byw'. Mae'r camau hyn yn cynnwys datblygiadau nodedig ym meysydd addysg, deddfwriaeth a hybu. Mae rhagor o waith pwysig o hyd i'w wneud yn ystod y ddwy flynedd sy'n weddill o'r strategaeth.

Over the last four years we have made large strides in implementing our 'A living language: a language for living' strategy. These include notable developments in the fields of education, legislation and promotion. We have more important work to do over the remaining two years of the strategy.

13:37 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Eich pwyslais chi bedair blynedd yn ôl oedd cynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg a chyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Pa gam o fewn y strategaeth rydych chi wedi'i amlinellu rydych chi'n ystyried sy'n cyfrannu fwyaf i gyrraedd y nod yma?

Your emphasis four years ago was on increasing the number of Welsh speakers and providing opportunities to use the Welsh language. What steps within the strategy that you mentioned do you believe will contribute most to achieving these objectives?

13:37 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r egwyddorion yn y datganiad polisi, sef 'Bwrw mlaen', ynglŷn ag ym mha ffordd rydym ni'n moyn sicrhau bod y Gymraeg yn iaith fyw, yn iaith sy'n cael ei defnyddio, a bod newid ynglŷn â'r arfer o ddefnyddio iaith gan unigolion a chymunedau. Un ffordd o wneud hynny yw sicrhau bod bywoliaeth i'r Gymraeg yn y sector dechnoleg, ac rwyf wedi gweld y Gymraeg yn cael ei defnyddio—mae'r Urdd wedi gwneud gwaith da ynglŷn â'r apps sydd gan yr Urdd—er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn gweld y Gymraeg fel iaith naturiol ac yn un i'w defnyddio ar Facebook a Twitter. Rydym ni'n moyn sicrhau bod y Gymraeg yn iaith sydd yn cael ei siarad, ac mae'n bwysig dros ben i sicrhau hefyd fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y ganrif hon fel iaith dechnolegol.

The principles, of course, are contained within the policy statement 'Bwrw mlaen', in relation to how we ensure that the Welsh language is a living language and one that is used, and ensure that there is a change in people's habits when it comes to its use on an individual and community basis. One way of doing that is to ensure that Welsh has a place in the technological sector, and I have seen it being used here—the Urdd has done very good work with its Welsh apps—and to ensure that young people view the Welsh language as their natural, day-to-day language and one that can be used on Facebook and Twitter. We want to ensure that Welsh is spoken, and it is extremely important that we ensure during this century that Welsh is used as a language of technology.

13:38 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rwyf wedi clywed heddiw ynglŷn â'ch endid cenedlaethol, ond, fel rydych yn gwybod, mae'r mater o ddewis yr iaith y mae pobl yn mynd ati yn hynod o bersonol. Felly, beth fydd eich neges bersonol chi i oedolion ansicr sydd ddim cweit yn siŵr eto o werth dysgu a defnyddio'r Gymraeg?

First Minister, I've heard today about the national entity that you created, but it's a matter of choice as to which language people use, and that's a very personal choice. So, what would your personal message be to adults who are a little uncertain and perhaps aren't quite sure of the value of learning and using the Welsh language?

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Beth rydym yn gwybod yw bod lot fawr o oedolion bob blwyddyn yn dechrau dysgu Cymraeg. Rydym hefyd yn gwybod nad yw llawer ohonyn nhw yn parhau i ddysgu'r Gymraeg. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod pobl yn cael yr hyder er mwyn iddynt allu parhau i ddysgu'r iaith a hefyd, wrth gwrs, i ddefnyddio'r iaith. Rydym ni i gyd yn gwybod am bobl sydd yn wir rugl yn y Gymraeg ond ag arnynt ofn i ddefnyddio'r Gymraeg efallai mewn ffordd swyddogol neu i ddefnyddio'r Gymraeg efallai pan mae nhw ar eu traed. Hybu eu hyder nhw yw un ffordd o sicrhau bod pobl sydd yn dysgu'r Gymraeg wedyn yn defnyddio'r Gymraeg ac yn cael yr hyder i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sawl maes mewn bywyd.

What we do know is that very many adults start to learn Welsh every year, and we also know that very many don't continue with this learning. So, we must ensure that people have the confidence to continue to learn the language and to use the language. Of course, we all know of people who are truly fluent in Welsh but are apprehensive, or afraid, of using the Welsh language in an official way, or using the language without a script, as it were. Boosting people's confidence is one way of ensuring that those who learn the language then use the language and have the confidence to use it in many fields.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:39 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to questions from the party leaders, and first this afternoon is the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.

Symudwn nawr at gwestiynau gan arweinwyr y pleidiau, ac arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, sydd gyntaf y prynhawn yma.

13:39 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, the Secretary of State for Wales yesterday made a comment indicating an unwillingness to consider further meaningful devolution, and it's looking increasingly likely that the previously agreed timetable regarding further devolution no longer stands. Now that we have a Westminster Government without a mandate from this country, would you agree with me that the time is now long overdue to strengthen the Welsh devolution settlement?

Brif Weinidog, gwnaeth Ysgrifennydd Gwladol Cymru sylw ddoe yn dynodi amharodrwydd i ystyried datganoli ystyrlon pellach, ac mae'n edrych yn gynyddol debygol nad yw'r amserlen a gytunwyd yn flaenorol ynghylch datganoli pellach yn sefyll mwyach. Nawr bod gennym ni Lywodraeth San Steffan heb fandad gan y wlad hon, a ydych chi'n cytuno â mi ei bod hi'n hen bryd cryfhau setliad datganoli Cymru?

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes. Well, I saw what the Prime Minister said in terms of delivering for Wales within 100 days. We'll have to wait and see. There are signs that that has been rowed back from. I've never agreed with Wales being treated differently from Scotland in that regard. I would hope that there was a recognition that there is a mandate for the UK Government in England, not so in Scotland, Wales and Northern Ireland, and the Prime Minister must show that he can be the Prime Minister of Britain and not just the Prime Minister of England.

Ydw. Wel, gwelais yr hyn a ddywedodd Prif Weinidog y DU o ran cyflawni dros Gymru o fewn 100 diwrnod. Bydd yn rhaid i ni aros i gael gweld. Ceir arwyddion yr aethpwyd yn ôl ar hynny erbyn hyn. Nid wyf erioed wedi cytuno â Chymru'n cael ei thrin yn wahanol i'r Alban yn hynny o beth. Byddwn yn gobeithio bod cydnabyddiaeth bod mandad i Lywodraeth y DU yn Lloegr, nid felly yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon, ac mae'n rhaid i Brif Weinidog y DU ddangos y gall fod yn Brif Weinidog Prydain ac nid Prif Weinidog Lloegr yn unig.

13:40 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you for your answer, First Minister. As the person leading Wales's Government and following on from the response that you've just given, can you tell me whether or not your Government's position has changed regarding this, from before? What measures, for example, do you now support that might help to mitigate the cuts that we know are coming? Do you support measures, for example, that go beyond Silk? And will you be articulating any changed position to the Prime Minister when you speak to him?

Diolch i chi am eich ateb, Brif Weinidog. Fel y sawl sy'n arwain Llywodraeth Cymru ac yn dilyn ymlaen o'r ymateb yr ydych chi newydd ei roi, a allwch chi ddweud wrthyf a yw safbwynt eich Llywodraeth wedi newid am hyn, o'r hyn yr oedd o'r blaen? Pa fesurau, er enghraifft, ydych chi'n eu cefnogi erbyn hyn a allai helpu i liniaru'r toriadau yr ydym ni'n gwybod sy'n dod? A ydych chi'n cefnogi mesurau, er enghraifft, sy'n mynd y tu hwnt i Silk? A fyddwch chi'n mynegi unrhyw safbwynt sydd wedi newid i Brif Weinidog y DU pan fyddwch chi'n siarad ag ef?

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Yes, I do think that we should go beyond Silk. We know that the Smith commission, in terms of Scotland, has offered more devolution for Scotland. I think that offer should be made to Wales. She will know—and I've said this before—that that doesn't automatically mean we should accept everything, because, sometimes, there are bear traps that are laid for us. Nevertheless, Smith changed the nature of devolution as far as Scotland is concerned. It is naive to think, in Whitehall, that, somehow, this has no effect on Wales, but I think the first step has to be for us to see delivery on what is, at least at this moment in time, agreed by all the parties, and then, of course, to look at how the settlement can be strengthened in the future. But, the first thing to do is to make sure that the promise of action within 100 days is kept by the Conservative Government.

Byddaf, rwy'n credu y dylem ni fynd y tu hwnt i Silk. Gwyddom fod comisiwn Smith, o ran yr Alban, wedi cynnig mwy o ddatganoli i'r Alban. Rwy'n credu y dylai'r cynnig hwnnw gael ei wneud i Gymru. Bydd hi'n gwybod—ac rwyf wedi dweud hyn o'r blaen—nad yw hynny'n golygu o reidrwydd y dylem ni dderbyn popeth, oherwydd, weithiau, ceir trapiau arth sy'n cael eu gosod ar ein cyfer. Serch hynny, newidiodd Smith natur datganoli cyn belled ag y mae'r Alban yn y cwestiwn. Mae'n naïf i feddwl, yn Whitehall, rywsut, nad yw hyn yn cael unrhyw effaith ar Gymru, ond rwy'n meddwl mai'n rhaid mai'r cam cyntaf yw i ni weld cyflawni ar yr hyn sydd, o leiaf ar hyn o bryd, wedi ei gytuno gan yr holl bleidiau, ac yna, wrth gwrs, ystyried sut y gellid cryfhau'r cytundeb yn y dyfodol. Ond, y peth cyntaf i'w wneud yw gwneud yn siŵr bod yr addewid o weithredu o fewn 100 diwrnod yn cael ei gadw gan y Llywodraeth Geidwadol.

13:42 **Leanne Wood** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I think it's clear, First Minister, that many Welsh communities will be looking to your Government for some sort of protection from the further cuts and the coming reforms that don't have support from the majority of people in this country. Now, the Tories haven't been upfront about where the axe is going to fall. We know that we can expect a further £12 billion-worth of welfare cuts. I'm not sure whether or not you've considered whether or not a UK-wide welfare system will continue into the future, and, if not, what we are going to do about that. Now, it's likely that Scotland will get powers over welfare. Will powers over welfare be something that you will now be seeking from Westminster for Wales?

Rwy'n credu ei bod yn eglur, Brif Weinidog, y bydd llawer o gymunedau yng Nghymru yn disgwyl i'ch Llywodraeth ddarparu rhyw fath o amddiffyniad rhag y toriadau pellach a'r diwygiadau i ddod nad oes ganddynt gefnogaeth gan y rhan fwyaf o bobl yn y wlad hon. Nawr, nid yw'r Toriaid wedi bod yn agored ynghylch ble mae'r fwyell yn mynd i ddisgyn. Rydym ni'n gwybod y gallwn ni ddisgwyl gwerth £12 biliwn arall o doriadau lles. Nid wyf yn siŵr a ydych chi wedi ystyried a fydd system les ledled y DU gyfan yn parhau yn y dyfodol, ac, os na fydd, beth yr ydym ni'n mynd i'w wneud am hynny. Nawr, mae'n debygol y bydd yr Alban yn cael pwerau dros les. A fydd pwerau dros les yn rhywbeth y byddwch chi'n gofyn amdanynt nawr gan San Steffan ar gyfer Cymru?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Two points: first of all, we don't know what the scale of the cuts will be. We have to wait and see what happens. We have an idea, but we don't know until we see the first financial settlement. Secondly, the welfare system does transfer money into Wales and we should be very wary about changing a system that provides us with a positive benefit. There is no UK-wide benefit system, of course, it's a GB-wide benefit system. In Northern Ireland, welfare is devolved, but we see what's happened there is that there is no agreement in terms of what should happen with the bedroom tax, for example, but there is no money to pay for what the Northern Ireland Executive, or part of it, would want to do. So, having the powers is one thing; having the money to deliver on people's expectations is another. We should examine very, very carefully whether wholesale welfare devolution is actually in Wales's interests if it means we then lose a chunk of money that is, at present, being transferred into Wales. That said, I do share her concern about what's in the pipeline, but neither she nor I will know what's going to be proposed by the Conservative Government—it's a change from coalition—and we'll have to wait and see and then, of course, make our assessment in terms of what it means for Wales.

Dau bwynt: yn gyntaf oll, nid ydym ni'n gwybod beth fydd maint y toriadau. Mae'n rhaid i ni aros i weld beth fydd yn digwydd. Mae gennym ni syniad, ond nid ydym ni'n gwybod tan i ni weld y setliad ariannol cyntaf. Yn ail, mae'r system les yn trosglwyddo arian i mewn i Gymru a dylem ni fod yn wyliadwrus iawn o newid system sy'n rhoi mantais gadarnhaol i ni. Nid oes system budd-daliadau ledled y DU, wrth gwrs, system fudd-daliadau ledled Prydain Fawr yw hi. Yng Ngogledd Iwerddon, mae lles wedi'i ddatganoli, ond rydym ni'n gweld mai'r hyn sydd wedi digwydd yno yw nad oes cytundeb o ran yr hyn a ddylai ddigwydd gyda'r dreth ystafell wely, er enghraifft, ond nid oes unrhyw arian i dalu am yr hyn y byddai Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, neu ran ohoni, eisiau ei wneud. Felly, mae meddu ar y pwerau'n un peth; mae meddu ar yr arian i fodloni disgwyliadau pobl yn rhywbeth arall. Dylem edrych yn ofalus iawn, iawn pa un a yw datganoli lles yn gyfan gwbl o wir les i Gymru os yw'n golygu ein bod ni wedyn yn colli swm o arian sydd, ar hyn o bryd, yn cael ei drosglwyddo i Gymru. Wedi dweud hynny, rwyf yn rhannu ei phryder am yr hyn sydd ar y gweill, ond ni fydd hi na minnau'n gwybod beth sy'n mynd i gael ei gynnig gan y Llywodraeth Geidwadol—mae'n newid o glymblaid—a bydd yn rhaid i ni aros i weld, ac yna, wrth gwrs, gwneud ein hasesiad o ran yr hyn y mae'n ei olygu i Gymru.

13:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Symudwn nawr at arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

13:44 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, Amnesty International have said that human rights must not be a political plaything to be bestowed or scrapped on a whim. My party, the Welsh Liberal Democrats, agree with them. Do you?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, mae Amnesty International wedi dweud na ddylai hawliau dynol fod yn bwnc i chwarae ag ef yn wleidyddol i'w cyflwyno neu eu diddymu ar fympwy. Mae fy mhlaid i, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yn cytuno â nhw. A ydych chi?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Ydw.

13:44 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

It seems pretty clear now, First Minister, that one of the priorities for the new Conservative Government is to put us in the same category as Belarus and Kazakhstan in terms of how we view human rights. In fact, to achieve what they really want, they actually need to withdraw the UK from the European Convention on Human Rights. What assessment has your Government made of the potential impact on our devolution settlement of any changes to the legislation that protects human rights in this country?

Mae'n ymddangos yn eithaf eglur nawr, Brif Weinidog, mai un o'r blaenoriaethau i'r Llywodraeth Geidwadol newydd yw ein rhoi ni yn yr un categori â Belarws a Kazakhstan o ran sut yr ydym ni'n ystyried hawliau dynol. Yn wir, er mwyn cyflawni'r hyn maen nhw wir ei eisiau, mae angen mewn gwirionedd iddyn nhw dynnu'r DU allan o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Pa asesiad mae eich Llywodraeth wedi ei wneud o effaith bosibl unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth sy'n diogelu hawliau dynol yn y wlad hon ar ein setliad datganoli?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, it makes us look like a banana republic, frankly. I mean, most countries in Europe, including Russia, are signatories and members of the European convention. The European convention was drafted by British lawyers. It's a British invention. There's a complete lack of understanding of history, of course, in Whitehall at the moment, but that is the reality of it. Now, when I met, as I said earlier on in answer to another Member, with the group that was looking at creating a British Bill of rights, it was clear to me they had absolutely no idea what they were being asked to do and they had absolutely no idea where devolution fitted in that regard. We still don't know, if the Human Rights Act is scrapped, what that means for the different settlements. It's an essential part of the Northern Ireland settlement. I don't believe that any thought's been given to that—it's all been focused on what it doesn't mean for Scotland, Wales and Northern Ireland. A lot of work will need to be done by the Conservative Government in terms of ensuring that that is got right.

Wel, mae'n gwneud i ni edrych fel gweriniaeth fanana, a dweud y gwir. Hynny yw, mae mwyafrif gwledydd Ewrop, gan gynnwys Rwsia, wedi llofnodi ac yn aelodau o'r confensiwn Ewropeaidd. Drafftiwyd y confensiwn Ewropeaidd gan gyfreithwyr o Brydain. Dyfais Brydeinig yw hi. Ceir diffyg dealltwriaeth llwyr o hanes, wrth gwrs, yn Whitehall ar hyn o bryd, ond dyna'r gwir amdani. Nawr, pan gyfarfûm, fel y dywedais yn gynharach wrth ateb Aelod arall, gyda'r grŵp a oedd yn edrych ar greu Deddf Hawliau Dynol Brydeinig, roedd yn amlwg i mi nad oedd ganddyn nhw unrhyw syniad o gwbl o'r hyn y gofynnwyd iddyn nhw ei wneud ac nid oedd ganddyn nhw unrhyw syniad o gwbl o sut yr oedd datganoli yn rhan o hynny. Rydym ni'n dal heb fod yn gwybod, os caiff y Ddeddf Hawliau Dynol ei diddymu, beth mae hynny'n ei olygu i'r gwahanol setliadau. Mae'n rhan hanfodol o setliad Gogledd Iwerddon. Nid wyf yn credu y rhoddwyd unrhyw ystyriaeth i hynny—mae'r cwbl wedi canolbwyntio ar yr hyn nad yw'n ei olygu i'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Bydd angen i'r Llywodraeth Geidwadol wneud llawer o waith o ran sicrhau bod hynny'n cael ei wneud yn iawn.

Senedd.tv Fideo Video

13:45 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Well, First Minister, QC Phillippe Sands is on the record, this morning, as saying that to do that we'd have to have a complete rewriting of the Government of Wales Act. First Minister, what steps will your Government take to protect the principles enshrined within the Human Rights Act here in Wales and what will you give us as your guarantee that you will fight alongside others, including my party, to ensure that any moves by the UK Government to abolish the Act are resisted?

Wel, Brif Weinidog, mae Phillippe Sands QC ar goedd, y bore yma, yn dweud y byddai'n rhaid i ni ailysgrifennu Deddf Llywodraeth Cymru yn llwyr er mwyn gwneud hynny. Brif Weinidog, pa gamau wnaiff eich Llywodraeth eu cymryd i amddiffyn yr egwyddorion a ymgorfforir yn y Ddeddf Hawliau Dynol yma yng Nghymru a beth wnewch chi ei roi i ni fel eich sicrwydd y byddwch yn ymladd ochr yn ochr ag eraill, gan gynnwys fy mhlaid i, er mwyn sicrhau bod unrhyw gamau gan Lywodraeth y DU i ddiddymu'r Ddeddf yn cael eu gwrthwynebu?

Senedd.tv Fideo Video

13:46 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

It's a strange scenario that we find now, where she and I are on the same side, after many years of combat across this Chamber. [Interruption.] I very much welcome that. But she is right to say that we should not move to a situation where the rights of individuals are weakened as a result of proposals by the Conservative Government. We will do, as a Government, all that we can to ensure that the rights that our citizens presently enjoy are not eroded by any proposals that come from Westminster.

Mae'n sefyllfa ryfedd yr ydym ni'n ei gweld nawr, pan fo hi a minnau ar yr un ochr, ar ôl blynyddoedd lawer o frwydro ar draws y Siambr hon. [Torri ar draws.] Rwy'n croesawu hynny'n fawr iawn. Ond mae hi'n iawn i ddweud na ddylem ni symud i sefyllfa lle mae hawliau unigolion yn cael eu gwanhau o ganlyniad i gynigion gan y Llywodraeth Geidwadol. Byddwn yn gwneud, fel Llywodraeth, popeth a allwn i sicrhau nad yw'r hawliau y mae ein dinasyddion yn eu mwynhau ar hyn o bryd yn cael eu lleihau gan unrhyw gynigion a ddaw o San Steffan.

Senedd.tv Fideo Video

13:46 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

Senedd.tv Fideo Video

13:46 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, do you agree with the Member for Blaenau Gwent that the Labour Government here has completely lost the argument when it comes to the NHS in Wales?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno â'r Aelod dros Flaenau Gwent fod y Llywodraeth Lafur yma wedi colli'r ddadl yn llwyr pan ddaw hi i'r GIG yng Nghymru?

Senedd.tv Fideo Video

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, let me give you some statistics in terms of the NHS. Every day, 100 babies are born, 50,000 people see a GP, 20,000 people see a dentist, 280,000 individual medicines are prescribed, 12,000 people have an out-patient appointment, 2,500 people are discharged from hospital and 10,000 x-rays are carried out. We know that most people get good treatment most of the time. There will be occasions when that doesn't happen, and it's important to rectify matters when there are weaknesses in the system.

Wel, gadewch i mi roi rhywfaint o ystadegau i chi o ran y GIG. Bob dydd, mae 100 o fabanod yn cael eu geni, mae 50,000 o bobl yn gweld meddyg teulu, mae 20,000 o bobl yn gweld deintydd, rhoddir 280,000 o feddyginiaethau unigol ar bresgripsiwn, mae gan 12,000 o bobl apwyntiad cleifion allanol, mae 2,500 o bobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty a chyflawnir 10,000 o archwiliadau pelydr-x. Rydym ni'n gwybod bod y rhan fwyaf o bobl yn cael triniaeth dda y rhan fwyaf o'r amser. Bydd adegau pan nad yw hynny'n digwydd, ac mae'n bwysig unioni pethau pan fo gwendidau yn y system.

That said, I accept, of course, that there are lessons for us as a party in terms of our messaging. For us, we have very high standards, and we did not reach those standards last week. For us, 25 seats are too low. For him, it would be marvellous, but for us it's too low. There are, I think, lessons for all parties within this Chamber. There are lessons for us in terms of what happened last week and, as a party, we must listen to the people of Wales and understand what they are saying to us. Particularly, we need to appeal to those people who are running small businesses, for example, who are not millionaires, but are working very, very hard. We must appeal to them and to all sections of society. Plaid will have their own ideas in terms of what happened to them, and the Lib Dems as well, but I have to say to the leader of the Conservatives as well: his party did well last week, I grant him that, and they gained seats. It is still only 11 out of 40, and the people of Wales did say very clearly that they didn't want to have a Conservative Government. The test for his party will be to make sure that the preferences of Scotland, Wales and Northern Ireland are well understood in London.

Wedi dweud hynny, rwy'n derbyn, wrth gwrs, fod gwersi i ni fel plaid o ran ein negeseuon. I ni, mae gennym ni safonau uchel iawn, ac ni wnaethom ni gyrraedd y safonau hynny yr wythnos diwethaf. I ni, mae 25 o seddi yn rhy isel. Iddo fe, byddai'n wych, ond i ni mae'n rhy isel. Ceir gwersi, rwy'n credu, i bob plaid yn y Siambr hon. Ceir gwersi i ni o ran yr hyn a ddigwyddodd yr wythnos diwethaf ac, fel plaid, mae'n rhaid i ni wrando ar bobl Cymru a deall yr hyn maen nhw'n ei ddweud wrthym. Yn arbennig, mae angen i ni apelio i'r bobl hynny sy'n rhedeg busnesau bach, er enghraifft, nad ydynt yn filiwnyddion, ond sy'n gweithio'n galed iawn iawn. Mae'n rhaid i ni apelio iddyn nhw ac i bob rhan o gymdeithas. Bydd gan Plaid eu syniadau eu hunain o ran yr hyn a ddigwyddodd iddyn nhw, a'r Democratiaid Rhyddfrydol hefyd, ond mae'n rhaid i mi ddweud wrth arweinydd y Ceidwadwyr hefyd: gwnaeth ei blaid yn dda yr wythnos diwethaf, rwy'n cyfaddef hynny, ac enillwyd seddi ganddynt. Dim ond 11 allan o 40 yw hi o hyd, a dywedodd pobl Cymru yn eglur iawn nad oedden nhw eisiau Llywodraeth Geidwadol. Yr her i'w blaid ef fydd sicrhau bod dewisiadau yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn cael eu deall yn iawn yn Llundain.

13:48 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, we live in the United Kingdom, and the United Kingdom voted for a Conservative Government last week, and comprehensively voted for a Conservative Government. I'm sorry to hear your narrow nationalism here today in response to the nationalists and in response to my first question, which was in relation to what one of your own Members had said: that you had comprehensively lost the argument. Also, it is interesting to know that a former employee and adviser to the public service Minister and a special adviser to the former Secretary of State for Wales, Peter Hain—David Taylor—said that you were in denial. Well, we can see from your answers that you are in denial. What assurances can we get from you today that you will change tack, you will listen to people's concerns on the NHS and you will start to address the loss of services in communities and, importantly, the one in seven people who are on a waiting list here in Wales?

Brif Weinidog, rydym ni'n byw yn y Deyrnas Unedig, a phleidleisiodd y Deyrnas Unedig dros Lywodraeth Geidwadol yr wythnos diwethaf, a phleidleisiodd yn gynhwysfawr dros Lywodraeth Geidwadol. Mae'n ddrwg gen i glywed eich cenedlaetholdeb cul yma heddiw mewn ymateb i'r cenedlaetholwyr ac mewn ymateb i'm cwestiwn cyntaf, a oedd yn ymwneud â'r hyn yr oedd un o'ch Aelodau eich hun wedi ei ddweud: eich bod wedi colli'r ddadl yn llwyr. Hefyd, mae'n ddiddorol gwybod bod cyn-weithiwr a chynghorydd i'r Gweinidog gwasanaethau cyhoeddus a chynghorydd arbennig i gyn-Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Peter Hain—David Taylor—wedi dweud eich bod yn gwadu'r sefyllfa. Wel, gallwn weld o'ch atebion eich bod yn gwadu'r sefyllfa. Pa sicrwydd allwn ni ei gael gennych chi heddiw y byddwch yn newid eich dull, y byddwch yn gwrando ar bryderon pobl am y GIG ac y byddwch yn dechrau mynd i'r afael â cholli gwasanaethau mewn cymunedau ac, yn bwysig, yr un o bob saith o bobl sydd ar restr aros yma yng Nghymru?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We hear that message loud and clear, and we will be working hard to make sure that the NHS sees its improvements over the next 12 months. I do not underestimate the worry that some people have in some parts of Wales in terms of the NHS. As a Government, we recognise that and we will be working to deal with that. But I'm worried about what he said about the general election. He cannot possibly claim that he can ignore Scotland, Wales and Northern Ireland and what happened there. There are great dangers there. One of the issues that has to be addressed is how we keep—and he is in the same position as me on this particular issue—the UK together. Denying what happened in Scotland will not do that. I hope that that is not within the thought of David Cameron as Prime Minister; otherwise, the union is lost.

Rydym ni'n clywed y neges honno'n blwmp ac yn blaen, a byddwn yn gweithio'n galed i sicrhau bod y GIG yn gweld ei welliannau dros y 12 mis nesaf. Nid wyf yn bychanu'r pryder sydd gan rai pobl mewn rhai rhannau o Gymru o ran y GIG. Fel Llywodraeth, rydym ni'n cydnabod hynny a byddwn yn gweithio i ymdrin â hynny. Ond rwy'n poeni am yr hyn a ddywedodd am yr etholiad cyffredinol. Ni all honni mewn gwirionedd y gall anwybyddu Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon a'r hyn a ddigwyddodd yno. Ceir peryglon mawr yn hynny. Un o'r materion y mae'n rhaid rhoi sylw iddo yw sut rydym ni'n mynd i gadw—ac mae ef o'r un safbwynt â mi ar y mater penodol hwn—y DU gyda'i gilydd. Ni fydd gwadu'r hyn a ddigwyddodd yn yr Alban yn gwneud hynny. Rwy'n gobeithio nad yw hynny ym meddwl David Cameron fel Prif Weinidog y DU; neu fel arall, mae'r undeb wedi ei cholli.

13:50 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

First Minister, first of all, I do have to pass on my former colleague in this institution's sincere thanks for your canvassing in Barry last Wednesday. Mr Alun Cairns wanted to pass that on, because you doubled his majority by going out and canvassing for him.

Brif Weinidog, yn gyntaf oll, mae'n rhaid i mi gyfleu diolch o galon fy nghyn-gydweithiwr yn y sefydliad hwn am eich canfasio yn y Barri ddydd Mercher diwethaf. Roedd Mr Alun Cairns yn awyddus i basio hynny ymlaen, oherwydd i chi ddyblu ei fwyafrif trwy fynd allan a chanfasio drosto.

But I do agree with you entirely that the United Kingdom is vital—and the integrity of the United Kingdom. That is why the Prime Minister, not only on the steps of Downing Street but in his acceptance speech at his own declaration, referred to the importance of Wales, Northern Ireland and Scotland in the United Kingdom, and the commitment that his Government will have in its first 100 days to deliver for those parts of the United Kingdom. But I do want to take up—[Interruption.]

Ond rwy'n cytuno â chi'n llwyr fod y Deyrnas Unedig yn hanfodol—a chyfanrwydd y Deyrnas Unedig. Dyna pam y cyfeiriodd y Prif Weinidog, nid yn unig ar risiau Stryd Downing, ond yn ei araith dderbyn yn ei ddatganiad ei hun, at bwysigrwydd Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn y Deyrnas Unedig, a'r ymrwymiad y bydd gan ei Lywodraeth yn ei 100 diwrnod cyntaf i gyflawni ar gyfer y rhannau hynny o'r Deyrnas Unedig. Ond rwyf eisiau derbyn— [Torri ar draws.]

13:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Order.

Trefn.

13:51 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—and offer our support on the comments that you made after the election about business. It is vital that business is encouraged and motivated here in Wales. We need to be speaking more kindly to businesses here. That is why we have brought forward so many proposals—Invest Wales, lowering business rates, inward investment strategies, housing strategy—and I make this commitment to you: where you want to work, we will work with you to make sure Wales is a more prosperous place. We have the ideas. Those ideas can come forward and become a reality if you want to embrace them, First Minister.

[Yn parhau.]—a chynnig ein cefnogaeth i'r sylwadau a wnaethoch ar ôl yr etholiad ynglŷn â busnes. Mae'n hanfodol bod busnes yn cael ei annog a'i ysgogi yma yng Nghymru. Mae angen i ni fod yn siarad yn fwy caredig â busnesau yma. Dyna pam yr ydym ni wedi cyflwyno cynifer o gynigion—Buddsoddi Cymru, gostwng ardrethi busnes, strategaethau mewnfuddsoddi, strategaeth dai—ac rwy'n gwneud yr ymrwymiad hwn i chi: lle rydych chi eisiau gweithio, byddwn yn gweithio gyda chi i wneud yn siŵr bod Cymru yn lle mwy llewyrchus. Mae'r syniadau gennym ni. Gall y syniadau hynny gael eu cyflwyno a throi'n wirionedd os ydych chi eisiau eu croesawu, Brif Weinidog.

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, I ran a small business. I know what challenges small businesses face.

Wel, rhedais i fusnes bach. Rwy'n gwybod pa heriau mae busnesau bach yn eu hwynebu.

13:51 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm running one.

Rwyf fi'n rhedeg un.

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, some of us are full time in this job. He's not. I understand what he's just said then, but there we are. I guess that's the background that I come from. [Interruption.]

Wel, mae rhai ohonom ni'n llawn amser yn y swydd hon. Dyw ef ddim. Rwy'n deall yr hyn y mae newydd ei ddweud, ond dyna ni. Mae'n debyg mai dyna'r cefndir rwy'n dod ohono. [Torri ar draws.]

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Can we listen to the First Minister? Thank you, First Minister.

A gawn ni wrando ar y Prif Weinidog? Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Senedd.tv Fideo Video

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We have the best foreign direct investment figures for 30 years. We've seen unemployment come down. That's a tribute to the economy Minister and the work that she has done, together with her officials. It is important. I understand full well that if you encourage the private sector you create more jobs, you create more revenue for the public sector and for public services. In return, the public sector delivers the healthy, well-educated workers that the private sector needs and doesn't have to pay for in the way that they would in the US, for example, with health insurance. That's a big, big burden on companies in America, believe me.

Mae'r ffigurau buddsoddiad uniongyrchol tramor gorau ers 30 mlynedd gennym. Rydym ni wedi gweld diweithdra'n gostwng. Mae hynny'n deyrnged i Weinidog yr economi a'r gwaith y mae hi wedi ei wneud, ynghyd â'i swyddogion. Mae'n bwysig. Rwy'n deall yn iawn, os ydych chi'n annog y sector preifat eich bod yn creu mwy o swyddi, eich bod yn creu mwy o refeniw i'r sector cyhoeddus ac i'r gwasanaethau cyhoeddus. Mewn ymateb, mae'r sector cyhoeddus yn darparu'r gweithwyr iach, wedi'u haddysgu'n dda sydd eu hangen ar y sector preifat ac nad oes yn rhaid talu amdanynt yn y ffordd y byddai'n rhaid yn yr Unol Daleithiau, er enghraifft, gydag yswiriant iechyd. Mae hynny'n faich mawr iawn ar gwmnïau yn America, credwch chi fi.

But I have to make this point to him: the UK is in an exceptionally difficult position. To ignore what happened in Scotland is a mistake. Your party has one MP—as does mine—in Scotland. To try and say, 'Well, that doesn't really matter in terms of the whole of the UK', is a mistake. Now, in order to ensure the future of the UK—and you've heard me say it many, many times before—the convention is important in terms of getting the structure right. I heard what the Prime Minister said about delivering for Scotland, Wales and Northern Ireland within 100 days; I look to him to keep that promise of delivery within 100 days. Then, of course, we can see, and we can judge, whether what he says and what he delivers are the same thing.

Ond mae'n rhaid i mi wneud y pwynt hwn iddo: mae'r DU mewn sefyllfa eithriadol o anodd. Mae anwybyddu'r hyn a ddigwyddodd yn yr Alban yn gamgymeriad. Mae gan eich plaid un AS—fel fy un innau—yn yr Alban. Mae ceisio dweud, 'Wel, nid yw hynny wir o bwys o ran y DU gyfan', yn gamgymeriad. Nawr, er mwyn sicrhau dyfodol y Deyrnas Unedig—ac rydych chi wedi fy nghlywed i'n ei ddweud lawer, lawer gwaith o'r blaen—mae'r confensiwn yn bwysig o ran cael y strwythur yn iawn. Clywais yr hyn a ddywedodd Prif Weinidog y DU am gyflawni ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon o fewn 100 diwrnod; disgwyliaf iddo gadw'r addewid hwnnw o gyflawni o fewn 100 diwrnod. Yna, wrth gwrs, gallwn weld, a gallwn farnu, pa un a yw'r hyn y mae'n ei ddweud a'r hyn y mae'n ei gyflawni yr un fath â'i gilydd.

13:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you very much. We now move back to the questions on the agenda. Question 3 is Nick Ramsay.

Diolch yn fawr iawn. Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar yr agenda nawr. Daw cwestiwn 3 gan Nick Ramsay.

### Seilwaith Ffyrdd

### Road Infrastructure

13:53 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru i gefnogi ein seilwaith ffyrdd? OAQ(4)2265(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on Welsh Government policies for supporting our road infrastructure? OAQ(4)2265(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Transport links are vital to our economy and we are committed to ensuring a robust and well-maintained road network.

Mae cysylltiadau trafnidiaeth yn hanfodol i'n heconomi ac rydym ni wedi ymrwymo i sicrhau rhwydwaith ffyrdd cadarn sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda.

Senedd.tv Fideo Video

13:53 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you, First Minister. In last week's questions, you indicated that the port of Newport's major concerns over disruption to their operations by the Welsh Government's M4 black route could be mitigated by a new bridge. Now, given that some estimates have already put the cost of your chosen M4 black route at over £1 billion, will you give us the current assessment of how much you think that that route is going to cost, and how much will a new bridge add to the price tag?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Nodwyd gennych yng nghwestiynau'r wythnos diwethaf, y gellid lliniaru prif bryderon porthladd Casnewydd am darfu ar eu gweithrediadau drwy lwybr du Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 gyda phont newydd. Nawr, o gofio bod rhai amcangyfrifon eisoes wedi nodi y bydd cost llwybr du yr M4 a ddewisiwyd gennych, yn fwy na £1 biliwn, a wnewch chi roi'r asesiad cyfredol i ni o faint yr ydych chi'n ei feddwl mae'r llwybr hwnnw'n mynd i gostio, a faint fydd pont newydd yn ei ychwanegu at y pris?

13:54 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well below £1 billion. The reason why we would not reveal an actual cost at this stage is because we have to negotiate with contractors. The last thing we would do is declare our hand up front in terms of how much money we're prepared to pay. But it's a long, long way underneath £1 billion. Now, we have to get clarity from his party. His Prime Minister has said that the Brynglas tunnels are, as he put it, throttling the Welsh economy—he means the south Wales economy. I agree with him. That much is true, but we need to understand two things. First, whether his party is, in fact, in favour of an M4 relief road. We don't know that. We know that there are different views; we've seen them expressed on Twitter. But secondly, we need to understand what is the best route. The preferred route, of course, is the black route. There are still, of course, issues that need to be addressed—we understand that—but it would not be correct to say that there are easy alternatives that are simply being ignored. There are not. If we're going to get this done, we need to get it right.

Llawer llai nag £1 biliwn. Y rheswm pam na fyddem yn datgelu cost bendant ar hyn o bryd yw oherwydd bod yn rhaid i ni drafod gyda chontractwyr. Y peth olaf fyddem ni'n ei wneud fyddai datgan ein sefyllfa ymlaen llaw, o ran faint o arian rydym ni'n barod i'w dalu. Ond mae'n llawer, llawer iawn llai nag £1 biliwn. Nawr, mae'n rhaid i ni gael eglurder gan ei blaid ef. Mae ei Brif Weinidog wedi dweud bod twneli Brynglas, yn ei eiriau ef, yn tagu economi Cymru—economi de Cymru mae'n ei olygu. Rwy'n cytuno ag ef. Mae cymaint â hynny'n wir, ond mae angen i ni ddeall dau beth. Yn gyntaf, pa un a yw ei blaid ef, mewn gwirionedd, o blaid ffordd liniaru i'r M4. Nid ydym yn gwybod hynny. Rydym ni'n gwybod bod gwahanol safbwyntiau; rydym ni wedi eu gweld nhw'n cael eu mynegi ar Twitter. Ond yn ail, mae angen i ni ddeall beth yw'r llwybr gorau. Y llwybr â ffefrir, wrth gwrs, yw'r llwybr du. Ceir problemau o hyd, wrth gwrs, y mae angen rhoi sylw iddynt—rydym ni'n deall hynny—ond ni fyddai'n gywir i ddweud bod dewisiadau eraill rhwydd sy'n cael eu hanwybyddu. Nid oes. Os ydym ni'n mynd i gyflawni hyn, mae angen i ni ei wneud yn iawn.

13:55 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, would you agree with me that one way of supporting our road infrastructure in Wales and easing the pressure upon it is by taking forward policies that will achieve modal shift and get people onto the trains and onto the buses in greater number through, for example, the metro system, and also that if we implement our Active Travel (Wales) Act 2013 effectively to get more people walking and cycling, that, too, will ease pressure on our road infrastructure?

Brif Weinidog, a fyddech chi'n cytuno â mi mai un ffordd o gefnogi ein seilwaith ffyrdd yng Nghymru a lleddfu'r pwysau arno yw trwy fwrw ymlaen â pholisïau a fydd yn cyflawni newid moddol a chael pobl ar y trenau ac ar y bysiau mewn niferoedd mwy trwy, er enghraifft, y system fetro, a hefyd, os byddwn yn gweithredu ein Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn effeithiol, cael mwy o bobl i gerdded a beicio, y bydd hynny, hefyd, yn lleddfu'r pwysau ar ein seilwaith ffyrdd?

13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I think that is self-evidently true. When it comes to modal shift, it's easier to get individuals to do it than it is families, for example, because if there are four or five of you it's cheaper to go by car than it is by train. That can be difficult. It's more difficult again to get modal shift in terms of freight, because of the freight that goes on lorries. So, whilst I agree entirely with him that modal shift is important, in terms of taking pressure off the roads, I don't think we can rely on that in terms of the M4. There's a lot of freight traffic on it that can't be moved easily onto the railways. Especially on weekends, a lot of tourists are coming in with a lot of luggage in their cars adding to the traffic, and it would be difficult to get them to move onto the trains for physical reasons.

Rwy'n credu bod hynny'n gwbl amlwg. Pan ddaw i newid moddol, mae'n haws cael unigolion i'w wneud na theuluoedd, er enghraifft, gan ei bod yn rhatach mynd yn y car nag ar y trên os oes pedwar neu bump ohonoch chi. Gall hynny fod yn anodd. Mae'n fwy anodd eto cael newid moddol o ran cludo nwyddau, oherwydd y nwyddau sy'n cael eu cludo ar loriau. Felly, er fy mod i'n cytuno'n llwyr ag ef fod newid moddol yn bwysig, o ran cymryd pwysau oddi ar y ffyrdd, nid wyf yn meddwl y gallwn ni ddibynnu ar hynny o ran yr M4. Ceir llawer o draffig cludo nwyddau arni na ellir ei symud ar y rheilffyrdd yn rhwydd. Yn enwedig ar benwythnosau, mae llawer o dwristiaid yn dod i mewn gyda llawer o fagiau yn eu ceir gan ychwanegu at y traffig, a byddai'n anodd eu cael i symud ar y trenau am resymau ffisegol.

As somebody who uses public transport regularly, I'm more than happy, of course, to promote its merits. But, I think, sometimes you have to accept, where you have a problem, yes, you can promote modal shift to an extent, but, nevertheless, there will be occasions when, actually, building a new road will be important. The same applies, of course, to the Newtown bypass, where it would be unrealistic to expect modal shift to reduce traffic in Newtown. That's why, of course, we are so pleased to be able to take forward the Newtown bypass and to finance it.

Fel rhywun sy'n defnyddio cludiant cyhoeddus yn rheolaidd, rwy'n fwy na hapus, wrth gwrs, i hyrwyddo ei rinweddau. Ond, rwy'n credu, bod yn rhaid i chi dderbyn weithiau, os oes gennych chi broblem, gallwch, fe allwch chi hyrwyddo newid moddol i raddau, ond, serch hynny, bydd adegau pan, mewn gwirionedd, y bydd adeiladu ffordd newydd yn bwysig. Mae'r un peth yn wir, wrth gwrs, am ffordd osgoi'r Drenewydd, lle y byddai'n afrealistig disgwyl i newid moddol leihau traffig yn y Drenewydd. Dyna pam, wrth gwrs, yr ydym ni mor falch o allu bwrw ymlaen â ffordd osgoi'r Drenewydd a'i hariannu.

13:56 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Recently, the Conservatives have been tying in promises of security on funding for Wales, vital for infrastructure spend, to proposals for the devolution of more powers. Now the BBC is reporting that there will be no rush to bring in further devolution, certainly not in the first year of this Government. How does that affect your proposals for investing in infrastructure, including road infrastructure in Wales, and how do you plan to lobby UK Government on that funding and devolution issue?

Yn ddiweddar, mae'r Ceidwadwyr wedi bod yn cysylltu addewidion am ddiogelu cyllid i Gymru, sy'n hanfodol ar gyfer gwariant seilwaith, â chynigion ar gyfer datganoli mwy o bwerau. Nawr mae'r BBC yn adrodd na fydd unrhyw frys i gyflwyno datganoli pellach, yn sicr nid ym mlwyddyn gyntaf y Llywodraeth hon. Sut mae hynny'n effeithio ar eich cynigion ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith, gan gynnwys seilwaith ffyrdd yng Nghymru, a sut ydych chi'n bwriadu lobïo Llywodraeth y DU ar y mater cyllid a datganoli hwnnw?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We don't know. He is right to say that there has been much talk that there will be a rowing back from the promise that was given. We have to wait and see. But, it would be extraordinary if the promise not to move forward with further devolution in Wales was not kept and broken within a week of the Government coming into power. You know, I think that the people of Wales would find that very difficult to accept—to see a promise broken that quickly. But, let's wait and see.

Nid ydym yn gwybod. Mae'n iawn i ddweud y bu llawer o sôn y bydd tynnu yn ôl o'r addewid a wnaed. Mae'n rhaid i ni aros i weld. Ond, byddai'n anhygoel pe na byddai'r addewid i beidio â bwrw ymlaen â datganoli pellach yng Nghymru yn cael ei gadw ac yn cael ei dorri o fewn wythnos i'r Llywodraeth ddod i rym. Wyddoch chi, rwy'n meddwl y byddai pobl Cymru yn gweld hynny'n anodd iawn ei dderbyn—i weld addewid yn cael ei dorri mor gyflym â hynny. Ond, gadewch i ni aros i weld.

From our point of view, we do not accept that, somehow, Scotland and Wales have to proceed at different speeds in terms of the legislation proceeding through Westminster. If this is going to be done properly, as I've said many, many times before, there has to be a proper four-nation approach to devolution and to the constitution. Unfortunately, I don't see signs of it so far and I think that will not be to the UK's good over the next five years.

O'n safbwynt ni, nid ydym yn derbyn, rywsut, bod yn rhaid i Gymru a'r Alban symud ymlaen ar wahanol gyflymder o ran y ddeddfwriaeth yn symud drwy San Steffan. Os yw hyn yn mynd i gael ei wneud yn iawn, fel yr wyf wedi ei ddweud lawer, lawer gwaith o'r blaen, mae'n rhaid cael dull pedair gwlad priodol o ymdrin â datganoli a'r cyfansoddiad. Yn anffodus, nid wyf yn gweld arwyddion o hynny hyd yn hyn ac nid wyf yn credu y bydd hynny o les i'r DU dros y pum mlynedd nesaf.

### Gwasanaethau Orthodontig

### Orthodontic Services

13:58 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*4. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu prif amcanion y ddarpariaeth o wasanaethau orthodontig yng Nghymru? OAQ(4)2261(FM)*

*4. Will the First Minister provide an outline of the main objectives of orthodontic service provision in Wales? OAQ(4)2261(FM)*

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Ein prif amcan yw sicrhau bod byrddau iechyd yn darparu gwasanaethau orthodontig sy'n cwrdd ag anghenion iechyd deintyddol y bobl—mae hynny'n amlwg. Mae adroddiad annibynnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn amlinellu'r gwelliannau sydd wedi digwydd.

Our main objective is to ensure health boards provide orthodontic services that meet the clinically assessed dental health needs of their population—that is evident. A recent independent report highlights the improvements that have taken place.

13:58 **Keith Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch. Rwyf wedi cael nifer o gŵynion yn ddiweddar bod pobl ifanc ar restr aros am lan i dair blynedd. Pa drafodaethau a geir ar hyn a pha gyfeiriad a roddir i'r byrddau iechyd i leihau'r aros? Pa gefnogaeth y maen nhw wedi'i hamlinellu i wella'r sefyllfa?

Thank you. I've received a number of complaints recently that young people are on waiting lists for up to three years. What discussions are being had on this and what direction is given to the health boards to reduce these waiting times? What support have they outlined to improve the situation?

13:59 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rwy'n deall bod Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi sicrhau clinigau estyn mas—'outreach'—yn yr ardal, ac rwy'n deall nawr bod yr amser y mae pobl yn gorfod aros i gael asesiad wedi lleihau yn sylweddol. Felly, gobeithio bydd y 'trend' yn parhau nawr, wrth gwrs, dros y misoedd nesaf.

I understand that Hywel Dda Local Health Board has secured outreach clinics within its area, and I understand now that the time people have to wait for an assessment has been reduced significantly. So, we hope that this trend will continue over the ensuing months.

13:59 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, forgive me, but that answer sounded rather complacent from the Welsh Government. These waiting times for orthodontic treatment have been missed year in, year out for as long as you've been First Minister. Some people in Wales are waiting over three and a half years to access their appointments with an orthodontist in Welsh hospitals. That is completely unacceptable. If you're so complacent about this, what are you going to do about the general waiting time problem that your Government has here in Wales, which was so manifestly rejected in the polls in certain parts of north Wales, particularly in the Vale of Clwyd?

Brif Weinidog, maddeuwch i mi, ond roedd yr ateb yna'n swnio braidd yn hunanfodlon gan Lywodraeth Cymru. Methwyd yr amseroedd aros hyn ar gyfer triniaeth orthodontig flwyddyn ar ôl blwyddyn am gyhyd ag yr ydych chi wedi bod yn Brif Weinidog. Mae rhai pobl yng Nghymru'n aros dros dair blynedd a hanner i gael eu hapwyntiadau gydag orthodeintydd yn ysbytai Cymru. Mae hynny'n gwbl annerbyniol. Os ydych chi mor hunanfodlon am hyn, beth ydych chi'n mynd i'w wneud am y broblem amseroedd aros cyffredinol sydd gan eich Llywodraeth yma yng Nghymru, a wrthodwyd mor bendant yn y polau mewn rhai rhannau o'r gogledd, yn enwedig yn Nyffryn Clwyd?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, he clearly didn't listen carefully to what I've just said, but then he wouldn't, would he, because he had his view that he wanted to put beforehand. Hywel Dda provided additional outreach clinics and referral to assessment—

Wel, mae'n amlwg na wrandawodd yn ofalus ar yr hyn yr wyf newydd ei ddweud, ond wedyn, ni fyddai'n gwneud hynny, na fyddai, gan fod y safbwynt yr oedd eisiau ei gyfleu ganddo ymlaen llaw. Darparodd Hywel Dda glinigau allgymorth ychwanegol ac atgyfeirio i asesu—

14:00 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I've listened very carefully. What are you doing about it?

Rydw i wedi gwrando'n ofalus iawn. Beth ydych chi'n mynd i'w wneud am y peth?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

That has reduced significantly—. If he listened carefully, he might learn something. And the time has been reduced significantly to some four to six weeks.

Mae hynny wedi gostwng yn sylweddol—. Pe byddai'n gwrando'n ofalus, efallai y byddai'n dysgu rhywbeth. Ac mae'r amser wedi cael ei leihau'n sylweddol i oddeutu pedair i chwe wythnos.

14:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Darren Millar, will you wait to reply?

Darren Millar, a wnewch chi aros i ymateb?

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

That is what we have done. If he'd listen more carefully, he would get the answers that he seeks.

Dyna'r hyn yr ydym ni wedi ei wneud. Pe byddai'n gwrando'n fwy gofalus, byddai'n cael yr atebion y mae'n gofyn amdanynt.

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Treatment.

Triniaeth.

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Darren Millar. Have you finished, First Minister?

Darren Millar. A ydych chi wedi gorffen, Brif Weinidog?

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes.

Ydw.

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Thank you. Lindsay Whittle.

Diolch yn fawr. Lindsay Whittle.

Senedd.tv Fideo Video

14:00 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Diolch, Lywydd. First Minister, you've told us about Hywel Dda, and thank you for that, but what specific achievements can you tell us about, regarding orthodontics, measured against the actual oral health plan? Is any of the oral health plan working? It's clearly doing okay in Hywel Dda, but there are some serious inconsistencies in services available across Wales. What's happening with the rest of Wales? We don't just represent Hywel Dda, with the greatest of respect to Hywel Dda.

Diolch, Lywydd. Brif Weinidog, rydych chi wedi dweud wrthym am Hywel Dda, a diolch i chi am hynny, ond pa gyflawniadau penodol allwch chi ddweud wrthym ni amdanynt, o ran orthodonteg, wedi eu mesur yn erbyn y cynllun iechyd y geg gwirioneddol? A oes unrhyw ran o'r cynllun iechyd y geg yn gweithio? Mae'n amlwg yn gwneud yn o lew yn Hywel Dda, ond ceir rhai anghysondebau difrifol mewn gwasanaethau ledled Cymru. Beth sy'n digwydd gyda gweddill Cymru? Nid ydym ni'n cynrychioli Hywel Dda yn unig, gyda phob parch i Hywel Dda.

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well we have been—[Interruption.] I don't want to add to the discord on the Plaid benches there, but we have been driving through efficiencies and improvements in orthodontic services over the last three years; for example, there has been a 59 per cent reduction in the number of assess and review appointments—that's a major efficiency gain. It's meant that health boards have been able to commission an additional 533 patients per year starting treatment, and those actions, of course, are helping to improve the efficiency of the system, and we will continue to drive that efficiency in the future.

Wel rydym ni wedi bod yn—[Torri ar draws.] Nid wyf i eisiau ychwanegu at yr anghytuno ar feinciau Plaid, ond rydym ni wedi bod yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd a gwelliannau mewn gwasanaethau orthodontig yn ystod y tair blynedd diwethaf; er enghraifft, bu gostyngiad o 59 y cant i nifer yr apwyntiadau asesu ac adolygu—mae hynny'n gaffaeliad effeithlonrwydd mawr. Mae wedi golygu bod byrddau iechyd wedi llwyddo i gomisiynu 533 o gleifion ychwanegol y flwyddyn yn dechrau ar driniaeth, ac mae'r camau hynny, wrth gwrs, yn helpu i wella effeithlonrwydd y system, a byddwn yn parhau i sicrhau'r effeithlonrwydd hwnnw yn y dyfodol.

### Economi Wledig Cymru

### The Welsh Rural Economy

14:01 **William Powell** Bywgraffiad Biography

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y disgwyliadau ar gyfer economi wledig Cymru yn y dyfodol? OAQ(4)2268(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on the future prospects for the Welsh rural economy? OAQ(4)2268(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:01 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. We are committed to delivering jobs and growth across Wales, and we recognise the importance of the rural economy, and we provide support for businesses to start, grow and prosper through Business Wales and Farming Connect.

Gwnaf. Rydym ni wedi ymrwymo i ddarparu swyddi a thwf ledled Cymru, ac rydym ni'n cydnabod pwysigrwydd yr economi wledig, ac rydym ni'n darparu cymorth i fusnesau gychwyn, tyfu a ffynnu trwy Busnes Cymru a Chyswllt Ffermio.

14:01 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the First Minister very much for that response. At a recent meeting of local farmers in mid Wales, significant concerns were expressed regarding the current lack of grid capacity in the area to connect renewable energy projects. First Minister, what assessment have you made of how many businesses have been dissuaded from inward investment and expansion, particularly in the Newtown and Welshpool area, by this current problem? What engagement do you plan with the newly appointed Minister for Energy and Climate Change, Amber Rudd, in this regard?

Diolchaf yn fawr iawn i'r Prif Weinidog am yr ymateb yna. Mewn cyfarfod diweddar o ffermwyr lleol yn y canolbarth, mynegwyd pryderon sylweddol ynghylch y diffyg presennol o gapasiti grid yn yr ardal i gysylltu prosiectau ynni adnewyddadwy. Brif Weinidog, pa asesiad ydych chi wedi ei wneud o faint o fusnesau a berswadiwyd i beidio â mewnfuddsoddi ac ehangu, yn enwedig yn ardal y Drenewydd a'r Trallwng, oherwydd y broblem bresennol hon? Pa ymgysylltiad ydych chi'n ei gynllunio gyda'r Gweinidog Ynni a Newid Hinsawdd sydd newydd ei phenodi, Amber Rudd, yn hyn o beth?

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

The mid Wales grid is fragile; we know that. It doesn't have a lot of capacity, and we do know that it is a potential brake on growth in the area. Of course, that does mean that in order to expand, or to improve rather, grid capacity, and indeed resilience, there need to be bigger pylons, and we know where that takes us in terms of the discussions that have been in previous months and years within this Assembly. But the reality is that the grid is fragile. If the grid is to be expanded in the future, and made more resilient and stronger, it's inevitable that there'll be a need to examine once again what the cabling looks like. These are matters for the UK Government, of course. These are not matters that are devolved, and it's for the public to assess how that balance is actually created between, on the one hand, the need to ensure resilience and greater capacity, and on the other hand, the visual impact of what that capacity would mean.

Mae grid y canolbarth yn fregus; rydym ni'n gwybod hynny. Nid oes ganddo lawer o gapasiti, ac rydym ni'n gwybod ei fod yn ataliad posibl i dwf yn yr ardal. Wrth gwrs, nid yw hynny'n golygu, er mwyn ehangu, neu wella yn hytrach, capasiti, a chydnerthedd yn wir, y grid, bod angen peilonau mwy, ac rydym ni'n gwybod i ble mae hynny'n mynd â ni o ran y trafodaethau a gafwyd yn ystod y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf yn y Cynulliad hwn. Ond y gwir amdani yw bod y grid yn fregus. Os yw'r grid am gael ei ehangu yn y dyfodol, a chael ei wneud yn fwy gwydn ac yn gryfach, mae'n anochel y bydd angen ystyried unwaith eto sut mae'r ceblau'n edrych. Materion i Lywodraeth y DU yw'r rhain, wrth gwrs. Nid yw'r rhain yn faterion sydd wedi'u datganoli, a chyfrifoldeb y cyhoedd yw asesu sut y sicrheir y cydbwysedd yna rhwng, ar y naill law, yr angen i sicrhau cydnerthedd a mwy o gapasiti, ac ar y llaw arall, effaith weledol yr hyn y byddai'r capasiti hwnnw'n ei olygu.

14:03 **Russell George** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

You have referred, First Minister, to the grid being fragile and this being a barrier to businesses that need an increased supply, but it's my understanding that the project proposed by National Grid is to only take power out and not to bring power in. But, can I just confirm: do you have a different understanding to me?

Rydych chi wedi cyfeirio, Brif Weinidog, at y ffaith fod y grid yn fregus a bod hyn yn rhwystr i fusnesau sydd angen cyflenwad cynyddol, ond fy nealltwriaeth i yw bod y prosiect sy'n cael ei gynnig gan y Grid Cenedlaethol ar gyfer cymryd pŵer allan yn unig ac nid dod â phŵer i mewn. Ond, a gaf i gadarnhau: a oes gennych chi wahanol ddealltwriaeth i mi?

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

No. As far as the National Grid is concerned, the grid changes that they propose—and it's for the Conservative Government to examine—involve primarily the power being taken out of the areas where there are proposed windfarms. Nevertheless, the fragility of the grid, in terms of it being able to service businesses, is clear. As I say, it's now a matter for him and his party to decide what the grid network will look like in his constituency.

Nac oes. Cyn belled ag y mae'r Grid Cenedlaethol yn y cwestiwn, mae'r newidiadau i'r grid maen nhw'n eu cynnig —a mater i'r Llywodraeth Geidwadol yw archwilio—yn ymwneud yn bennaf â'r pŵer sy'n cael ei gymryd allan o'r ardaloedd lle y ceir ffermydd gwynt arfaethedig. Serch hynny, mae pa mor fregus yw'r grid, o ran ei allu i wasanaethu busnesau, yn eglur. Fel y dywedais, mater iddo ef a'i blaid yw penderfynu nawr sut bydd y rhwydwaith grid yn edrych yn ei etholaeth.

14:04

## Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

A gaf i ehangu'r cwestiwn i'r mater o raglen datblygu gwledig yn gyffredinol a gofyn i'r Prif Weinidog a all e roi sicrwydd i'r cymunedau gwledig y bydd y cyllid a arbedwyd gan Lywodraeth Cymru—gan y Gweinidog blaenorol—i'w ailddosbarthu drwy ddatblygiadau rhaglen datblygu gwledig, y bydd hwnnw'n cael ei fuddsoddi yn sylweddol mewn mentrau a fydd yn ychwanegu gwerth at gynnyrch amaethyddol, fel y datblygiad ardderchog yn y diwydiant llaeth sydd ar y foment hon yn dechrau cael ei adeiladu yn Rhydygwystl ger Chwilog yn fy etholaeth i?

May I expand the question to the issue of the rural development programme more generally and ask the First Minister whether he can give rural communities an assurance that the funding saved by the Welsh Government and the previous Minister will be redistributed through RDP developments, that that will be invested significantly in initiatives that will add value to agricultural produce, such as the excellent development in the dairy industry, which is now starting to be built in Rhydygwystl near Chwilog in my constituency?

14:05

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Byddwn i'n erfyn iddo ddigwydd, wrth gwrs, a hefyd i helpu busnesau sydd ddim yn rhan o'r sector amaethyddol, er mwyn sicrhau mwy o swyddi yng Nghymru wledig. Felly, byddwn i'n erfyn hynny i ddigwydd beth bynnag. Un o'r pethau, wrth gwrs, sy'n mynd i helpu'n fawr iawn yw Superfast Cymru, a'r ffaith bod 96 y cant o adeiladau yng Nghymru yn mynd i gael mynediad at Superfast Cymru erbyn mis Medi y flwyddyn nesaf, ac rydym ni'n ystyried ar hyn o bryd sut i gyrraedd y 4 y cant sydd ar ôl hefyd. Bydd hynny'n fuddsoddiad sylweddol ynglŷn â rhwydwaith band eang yng Nghymru wledig.

Of course, I would expect that to happen and also to assist businesses that aren't part of the agriculture sector in order to secure more jobs in rural Wales. So, I would expect that to happen anyway. One of the things that, of course, will be of great help is Superfast Cymru and the fact that 96 per cent of buildings in Wales will have access to Superfast Cymru by September of next year, and we're considering at present how to reach the remaining 4 per cent too. That will be a significant investment as regards the broadband network in rural Wales.

### Y Sector Manwerthu Annibynnol

### The Independent Retail Sector

14:05

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r sector manwerthu annibynnol? OAQ(4)2271(FM)*

*6. What action is the Welsh Government taking to support the independent retail sector? OAQ(4)2271(FM)*

14:05

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Rydym ni wedi cymryd camau i gefnogi busnesau ar draws pob sector yng Nghymru, gan gynnwys manwerthu. Er enghraifft, fis diwethaf lansiwyd cynllun rhyddhad manwerthu Cymru. Mae hwnnw'n mynd i roi gwerth hyd at £1,500 o ryddhad trethi busnes i safleoedd manwerthu a safleoedd bwyd a diod sy'n gymwys o dan y cynllun.

We've taken action to support businesses in Wales across all sectors, including retail. For example, last month we launched the Wales retail relief scheme, which will provide up to £1,500 of business rates relief to qualifying retail and food and drinks premises.

14:06

## Gwenda Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Brif Weinidog. Ym Mhontardawe, yn fy etholaeth, rydym wedi gweld cynnydd sydyn yn nifer y manwerthwyr annibynnol: Fresh 2 Go, Decorum a Blissful Bakes. Gallaf argymell yn arbennig eu teisennau banoffee. Maent i gyd wedi agor yn y flwyddyn diwethaf, ac i gyd yn gwneud yn dda iawn. Fel y gwyddom, mae amrywiaeth y stryd fawr yn atyniad sylweddol i dwristiaid ac mewn trefi bach fel Pontardawe, sydd â phoblogaeth o 5,000, mae hyn yn arbennig o bwysig. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud gwaith rhagorol wrth gefnogi ardaloedd gwella busnes mewn nifer o drefi mwy. A ydych yn teimlo, Brif Weinidog, y byddai o werth i hyrwyddo ceisiadau o drefi llai, neu hyd yn oed i greu cynllun newydd i dargedu trefi bach gyda photensial twristiaeth uchel?

Thank you, First Minister. In Pontardawe, in my own constituency, we have seen a swift increase in the number of independent retailers: Fresh to Go, Decorum and Blissful Bakes. I can particularly recommend their banoffee cakes. All of these have established over the past year and all are doing very well. As we know, variety on the high street is a great attraction for tourists and in small towns such as Pontardawe, which has a population of 5,000, this is particularly important. The Welsh Government has done excellent work in supporting business improvement districts in many larger towns. Do you believe, First Minister, that it would be of great value to promote applications from smaller towns also, or even to create a new scheme to target smaller towns with high tourist potential?

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, mae'n wir i ddweud, wrth gwrs, bod y BIDs eu hunain—mae yna 10 ohonyn nhw, rhai mewn trefi sy'n eithaf gwledig, rhai mewn trefi sy'n fwy—ac mae hwn yn gynllun sy'n mynd i fod o les i'r ardaloedd hynny. Yn y dyfodol, yn y pen draw, bydd yn rhaid inni barhau i ystyried ym mha ffordd y gallai'r cynllun yna, neu ryw gynllun newydd, helpu trefi fel Pontardawe a rhai o'r un maint, er mwyn sicrhau eu bod nhw'n gallu tyfu mewn ffordd gynaliadwy yn y dyfodol.

Well, it's true to say, of course, that the BIDs themselves—there are 10 of them, some of them in quite rural towns and others in larger towns—this is a scheme that will benefit those areas. In future, ultimately, we will have to continue to consider how that scheme, or a new scheme, might assist towns such as Pontardawe and towns of the same size, in order to ensure that they can grow in a sustainable way in future.

Senedd.tv Fideo Video

14:07 **William Graham** Bywgraffiad Biography

The First Minister will know that the retail industry is the second-largest private employer in Wales, employing over 130,000 people. Now, for many companies, corporation tax is less of a worry than business rates. Isn't it now time to extend your scheme, particularly for small businesses?

Bydd y Prif Weinidog yn gwybod mai'r diwydiant manwerthu yw'r ail gyflogwr preifat mwyaf yng Nghymru, yn cyflogi dros 130,000 o bobl. Nawr, i lawer o gwmnïau, mae'r dreth gorfforaeth yn llai o bryder nag ardrethi busnes. Onid yw'n bryd erbyn hyn i ymestyn eich cynllun, yn enwedig ar gyfer busnesau bach?

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We will not put our small businesses in a more difficult position than exists elsewhere in the UK. However, if it is a proposal from the Welsh Conservatives that they wish to extend any scheme, they will have to explain where the money comes from to do that. That, I think, is the responsible thing to do.

Ni fyddwn yn rhoi ein busnesau bach mewn sefyllfa fwy anodd na'r hyn sy'n bodoli mewn mannau eraill yn y DU. Fodd bynnag, os yw'n gynnig gan Geidwadwyr Cymru eu bod yn dymuno ymestyn unrhyw gynllun, bydd yn rhaid iddyn nhw esbonio o ble y daw'r arian i wneud hynny. Dyna, rwy'n credu, yw'r peth cyfrifol i'w wneud.

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, fel rŷm ni i gyd yn gwybod, mae yna her yn ein wynebu ni o ran cynyddu'r economi a chreu economi hyfyw y tu allan i goridorau'r M4 a'r A55. A ydych chi'n gallu gweld manwerthu fel modd nid yn unig i greu economi hyfyw yn ein trefi bach ni, ac yn enwedig trefi marchnad yng nghefn gwlad, ond yn fodd hefyd i fod yn hwb ar gyfer busnesau eraill yn yr ardal?

First Minister, as we all know, there is a challenge facing us in terms of growing the economy and creating a viable economy outside the M4 and A55 corridors. Do you see retailing as a means of not only creating a viable economy in our smaller towns, particularly our market towns in rural Wales, but also a means of boosting other businesses in those areas?

Senedd.tv Fideo Video

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Mae'n dibynnu, mewn ffordd, ar sut mae'r BIDs yn gweithio. Mae Aberystwyth yn un, wrth gwrs, ac mae Abergavenny yn un; Bae Colwyn, Caernarfon, Bangor. Rŷm ni'n siarad am drefi sydd ddim yn drefi mawr, ond yn drefi sydd yn sylweddol yn eu hardaloedd ac yn drefi sy'n bwysig dros ben ynglŷn â bod yn ganolfannau yn yr ardaloedd lle maen nhw. Rŷm ni'n deall, wrth gwrs, fod yn rhaid inni sicrhau cynaliadwyedd yn nhrefi Cymru, ac un ffordd o wneud hynny yw defnyddio'r ardaloedd gwellhad busnes, y BIDs, ac hefyd, wrth gwrs, yr arian rydym ni wedi'i fuddsoddi drwy'r cynllun 'Vibrant and Viable Places'.

It depends, in a way, on how the BIDs work. Aberystwyth is one, of course, and Abergavenny is another; Colwyn Bay, Caernarfon, Bangor. We're talking about towns that aren't large, but they are significant in their areas and extremely important as centres within their regions. So, we understand, of course, that we must secure sustainability in Welsh towns, and the only way of doing that is to use the businesses improvement districts, the BIDs, and also, of course, the money that we've invested through the 'Vibrant and Viable Places' scheme.

Senedd.tv Fideo Video

14:09 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

First Minister, the chamber of trade in Port Talbot estimates that the impact on local businesses, particularly independent retailers, of the closure of junction 41 has been roughly a 20 per cent drop in footfall. Can you give us an indication of when the uncertainty about the future of Port Talbot will come to a close, and you'll be able to announce a decision on whether junction 41 will close permanently or not?

Brif Weinidog, mae'r siambr fasnach ym Mhort Talbot yn amcangyfrif yn fras mai gostyngiad o 20 y cant i nifer yr ymwelwyr fu effaith cau cyffordd 41 ar fusnesau lleol, yn enwedig manwerthwyr annibynnol. A allwch chi roi syniad i ni pryd bydd yr ansicrwydd ynghylch dyfodol Port Talbot yn dod i ben, ac y byddwch chi'n gallu cyhoeddi penderfyniad ynghylch pa un a fydd cyffordd 41 yn cau'n barhaol ai peidio?

Senedd.tv Fideo Video

14:09

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes, there will be an announcement later this month.

Gallaf, bydd cyhoeddiad yn ddiweddarach y mis hwn.

### Cwpan Rygbi'r Byd 2015

### The 2015 Rugby World Cup

14:10

## Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wneud y gorau o'r manteision a fydd yn deillio o gemau Cwpan Rygbi'r Byd 2015 a gaiff eu chwarae yng Nghaerdydd? OAQ(4)2269(FM)*

*7. Will the First Minister make a statement on maximising the benefits of the 2015 Rugby World Cup matches that will be played in Cardiff? OAQ(4)2269(FM)*

14:10

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. We have been working collaboratively with England 2015 to ensure that the eight Wales fixtures secure maximum benefit for Wales, including leveraging once again the increase in Wales's international profile that will arise as a result of the event.

Gwnaf. Rydym ni wedi bod yn gweithio ar y cyd â Lloegr 2015 i sicrhau bod yr wyth gem yng Nghymru yn sicrhau'r budd mwyaf posibl i Gymru, gan gynnwys hyrwyddo unwaith eto y cynnydd i broffil rhyngwladol Cymru a fydd yn codi o ganlyniad i'r digwyddiad.

14:10

## Gwyn R. Price Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer. First Minister, the Rugby World Cup will be a fantastic opportunity to showcase the very best of what Wales has to offer to an international audience. What action is the Welsh Government taking to encourage fans to visit tourist attractions in Wales?

Diolch i chi am yr ateb yna. Brif Weinidog, bydd Cwpan Rygbi'r Byd yn gyfle gwych i arddangos y gorau o'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig i gynulleidfa ryngwladol. Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog cefnogwyr i ymweld ag atyniadau twristiaeth yng Nghymru?

14:10

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We're working with VisitBritain to encourage official tour operators to include Wales in their fan itineraries. We've taken advertising space in the relevant official travel guides with which visiting fans will plan their trip around the UK. We're also undertaking marketing activities with selected overseas fans who are travelling to Wales to see their home team play.

Rydym ni'n gweithio gyda VisitBritain i annog gweithredwyr teithiau swyddogol i gynnwys Cymru yn eu teithlyfrau i gefnogwyr. Rydym ni wedi trefnu gofod hysbysebu yn y canllawiau teithio swyddogol perthnasol y bydd cefnogwyr sy'n ymweld yn eu defnyddio i gynllunio eu taith o gwmpas y DU. Rydym ni hefyd yn ymgymryd â gweithgareddau marchnata gyda chefnogwyr tramor dethol sy'n teithio i Gymru i weld eu tîm cartref yn chwarae.

14:11

## Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Further to my friend's question, the Rugby World Cup affords a great opportunity to promote Wales abroad. The fact is that only 3%—only three 3%—of overseas visitors to the United Kingdom spend a night in Wales. This demonstrates that the Welsh Government has failed to successfully promote Wales as a tourist destination. What action will the First Minister take to ensure we maximise the full potential presented by the Rugby World Cup with the promotion of Wales to foreign visitors?

Ymhellach i gwestiwn fy nghyfaill, mae Cwpan Rygbi'r Byd yn cynnig cyfle gwych i hyrwyddo Cymru dramor. Y ffaith yw mai dim ond 3%—dim ond tri 3%—o ymwelwyr tramor â'r Deyrnas Unedig sy'n treulio noson yng Nghymru. Mae hyn yn dangos bod Llywodraeth Cymru wedi methu â hyrwyddo Cymru'n llwyddiannus fel cyrchfan i dwristiaid. Pa gamau wnaiff y Prif Weinidog eu cymryd i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y potensial a gyflwynir gan Gwpan Rygbi'r Byd trwy hyrwyddo Cymru i ymwelwyr tramor?

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

We've just had some of the best tourism figures, in terms of visitors to Wales, we've ever had, so it shows the work that we are doing is working. Bear in mind that when his party was in Government in the late 1970s, 1980s and 1990s, the Wales Tourist Board was banned from marketing Wales abroad. So, we're not going to take any lessons from people who actually prevented Wales from being marketed abroad, especially as we celebrate the best tourism figures that we've had for many, many years.

Rydym ni newydd weld rhai o'r ffigurau twristiaeth gorau, o ran ymwelwyr â Chymru, rydym ni wedi eu cael erioed, felly mae'n dangos fod y gwaith yr ydym ni'n ei wneud yn gweithio. Cofiwch, pan roedd ei blaid ef mewn Llywodraeth ddiwedd y 1970au, y 1980au a'r 1990au, y gwaharddwyd Bwrdd Croeso Cymru rhag marchnata Cymru dramor. Felly, nid ydym yn mynd i gymryd unrhyw wersi gan bobl a wnaeth atal Cymru rhag cael ei marchnata dramor, yn enwedig wrth i ni ddathlu'r ffigurau twristiaeth gorau rydym ni wedi eu cael ers blynyddoedd lawer iawn.

14:12 **Bethan Jenkins** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Jest yn dilyn ymlaen o'r cwestiwn blaenorol, gyda'r wyth gwlad sydd yn mynd i fod yn chwarae eu gemau yma, sef Uruguay, Fiji, Iwerddon, Canada, pa waith a ydych chi wedi bod yn ei wneud yn y gwledydd penodol hynny er mwyn eu hannog i aros yng Nghymru tra'u bod draw fan hyn, oherwydd, os oes gemau ganddynt yn y stadiwm, mae'n gwneud mwy o synnwyr iddyn nhw wario eu harian a threulio amser yma yng Nghymru nag yw e i dreulio'r amser hynny yn Lloegr?

Just following on from the previous question, with eight nations who are going to be playing those games here, that is, Uruguay, Fiji, Ireland, Canada and so on, what work have you been doing in those specific nations in order to encourage them to stay in Wales when they are visiting, because if the games are in the Millennium Stadium, it makes more sense for them to spend their money and to spend their time here in Wales rather than spending that time in England?

14:12 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

I ddod yn ôl at beth y dywedais o'r blaen, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r cwmnïau sy'n mynd i redeg y teithiau i bobl sy'n dod i mewn i gwpan y byd er mwyn sicrhau bod y teithiau eu hunain yn cynnwys Cymru. Hefyd, drwy weithio gyda VisitBritain, rydym yn targedu'r rheini sydd ddim yn mynd i drafeilio mewn taith swyddogol er mwyn sicrhau eu bod nhw'n sefyll yng Nghymru ei hun. Bydd yna lot fawr o bobl yn gwylio'r gêm, yn sefyll dros nos ac, efallai, yn mynd rhywle arall; bydd rhai'n mo'yn aros am fwy o amser yng Nghymru, a thrwy weithio yn y ffordd rwyf wedi'i dweud yn barod, rŷm ni'n hyderus y bydd yna fwy o bobl yn aros yng Nghymru o achos y cwpan ei hunan.

To return to what I was saying previously, we've been working with the companies that will be running the tours for people coming in to the world cup in order to ensure that the tours themselves include Wales. Also, we've been working with VisitBritain to target people who will be coming in as individuals in order to ensure that they stay in Wales itself. Very many people will be watching the matches, staying overnight and then moving on; others will wish to stay for longer and, by working in the way that I've already mentioned, we're confident that more people will stay in Wales because of the world cup itself.

14:13 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, according to your statement on the NATO summit on 16 December, you said that the Welsh Government had spent £1 million promoting Wales on the world stage using that major event. Can you tell us what analysis you have done of what kinds of activities were most effective in reaching a world audience and how much you anticipate investing in promoting us through the Rugby World Cup, as well?

Brif Weinidog, yn ôl eich datganiad ar uwchgynhadledd NATO ar 16 Rhagfyr, dywedasoch fod Llywodraeth Cymru wedi gwario £1 filiwn yn hyrwyddo Cymru ar lwyfan y byd gan ddefnyddio'r digwyddiad mawr hwnnw. A allwch chi ddweud wrthym pa ddadansoddiad yr ydych chi wedi ei wneud o ba fath o weithgareddau sydd fwyaf effeithiol ar gyfer cyrraedd cynulleidfa fyd-eang a faint ydych chi'n bwriadu ei fuddsoddi yn ein hyrwyddo ni yn ystod Cwpan Rygbi'r Byd hefyd?

14:13 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

In terms of the NATO summit, it was hugely important in terms of showcasing Wales—it was NATO Wales. It worked very well in terms of the fact that many people came to Wales who probably would not have come to Wales, or who were coming to Wales for the first time. It was important to ensure that it was understood that we had in Wales a facility that could host an event of that size, as it did with the Ryder Cup in 2010. In terms of promoting Wales for those coming in for the Rugby World Cup, as I say, we're working with organisations such as VisitBritain to make sure that, when people come to the world cup, they come to Wales and stay in Wales as well.

O ran uwchgynhadledd NATO, roedd yn hynod bwysig ar gyfer arddangos Cymru— NATO Cymru oedd hwn. Gweithiodd yn dda iawn o ran y ffaith bod llawer o bobl wedi dod i Gymru y mae'n debyg na fyddent wedi dod i Gymru, neu a oedd yn dod i Gymru am y tro cyntaf. Roedd yn bwysig sicrhau y deallwyd bod gennym gyfleuster yng Nghymru a allai gynnal digwyddiad o'r maint hwnnw, fel y gwnaeth gyda Chwpan Ryder yn 2010. O ran hyrwyddo Cymru i'r rhai sy'n dod i mewn ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd, fel y dywedais, rydym ni'n gweithio gyda sefydliadau fel VisitBritain i wneud yn siŵr, pan fydd pobl yn dod i gwpan y byd, eu bod yn dod i Gymru ac aros yng Nghymru hefyd.

## Gofal Iechyd Llygaid

## Eye Health Care

14:14 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*8. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer gofal iechyd llygaid? OAQ(4)2272(FM)*

*8. Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's eye health care delivery plan? OAQ(4)2272(FM)*

14:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We remain the only Government in the world with an eye health care delivery plan. There has been significant progress over the last 12 months. This is a tribute to all those involved, including NHS staff and the third sector.

Ni yw'r unig Lywodraeth yn y byd o hyd sydd â chynllun cyflenwi gofal iechyd llygaid. Bu cynnydd sylweddol dros y 12 mis diwethaf. Mae hyn yn deyrnged i bawb dan sylw, gan gynnwys staff y GIG a'r trydydd sector.

14:14 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Thank you for that. This lunch time, I was delighted to sponsor the annual Wales vision strategy event here in the Senedd, where the Deputy Minister gave a speech outlining the work of the Welsh Government, which was widely welcomed. Many of the people present have been central in the drive to improve eye care services in Wales, and I know that you recognise their dedication and hard work, but, over the next 25 years, the number of people with sight loss is expected to double. So, First Minister, can you provide an update on the work that's going on to ensure health statistics and demographics are being routinely included in NHS needs assessments?

Diolch i chi am hynna. Yn ystod amser cinio, roeddwn i'n falch iawn o noddi digwyddiad blynyddol strategaeth golwg Cymru yma yn y Senedd, pryd y gwnaeth y Dirprwy Weinidog araith yn amlinellu gwaith Llywodraeth Cymru, a gafodd ei groesawu'n eang. Mae llawer o'r bobl a oedd yn bresennol wedi bod yn ganolog i'r ymgyrch i wella gwasanaethau gofal llygaid yng Nghymru, a gwn eich bod yn cydnabod eu hymroddiad a'u gwaith caled, ond, dros y 25 mlynedd nesaf, disgwylir i nifer y bobl sydd wedi colli'u golwg ddyblu. Felly, Brif Weinidog, a allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud i sicrhau bod ystadegau iechyd a demograffeg yn cael eu cynnwys fel mater o drefn yn asesiadau anghenion y GIG?

14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. The integrated medium-term plans of health boards, and, indeed, our trusts, are underpinned by comprehensive needs assessments. They cover both the physical and mental health and wellbeing of the resident population. Those plans are scrutinised by the health boards and the trusts, and ourselves as Welsh Government, to ensure that health statistics and demographics are routinely included in order, of course, to make sure that the plan continues to be effective.

Gallaf. Mae cynlluniau tymor canolig integredig byrddau iechyd, ac, yn wir, ein hymddiriedolaethau, wedi'u seilio ar asesiadau cynhwysfawr o anghenion. Maen nhw'n ymdrin ag iechyd a lles corfforol a meddyliol y boblogaeth sy'n byw yma. Caiff y cynlluniau eu harchwilio gan y byrddau iechyd a'r ymddiriedolaethau, a gennym ni ein hunain fel Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod ystadegau iechyd a demograffeg yn cael eu cynnwys fel mater o drefn er mwyn, wrth gwrs, gwneud yn siŵr bod y cynllun yn parhau i fod yn effeithiol.

14:15 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, the delivery plan acknowledges the need to work on the delays—and that was raised a lot in the plan—in patients being seen for follow-up treatment. Will the Minister provide an update on the action taken by your Government to work with the NHS Wales Informatics Service to develop electronic referrals and electronic patient records for eye care in order to deal with this problem?

Weinidog, mae'r cynllun cyflawni yn cydnabod yr angen i weithio ar yr oediadau—a chodwyd hynny sawl gwaith yn y cynllun—cyn i gleifion gael eu gweld ar gyfer triniaeth ddilynol. A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd gan eich Llywodraeth i weithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i ddatblygu atgyfeiriadau electronig a chofnodion cleifion electronig ar gyfer gofal llygaid er mwyn ymdrin â'r broblem hon?

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, we work very closely with them. It's important that the patients involved do not experience any delays. We have invested £34 million in extra eye care in terms of primary and secondary care over the past three years, and, indeed, provided new treatment. It was only in 2007 that there was no treatment available for wet age-related macular degeneration. Now, of course, 16,000 courses of treatment are being provided in Wales, and that helps, of course, to prevent sight loss that was caused by wet AMD—a treatment that wasn't available, of course, before 2007.

Gwnaf, rydym ni'n gweithio'n agos iawn gyda nhw. Mae'n bwysig nad yw'r cleifion dan sylw yn dioddef unrhyw oediadau. Rydym ni wedi buddsoddi £34 miliwn mewn gofal llygaid ychwanegol o ran gofal sylfaenol ac eilaidd yn ystod y tair blynedd diwethaf, ac, yn wir, wedi darparu triniaeth newydd. Mor ddiweddar â 2007 nid oedd unrhyw driniaeth ar gael ar gyfer dirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig ag oedran. Nawr, wrth gwrs, darperir 16,000 o gyrsiau o driniaeth yng Nghymru, ac mae hynny'n helpu, wrth gwrs, i atal colli golwg a achoswyd gan ddirywiad macwlaidd gwlyb sy'n gysylltiedig ag oedran—triniaeth nad oedd ar gael, wrth gwrs, cyn 2007.

14:16 **Aled Roberts** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rwy'n derbyn bod y galw yn cynyddu, ond, yn ôl y cynllun gweithredol, mae yna dros 7,800 o bobl yn y gogledd ar hyn o bryd yn aros am driniaeth ar eu llygaid, yn cynnwys 568 sydd wedi aros dros 36 wythnos. Felly, os ydych yn gwneud yr holl fonitro yma, sut y gallwch chi sicrhau pobl yn y gogledd bod y sefyllfa yn mynd i wella, wrth ystyried, ar hyn o bryd, mai prif ymateb y bwrdd iechyd, mae'n amlwg, ydy prynu gwasanaethau o Loegr?

First Minister, I accept that demand is increasing, but, according to the action plan, there are over 7,800 people in north Wales currently awaiting eye treatment, including 568 who have waited over 36 weeks. So, if you are carrying out all of this monitoring work, how can you give assurances to people in north Wales that the situation will improve, given that, at present, the main response of the health board, clearly, is to buy in services from England?

14:17 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, beth sy'n bwysig yw bod pobl yn cael y gwasanaeth, yn fy marn i. O ran ble mae'n dod, o ran Cymru neu Loegr, rydym ni yn hanesyddol wedi defnyddio gwasanaethau yn Lloegr, ac nid yw hynny'n mynd i newid. A gaf i ddweud bod wyth mas o bob 10 person yn sefyll llai na 26 wythnos ynglŷn â thriniaeth, ac, o rheini, mae hanner yn aros llai nag 11 wythnos? Rydym ni'n moyn sicrhau bod yr amser aros yn mynd i lawr eto dros y misoedd nesaf.

Well, what's important is that people should receive the service, in my view. In terms of where it comes from, in terms of England or Wales, historically we've used services in England, and that's not going to change. Can I say that eight out of every 10 people wait fewer than 26 weeks for treatment, and, of those, half again are waiting for fewer than 11 weeks? We want to ensure that the waiting time reduces again over the next months.

14:17 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

14:17

## 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 2. Business Statement and Announcement

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is the business statement, and I call on the Minister, Jane Hutt.

Symudwn yn awr at eitem 2, sef y datganiad busnes, a galwaf ar y Gweinidog, Jane Hutt.

14:18 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Senedd.tv
Fideo Video

Diolch, Lywydd. I've one change to announce to this week's business. My oral statement on EU funding ambassadors has been postponed from today to next Tuesday, 19 May. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Diolch, Lywydd. Mae gen i un newid i'w gyhoeddi i fusnes yr wythnos hon. Mae fy natganiad llafar ar lysgenhadon cyllid yr UE wedi ei ohirio o heddiw tan ddydd Mawrth nesaf, 19 Mai. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel a ddangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau yn electronig.

14:18 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Two issues I'd like to raise with you, Minister: firstly, last Sunday was World Lupus Day, which focuses on the need for increased public awareness and understanding of lupus, as well as improved diagnosis times and treatment for the condition. It's a serious chronic illness, for which there is no cure, and there are a number of people living in Wales who struggle with it every day. I wonder if we could have an update from your Government—maybe from the health Minister—about how Welsh Government policies are specifically helping to raise the profile of this condition and to help the sufferers.

Hoffwn godi dau fater gyda chi, Weinidog: yn gyntaf, dydd Sul diwethaf oedd Diwrnod Lwpws y Byd, sy'n canolbwyntio ar yr angen am fwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o lwpws ymhlith y cyhoedd, yn ogystal â gwell amseroedd diagnosis a thriniaeth ar gyfer y cyflwr. Mae'n salwch cronig difrifol, lle nad oes gwellhad, ac mae nifer o bobl sy'n byw yng Nghymru yn brwydro yn ei erbyn bob dydd. Tybed a allem ni gael y wybodaeth ddiweddaraf gan eich Llywodraeth—efallai gan y Gweinidog iechyd—ynglŷn â sut y mae polisïau Llywodraeth Cymru yn helpu'n benodol i godi proffil y cyflwr hwn ac i helpu'r dioddefwyr.

Secondly, I have long been a campaigner of the dark skies project—along with William Powell, of course—which saw the Brecon Beacons National Park granted official dark sky status back in 2013. As part of Cadw's support for this project and Welsh Government support, Tintern abbey will be hosting late-night astronomy sessions this coming weekend. I will be attending, and you are more than welcome to join me as well, if you like. This is a great opportunity for young people to learn more about the night sky. Ninety per cent of Wales already has dark sky status; I wonder if you could tell us how Welsh Government policies will help us push forward to, ultimately, 100 per cent status.

Yn ail, rwyf wedi ymgyrchu ers amser maith dros y prosiect awyr dywyll—ynghyd â William Powell, wrth gwrs—a welodd Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cael statws awyr dywyll swyddogol yn ôl yn 2013. Yn rhan o gefnogaeth Cadw i'r prosiect hwn a chefnogaeth Llywodraeth Cymru, bydd abaty Tyndyrn yn cynnal sesiynau seryddiaeth yn hwyr yn y nos y penwythnos yma. Byddaf i yno, ac mae croeso mawr i chi ymuno â mi hefyd, os hoffech. Mae hwn yn gyfle gwych i bobl ifanc ddysgu mwy am awyr y nos. Mae gan naw deg y cant o Gymru statws awyr dywyll eisoes; tybed a allech chi ddweud wrthym sut y bydd polisïau Llywodraeth Cymru'n ein helpu i wthio ymlaen tuag at, yn y pen draw, statws 100 y cant.

14:19 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank Nick Ramsay for both those questions. I'm sure that the Minister will consider updating on raising awareness, as you say, most importantly, in terms of the first point you made. Secondly, I know of your interest and support for the dark skies project—I think we might have once jointly-sponsored an event here in the Senedd on this matter—in terms of opportunities, and also the educational opportunities in terms of astronomy with our young people. So, I'm not sure whether I can join you at Tintern abbey, Nick Ramsay, but I know that members of the public will be. Of course, I'm very much aware of the facility we've got in my constituency, in Dyffryn Gardens, which you will also be aware of, where we can look at the night sky.

Diolch i Nick Ramsay am y ddau gwestiwn yna. Rwy'n siŵr y gwnaiff y Gweinidog ystyried rhoi diweddariad am godi ymwybyddiaeth, fel y dywedwch, yn bwysicaf oll, o ran y pwynt cyntaf a wnaethoch. Yn ail, rwyf yn gwybod am eich diddordeb yn y prosiect awyr dywyll a'ch cefnogaeth iddo—credaf ein bod unwaith wedi cyd-noddi digwyddiad yma yn y Senedd ar y mater hwn—o ran cyfleoedd, a hefyd y cyfleoedd addysgol o ran seryddiaeth gyda'n pobl ifanc. Felly, nid wyf yn siŵr a allaf ymuno â chi yn abaty Tyndyrn, Nick Ramsay, ond gwn y bydd aelodau o'r cyhoedd yno. Wrth gwrs, rwy'n ymwybodol iawn o'r cyfleuster sydd gennym yn fy etholaeth i, yng Ngerddi Dyffryn, y byddwch hefyd yn ymwybodol ohono, lle y gallwn edrych ar awyr y nos.

14:20 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Minister, the Conservative Government has made it very clear that it intends to put on the parliamentary agenda the abolition of the Hunting Act 2004 to re-allow hunting of live animals by dogs. Now, this is a matter that is not devolved to us, although it clearly fits in with the agricultural agenda, but also it is very clear that around 80 per cent of the population of Wales is dead opposed to the ripping apart of live animals as a sport with dogs. Now, will the Government be considering making time available, so we consider the implications of those proposals, but also that this is clearly a matter that should be devolved to Wales, so that we can decide it in this Chamber?

Weinidog, mae'r Llywodraeth Geidwadol wedi ei gwneud yn glir iawn ei bod yn bwriadu rhoi diddymu Deddf Hela 2004 ar yr agenda seneddol i ganiatáu hela anifeiliaid byw gan gŵn unwaith eto. Nawr, nid yw'r mater hwn wedi'i ddatganoli i ni, er ei fod yn cyd-fynd yn glir â'r agenda amaethyddol, ond mae'n amlwg iawn hefyd bod tua 80 y cant o boblogaeth Cymru'n teimlo'n gryf yn erbyn rhwygo anifeiliaid byw'n ddarnau fel chwaraeon gyda chŵn. Nawr, a fydd y Llywodraeth yn ystyried sicrhau bod amser ar gael, er mwyn inni ystyried goblygiadau'r cynigion hynny, ond hefyd bod hwn yn amlwg yn fater y dylid ei ddatganoli i Gymru, fel y gallwn benderfynu arno yn y Siambr hon?

14:21 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, of course, Mick Antoniw, this is one of many items, I believe, in the Conservative manifesto that will raise concerns, as you say, with 80 per cent, at least, of the population. I think there will be many other items also in the manifesto; we will see what emerges in the Queen's Speech. I'm sure that we will have to find time to address these items to represent the people of Wales in terms of their opinions in terms of those concerns.

Wel, wrth gwrs, Mick Antoniw, mae hon yn un o nifer o eitemau, yn fy marn i, ym maniffesto'r Ceidwadwyr a fydd yn codi pryderon, fel y dywedwch, gyda 80 y cant, o leiaf, o'r boblogaeth. Rwy'n credu y bydd llawer o eitemau eraill hefyd yn y maniffesto; cawn weld beth a ddaw yn Araith y Frenhines. Rwy'n siŵr y bydd yn rhaid inni ddod o hyd i amser i roi sylw i'r eitemau hyn i gynrychioli pobl Cymru o ran eu barn am y pryderon hynny.

14:21 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Weinidog, rŷm ni newydd glywed y Prif Weinidog yn dweud y bydd yn cael galwad ffôn neu sgwrs ffôn gyda Phrif Weinidog y Deyrnas Gyfunol brynhawn yma. Rwy'n cymryd mai dyna'r sgwrs gyntaf ffurfiol y maen nhw'n ei chael—ers yr etholiad beth bynnag. A ydych chi'n cofio, yn ystod ymgyrch yr etholiad, fe ddaeth George Osborne mor bell dros y ffin â'r Clas-ar-Wy, ger y Gelli, a datgan y byddem ni'n gweld Deddf Cymru o fewn 100 diwrnod o ddyddiad yr etholiad cyffredinol? Mae nawr yn ymddangos bod y 100 diwrnod yna wedi mynd yn ofer ac yn angof, a bod yn rhaid i ni aros hyd at flwyddyn, efallai, ar gyfer Deddf o'r fath. A oes modd i ni gael datganiad, felly, gan y Prif Weinidog, yn sgil ei sgwrs heddiw gyda'r Prif Weinidog yn Llundain ynglŷn â'r amserlen ar gyfer y Ddeddf, gan fod yna gytundeb pob plaid, yn y lle hwn, ar gyfer gweithredu argymhellion Silk a rhannau o argymhellion rhan 2 o gomisiwn Silk hefyd?

Minister, we've just heard the First Minister saying that he will be having a telephone conversation with the UK Prime Minister this afternoon. I assume that'll be the first formal conversation they've had—since the election in any case. Do you recall, during the election campaign, that George Osborne came as far over the border as Glasbury, near Hay on Wye, and said that we would see a Wales Act within 100 days of the date of the general election? It now appears that that 100 days has been forgotten, and that we will know have to wait for up to a year, perhaps, for such an Act. Could we therefore have a statement from the First Minister in light of his conversation today with the Prime Minister in England on the timetable for the Wales Bill, as there is cross-party agreement in this place for implementing the Silk recommendations and parts of Silk 2 also?

14:22 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I'm very grateful to Simon Thomas for that very helpful and constructive question. We do need clarity, as you say, certainly as that promise was made and we have to ensure that Wales is not left out, and particularly, I would say, because we do have cross-party agreement on how we should take this forward in terms of the Silk commission, and indeed reflected in manifestos in terms of implementation of the funding floor.

Wel, rwy'n ddiolchgar iawn i Simon Thomas am y cwestiwn buddiol ac adeiladol iawn yna. Mae angen eglurder arnom, fel y dywedwch, yn sicr gan fod yr addewid hwnnw wedi'i wneud ac mae'n rhaid inni sicrhau na chaiff Cymru ei gadael ar ôl, ac yn arbennig, byddwn i'n dweud, oherwydd bod gennym gytundeb trawsbleidiol ar sut y dylem fwrw ymlaen â hyn o ran comisiwn Silk, ac yn wir mae hynny wedi'i adlewyrchu mewn maniffestos o ran rhoi'r cyllid gwaelodol ar waith.

14:23 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Minister, it is Mental Health Awareness Week this week, and I'm sure you'll join me in welcoming the campaigns that have improved the position for people who do suffer from mental ill health. However, I would very much welcome a statement from the Welsh Government on the importance that they place on good mental health. Also, what work has been done in the last year to improve the awareness among public sector workers of the role that they can play in assisting people with mental ill health—particularly, perhaps, health workers, who are not always as aware of the impact of their words as, perhaps, we would wish them to be? That would be most appreciated.

Weinidog, mae'n Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl yr wythnos hon, ac rwy'n siŵr y gwnewch ymuno â mi i groesawu'r ymgyrchoedd sydd wedi gwella sefyllfa pobl sy'n dioddef o salwch meddwl. Fodd bynnag, byddwn yn croesawu'n fawr datganiad gan Lywodraeth Cymru am bwysigrwydd iechyd meddwl da iddynt. Hefyd, pa waith sydd wedi'i wneud yn y flwyddyn ddiwethaf i wella ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr y sector cyhoeddus o'r rhan y gallant ei chwarae wrth gynorthwyo pobl â salwch iechyd meddwl—yn enwedig, efallai, gweithwyr iechyd, nad ydynt bob amser mor ymwybodol o effaith eu geiriau ag, efallai, y byddem yn dymuno iddynt fod? Byddwn yn gwerthfawrogi hynny'n fawr.

On a second matter, I was shocked to discover yesterday that Roath Library in Cardiff is scheduled for closure—just two months after we were told by Cardiff Council that it was saved, along with all of the other libraries in Cardiff. Obviously, this throws all of the consultation process into absolute chaos. It means that the people of Roath have had no opportunity to represent themselves. I wonder if I could ask for a written statement from the Minister, outlining what dialogue he's had with local authorities on their obligations to make sure that library provision is adequate across our cities, our communities, but also that, when closures are, sadly, considered, they will be properly consulted upon in an open and honest and professional manner.

Ar ail fater, cefais sioc o ddarganfod ddoe bod bwriad i gau Llyfrgell y Rhath yng Nghaerdydd—dim ond ddau fis ar ôl i Gyngor Caerdydd ddweud wrthym ei bod wedi'i hachub, ynghyd â phob llyfrgell arall yng Nghaerdydd. Yn amlwg, mae hyn yn rhoi'r holl broses ymgynghori mewn anhrefn llwyr. Mae'n golygu nad yw pobl y Rhath wedi cael unrhyw gyfle i gynrychioli eu hunain. Tybed a gaf i ofyn am ddatganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog, i amlinellu'r ddeialog y mae wedi ei chael gydag awdurdodau lleol ynglŷn â'u rhwymedigaethau i wneud yn siŵr bod darpariaeth llyfrgell yn ddigonol ar draws ein dinasoedd, ein cymunedau, ond hefyd, ar yr adegau anffodus pan ystyrir eu cau, y cynhelir ymgynghoriadau priodol mewn ffordd agored a gonest a phroffesiynol.

14:25 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

In terms of your first point, clearly, the awareness that we raise—not just in terms of our funding of mental health services in Wales but also tackling the stigma and raising awareness, of course—is at the forefront of the priorities of the health and social services Minister, and I'm sure the Minister will want to update us on that in terms of not only the financial prioritisation that we're giving but also in terms of the awareness campaigns that, of course, we're supporting, many of which are taken forward by some of the third sector organisations, in terms of raising awareness about mental health.

O ran eich pwynt cyntaf, yn amlwg, mae'r ymwybyddiaeth yr ydym yn ei chodi—nid yn unig drwy gyllido gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru, ond hefyd drwy ymdrin â'r stigma a chodi ymwybyddiaeth, wrth gwrs—yn un o brif flaenoriaethau'r Gweinidog iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ac rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn awyddus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am hynny o ran nid yn unig y flaenoriaeth ariannol yr ydym yn ei rhoi, ond hefyd o ran yr ymgyrchoedd ymwybyddiaeth yr ydym, wrth gwrs, yn eu cefnogi, llawer ohonynt wedi'u datblygu gan rai o'r sefydliadau trydydd sector, o ran codi ymwybyddiaeth am iechyd meddwl.

Of course, the issues in terms of decisions made by local authorities are for those local authorities. In the context of the most difficult time, because of the cuts that, of course, we have suffered in Wales—cuts of £1.4 billion—we are protecting the local authorities as far as we can, but, obviously, we're getting to the point where local government now has also to make very tough and difficult decisions. What I would say is that not only the Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism but also I as Minister for Finance and Government Business have produced very important guidance, particularly in terms of community asset transfers. Of course, I've made a statement on this, and you'll be aware of this to share with your constituents.

Wrth gwrs, mae penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol yn fater i'r awdurdodau lleol hynny. Yng nghyd-destun y cyfnod anoddaf, oherwydd y toriadau yr ydym, wrth gwrs, wedi'u dioddef yng Nghymru—toriadau o £1.4 biliwn—rydym yn diogelu'r awdurdodau lleol cyn belled ag y gallwn, ond, yn amlwg, rydym yn cyrraedd y pwynt lle mae'n rhaid i lywodraeth leol hefyd wneud penderfyniadau caled ac anodd iawn erbyn hyn. Yr hyn y byddwn i'n ei ddweud yw fy mod i fel Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth, yn ogystal â'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, wedi cynhyrchu canllawiau pwysig iawn, yn enwedig o ran trosglwyddo asedau cymunedol. Wrth gwrs, rwyf wedi gwneud datganiad am hyn, a byddwch yn ymwybodol o hyn i'w rannu â'ch etholwyr.

14:26 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I call for a single statement on women's clinical services at Ysbyty Glan Clwyd. The Minister might be aware that at Mold Crown Court last Friday, the British Medical Association legal team successfully applied for an interim injunction prohibiting the health board from implementing its plans and for full disclosure of documents relating to the closure decision by the health board. Now, I know you cannot comment on legal matters and ongoing legal proceedings, but I've been advised—I've had feedback from midwives who feel under extreme scrutiny and great pressure—that the health board are trying to engineer some sort of crisis so they can get around the injunction, with staffing so tight that they wouldn't need many to resign before rotas become unworkable, and that at least five midwives have already accepted jobs in Chester, following open interview, and that another similar sort of day is planned at Arrowe Park Hospital soon, when other nurses and midwives from Ysbyty Glan Clwyd will be attending. I hope you won't, on this occasion, pass the buck to the health board, because, if you do, we'll have to question what your Government is for. I hope you will take responsibility and intervene to ensure that, if the outcome of this legal action is to lead to the unit staying open, they aren't closed by default because the staff have all been forced to leave.

Galwaf am un datganiad am wasanaethau clinigol i fenywod yn Ysbyty Glan Clwyd. Efallai y bydd y Gweinidog yn gwybod, yn Llys y Goron Yr Wyddgrug ddydd Gwener diwethaf, bod tîm cyfreithiol Cymdeithas Feddygol Prydain wedi gwneud cais llwyddiannus am waharddeb dros dro i wahardd y bwrdd iechyd rhag rhoi ei gynlluniau ar waith ac am i'r bwrdd iechyd ddatgelu'n llawn y dogfennau sy'n ymwneud â'r penderfyniad i gau. Nawr, rwy'n gwybod nad ydych chi'n gallu rhoi sylwadau am faterion cyfreithiol ac achosion cyfreithiol sy'n parhau, ond rwyf wedi cael gwybod—rwyf wedi cael adborth gan fydwragedd sy'n teimlo eu bod yn destun craffu eithafol ac o dan bwysau mawr—bod y bwrdd iechyd yn ceisio creu rhyw fath o argyfwng fel y gall osgoi'r waharddeb, gyda staffio mor dynn fel na fyddai angen i lawer ohonynt ymddiswyddo cyn i rotas ddod yn anymarferol, a bod o leiaf pum bydwraig eisoes wedi derbyn swyddi yng Nghaer, ar ôl cyfweliad agored, a bod diwrnod tebyg arall wedi'i gynllunio yn Ysbyty Arrowe Park yn fuan, pryd y bydd nyrsys a bydwragedd eraill o Ysbyty Glan Clwyd yn bresennol. Rwyf yn gobeithio na wnewch chi, y tro hwn, daflu'r baich ar y bwrdd iechyd, oherwydd, os gwnewch chi hynny, bydd yn rhaid inni gwestiynu beth yw diben eich Llywodraeth. Rwy'n gobeithio y gwnewch chi gymryd cyfrifoldeb ac ymyrryd i sicrhau, os bydd canlyniad y camau cyfreithiol hyn yn golygu bod yr uned yn aros ar agor, na chaiff ei gau'n ddiofyn oherwydd bod y staff i gyd wedi eu gorfodi i adael.

14:27 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Well, of course, Mark Isherwood is clearly aware, and he made this point in terms of what we can and cannot say, that the legal challenge against the health board's temporary changes was heard on 7 and 8 May, and we do await the outcome from the court.

Wel, wrth gwrs, mae Mark Isherwood yn amlwg yn ymwybodol, a gwnaeth y pwynt hwn ynglŷn â'r hyn y cawn ac na chawn ei ddweud, bod yr her gyfreithiol yn erbyn newidiadau dros dro y bwrdd iechyd wedi cael gwrandawiad ar 7 ac 8 Mai, ac rydym yn aros am y canlyniad oddi wrth y llys.

14:28 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Minister, you'll be aware that the human papilloma virus vaccine has been offered to young women and teenage girls for some time now to protect them from the cervical cancer caused by the warts virus. I wonder if you'd arrange for the health Minister to issue a statement on his intention or otherwise to extend this to the other 50% of the population to protect them from the cancer that they might develop from the exact same virus.

Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod y brechlyn feirws papiloma dynol wedi cael ei gynnig i fenywod ifanc a merched yn eu harddegau ers peth amser bellach i'w diogelu rhag canser ceg y groth a achosir gan y firws dafadennau. Tybed a fyddech yn trefnu bod y Gweinidog iechyd yn cyhoeddi datganiad am ei fwriad neu fel arall i ymestyn hyn i 50% arall y boblogaeth i'w hamddiffyn rhag y canser y gallent ei ddatblygu o'r un firws yn union?

14:28 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I thank Jocelyn Davies for that question, and I will ask the Minister for Health and Social Services to update on the matter.

Diolchaf i Jocelyn Davies am y cwestiwn yna, a byddaf yn gofyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y mater.

14:28 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, today, children from year 5 and year 6 of Rhayader primary school were visiting the Assembly. They were greatly concerned over their future, given that Powys County Council has raised questions over the future of secondary education in Radnorshire, proposing, potentially, the closure of Llandrindod High School. One of the reasons why Powys say they need to make these devastating changes is the difficulty in the recruitment and retention of headteachers and senior leaders in schools. What steps is the Welsh Government taking to ensure that there is an adequate supply of headteachers and those people willing to take on senior leadership roles within our secondary schools so that we don't have to resort to closing institutions and making pupils travel ever increasing distances to receive their secondary education?

Weinidog, heddiw, roedd plant o flwyddyn 5 a blwyddyn 6 ysgol gynradd Rhaeadr Gwy yn ymweld â'r Cynulliad. Roeddent yn pryderu'n fawr am eu dyfodol, o gofio bod Cyngor Sir Powys wedi codi cwestiynau ynghylch dyfodol addysg uwchradd yn Sir Faesyfed, gan gynnig, o bosibl, cau Ysgol Uwchradd Llandrindod. Un o'r rhesymau pam mae Powys yn dweud bod angen iddynt wneud y newidiadau trychinebus hyn yw'r anhawster i recriwtio a chadw penaethiaid ac uwch arweinwyr mewn ysgolion. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i sicrhau bod cyflenwad digonol o benaethiaid a'r bobl hynny sy'n barod i ymgymryd â swyddogaethau arweinyddiaeth uwch o fewn ein hysgolion uwchradd fel nad oes yn rhaid inni droi at gau sefydliadau a gwneud i ddisgyblion deithio mwy a mwy o bellteroedd i gael eu haddysg uwchradd?

14:29 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I believe, Kirsty Williams, you will be reassured by the work that the Minister for Education and Skills is undertaking to ensure that we do have routes to ensure we have the leadership that is required in order to encourage and train teachers to move into those important roles that they play, because, of course, this is key in terms of being able to sustain primary education at that excellent level in your community.

Wel, rwyf yn credu, Kirsty Williams, y cewch eich calonogi gan y gwaith y mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau'n ei wneud i sicrhau bod gennym lwybrau i sicrhau bod gennym yr arweinyddiaeth sydd ei hangen er mwyn annog a hyfforddi athrawon i symud i'r swyddi pwysig hynny y maent yn eu cyflawni, oherwydd, wrth gwrs, mae hyn yn allweddol o ran gallu cynnal addysg gynradd ar y lefel ragorol honno yn eich cymuned.

14:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

14:30

## 3. Datganiad: Nodi Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop—Gweithio gyda a Chefnogi ein Cymuned Lluoedd Arfog Heddiw

## 3. Statement: Anniversary of VE Day—Working with and Supporting our Armed Forces Community Today

Senedd.tv Fideo Video

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move on to item 3, which is the statement by the Minister for Public Services on the anniversary of VE Day and working with and supporting our armed forces community today. I call on Leighton Andrews.

Rydym nawr yn symud ymlaen at eitem 3, sef y datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus am ben-blwydd Diwrnod VE a gweithio gyda a chefnogi ein cymuned lluoedd arfog heddiw. Galwaf ar Leighton Andrews.

14:30 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Llywydd, Members will be well aware of the events that have taken place over the last few days to commemorate the seventieth anniversary of Victory in Europe Day.

Lywydd, bydd yr Aelodau'n gwybod yn iawn am y digwyddiadau sydd wedi'u cynnal dros y dyddiau diwethaf i ddathlu deg mlynedd a thrigain ers Diwrnod Buddugoliaeth yn Ewrop.

On 8 May, the First Minister attended a service of remembrance at the Cenotaph in London, laying a wreath on behalf of the Welsh Government and people of Wales, and also attended a service of thanksgiving at Westminster abbey on 10 May. I attended commemorations in Wales at a service of remembrance in Cardiff castle on 8 May, laying a wreath on behalf of the Welsh Government and the people of Wales in remembrance of those who fought and lost their lives.

Ar 8 Mai, roedd y Prif Weinidog yn bresennol mewn gwasanaeth coffa yn y Senotaff yn Llundain, gan osod torch ar ran Llywodraeth Cymru a phobl Cymru, ac roedd hefyd yn bresennol mewn gwasanaeth diolchgarwch yn abaty Westminster ar 10 Mai. Roeddwn innau'n bresennol mewn gwasanaeth coffa yng Nghymru yng nghastell Caerdydd ar 8 Mai, gan osod torch ar ran Llywodraeth Cymru a phobl Cymru er cof am y rhai a ymladdodd ac a gollodd eu bywydau.

Many people who were present at other events held at towns and cities across Wales were present and celebrating on VE Day itself, in 1945. But, this is also an opportunity for the younger generation to learn and appreciate the sacrifices our servicemen and women went through in defending our freedoms. With this in mind, and in remembrance of all the other conflicts that have taken place over the years that involved our armed services, I'd like to set out the support and services that the Welsh Government is providing today to those who have served and to their families.

Roedd llawer o'r bobl a oedd yn bresennol mewn digwyddiadau eraill a gynhaliwyd mewn trefi a dinasoedd ledled Cymru yn bresennol ac yn dathlu ar Ddiwrnod VE ei hun, yn 1945. Ond mae hwn hefyd yn gyfle i'r genhedlaeth iau i ddysgu a gwerthfawrogi'r aberth a wnaed gan ein lluoedd arfog i amddiffyn ein rhyddid. Gyda hyn mewn golwg, ac er cof am yr holl ryfeloedd eraill sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd pryd yr oedd ein gwasanaethau arfog yn cymryd rhan, hoffwn nodi'r gefnogaeth a'r gwasanaethau y mae Llywodraeth Cymru'n eu darparu heddiw i'r bobl hynny sydd wedi gwasanaethu ac i'w teuluoedd.

Transition into civilian life can be a very daunting experience for an unfortunate few from the services, and their families, as they leave. Of course, the majority of service leavers adapt into civilian life effectively, using their skills to find themselves meaningful employment, and contributing to the communities in which they have settled. A few require our support, as a failed transition can lead to multiple and complex problems, leading to a breakdown of relationships, unemployment, or health issues. The Welsh Government has measures in place to support people where necessary, through our package of support.

Gall pontio i fywyd fel sifiliaid fod yn brofiad brawychus iawn i'r ychydig rai anffodus o'r lluoedd arfog, a'u teuluoedd, wrth iddynt adael. Wrth gwrs, mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n gadael y lluoedd arfog yn addasu i fywyd fel sifiliaid yn effeithiol, gan ddefnyddio eu sgiliau i gael cyflogaeth ystyrlon iddynt eu hunain, a chyfrannu at y cymunedau lle maent wedi ymgartrefu. Mae angen ein cymorth ar rai, gan fod methiant i bontio yn gallu arwain at broblemau lluosog a chymhleth, gan arwain at chwalu perthnasoedd, diweithdra, neu broblemau iechyd. Mae gan Lywodraeth Cymru fesurau ar waith i gefnogi pobl pan fo angen, drwy ein pecyn cymorth.

The package of support was first published in 2011, and reviewed in 2013, and sets out the support available across ministerial portfolios, such as health and social services, housing, and education. I have agreed that the package of support should be reviewed again this year, to include new and developing commitments, both within Welsh Government policy areas, and support organisations, such as the Royal British Legion. This will also ensure current changes to new information and appropriate signposting are included in the updated version. I will be launching the updated package of support in late autumn.

Cyhoeddwyd y pecyn cymorth gyntaf yn 2011, ac fe'i hadolygwyd yn 2013, ac mae'n nodi'r cymorth sydd ar gael ar draws portffolios gweinidogol, fel iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, tai, ac addysg. Rwyf wedi cytuno y dylid adolygu'r pecyn cymorth eto eleni, i gynnwys ymrwymiadau sy'n newydd ac yn datblygu, o fewn meysydd polisi Llywodraeth Cymru, ac mewn sefydliadau cymorth, megis y Lleng Brydeinig Frenhinol. Bydd hyn hefyd yn sicrhau bod newidiadau cyfredol i wybodaeth newydd a chyfeirio priodol wedi'u cynnwys yn y fersiwn ddiweddaraf. Byddaf yn lansio'r pecyn cymorth diweddaraf yn hwyr yn yr hydref.

You will all have noted the recent announcement by the Deputy Minister for Health of increased recurrent funding of £100,000 from 2015-16, which is additional to the £485,000 per annum for Veterans' NHS Wales. This will ensure demand is met and waiting times minimised for those accessing the service in Wales. This is the only service of its kind in the UK. In addition to this, on 13 March, the Deputy Minister for Health also announced a £50 million investment in programmes to tackle drug and alcohol abuse over the next year. Ex-service personnel will benefit from this funding, demonstrating our clear commitment to supporting our veterans and reducing the harm caused by substance misuse. Welsh Government has also invested £650,000 in improving access to psychological therapies during the last year.

Byddwch i gyd wedi nodi'r cyhoeddiad diweddar gan y Dirprwy Weinidog Iechyd o gynnydd mewn cyllid rheolaidd o £100,000 o 2015-16 ymlaen, sy'n ychwanegol i'r £485,000 y flwyddyn ar gyfer GIG Cyn-filwyr Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod galw'n cael ei fodloni a bod amseroedd aros yn cael eu lleihau i'r rheini sy'n defnyddio'r gwasanaeth yng Nghymru. Dyma'r unig wasanaeth o'i fath yn y DU. Yn ogystal â hyn, ar 13 Mawrth, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Iechyd hefyd fuddsoddiad o £50 miliwn mewn rhaglenni i fynd i'r afael â chamddefnyddio cyffuriau ac alcohol dros y flwyddyn nesaf. Bydd cyn-filwyr yn elwa ar y cyllid hwn, sy'n dangos ein hymrwymiad clir i gefnogi ein cyn-filwyr a lleihau'r niwed a achosir gan gamddefnyddio sylweddau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi buddsoddi £650,000 i wella mynediad at therapïau seicolegol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

We have also extended the homebuy scheme to cover widows and widowers of personnel killed in action. The £2 million funding made available in 2013-14 to provide housing for armed forces service leavers in Wales has been allocated to local authorities in Wales. To date, this has helped eight service leavers and their families for—[Interruption.]

Rydym hefyd wedi ymestyn y cynllun cymorth i brynu i gynnwys gwragedd gweddw a gwŷr gweddw personél a laddwyd wrth eu gwaith. Mae'r £2 filiwn a roddwyd yn 2013-14 i ddarparu tai i bobl sy'n gadael gwasanaeth y lluoedd arfog yng Nghymru wedi'i ddyrannu i awdurdodau lleol yng Nghymru. Hyd yma, mae hyn wedi helpu wyth o rai a oedd yn gadael y lluoedd arfog a'u teuluoedd—[Torri ar draws.]

14:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Carry on.

Ewch yn eich blaen.

14:34 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Sorry, there's a sound coming on from behind.

Mae'n ddrwg gen i, mae 'na sŵn yn dod o'r tu ôl.

14:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, carry on.

Oes, ewch yn eich blaen.

14:34 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

To date, this has helped eight service leavers and their families find suitable accommodation, with other new-build homes awaiting completion for occupancy by ex-service personnel and their families. In Wales, we have maintained full entitlements to our council tax support and housing benefit for a further two years, for all local authorities, in order to disregard war disablement pension and armed forces compensation scheme when means testing for council-delivered support.

Hyd yma, mae hyn wedi helpu wyth o rai a oedd yn gadael y lluoedd arfog a'u teuluoedd i ddod o hyd i lety addas, ac mae cartrefi newydd eraill bron yn barod i gyn-filwyr a'u teuluoedd fynd i fyw ynddynt. Yng Nghymru, rydym wedi cynnal hawliau llawn i gymorth â'r dreth gyngor a'r budd-dal tai am ddwy flynedd arall, ym mhob awdurdod lleol, er mwyn diystyru'r pensiwn anabledd rhyfel a chynllun iawndal y lluoedd arfog wrth gynnal profion modd ar gyfer cymorth a ddarperir gan y cyngor.

The Minister for Education and Skills and I will jointly sponsor the launch of Supporting Service Children in Education Cymru on 23 June. This provides guidance, advice and signposting on supporting service children in education in Wales. It also looks at the potential issues affecting service children as a result of mobility and deployment. The project has been funded through the community covenant grant.

Bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau a minnau yn cyd-noddi lansiad Cefnogi Plant y Lluoedd Arfog yn Addysg Cymru ar 23 Mehefin. Mae hwn yn rhoi arweiniad, cyngor a chyfeiriad i gefnogi plant y lluoedd arfog mewn addysg yng Nghymru. Mae hefyd yn edrych ar y materion posibl sy'n effeithio ar blant y lluoedd arfog o ganlyniad i symudedd a lleoli. Mae'r prosiect wedi ei ariannu drwy'r grant cyfamod cymunedol.

I'm pleased to tell you that, earlier in the year, the Welsh Government received a silver award from the Ministry of Defence's employer recognition scheme for our exemplary reservist policy. We currently employ nine reservists who bring many benefits to the workplace. We will continue to look at our employer support for reservists; we value their contribution and commitment to our organisation and the wider community. At the last covenant champions event in November 2014, I launched an awareness campaign to promote the benefits of signing up to the defence privilege card with Armed Forces personnel in Wales. The campaign is being run until Armed Forces Day in June. I'm delighted to tell you that the increase in veterans signing up for the card has already exceeded the target and is currently standing at 52.3 per cent, compared with a UK increase of 13.9 per cent. These bi-annual community covenant events, supported and managed by the Welsh Government, are a platform for sharing information and good practice and for discussing more joined-up working and shared services across public, private and third sector organisations.

Rwy'n falch o ddweud wrthych bod Llywodraeth Cymru, yn gynharach eleni, wedi cael gwobr arian gan gynllun cydnabyddiaeth cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn am ein polisi milwyr wrth gefn rhagorol.  Ar hyn o bryd rydym yn cyflogi naw o filwyr wrth gefn sy'n dod â llawer o fanteision i'r gweithle. Byddwn yn parhau i edrych ar ein cefnogaeth i filwyr wrth gefn fel cyflogwr; rydym yn gwerthfawrogi eu cyfraniad a'u hymrwymiad i'n sefydliad ac i'r gymuned ehangach. Yn y digwyddiad pencampwyr cyfamod diwethaf ym mis Tachwedd 2014, lansiais ymgyrch ymwybyddiaeth i hyrwyddo manteision ymuno â'r cerdyn braint amddiffyn gyda phersonél y Lluoedd Arfog yng Nghymru.  Mae'r ymgyrch yn cael ei chynnal tan Ddiwrnod y Lluoedd Arfog ym mis Mehefin. Rwyf wrth fy modd o gael dweud wrthych bod y cynnydd yn y cyn-filwyr sy'n cofrestru ar gyfer y cerdyn eisoes wedi rhagori ar y targed a'i fod ar hyn o bryd yn 52.3 y cant, o'i gymharu â chynnydd yn y DU o 13.9 y cant. Mae'r digwyddiadau cyfamod cymunedol hyn a gefnogir ac a reolir gan Lywodraeth Cymru ac a gynhelir ddwywaith y flwyddyn yn llwyfan ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arfer da ac i drafod mwy o waith cydgysylltiedig a gwasanaethau a rennir ar draws sefydliadau sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.

As mentioned previously, this year is an important year for commemoration. The events, commemorations and celebrations that have taken place across Wales throughout the VE Day events are a fitting tribute to those who gave so much for our freedom. To ensure that we don't forget these very important milestones in our history, and to build a better future and improved welfare for our armed forces community today, we must continue to work together across organisations and service providers to identify priorities going forward and the best ways to deliver those priorities for our armed forces personnel.

Fel y nodwyd eisoes, mae eleni'n flwyddyn bwysig ar gyfer coffáu. Mae'r digwyddiadau, y gwasanaethau coffa a'r dathliadau sydd wedi eu cynnal ledled Cymru drwy gydol y digwyddiadau Diwrnod VE yn deyrnged addas i'r rhai a roddodd gymaint dros ein rhyddid. Er mwyn sicrhau nad ydym yn anghofio'r cerrig milltir pwysig iawn hyn yn ein hanes, ac i adeiladu gwell dyfodol a gwell lles i'n cymuned lluoedd arfog heddiw, mae'n rhaid inni barhau i gydweithio ar draws sefydliadau a darparwyr gwasanaethau i nodi blaenoriaethau wrth symud ymlaen a'r ffyrdd gorau o gyflawni'r blaenoriaethau hynny i'n personél lluoedd arfog.

14:36

## Mark Isherwood Bywgraffiad Biography

Three days of VE Day celebrations paid fitting tribute to those who did so much to defend our United Kingdom and ensure victory in Europe. It was right to take time to reflect on the sacrifices made not just by those in the armed forces, but by civilians, such as land girls and those in reserved occupations, and to make sure the whole of the UK had the chance to take part in commemorating this momentous anniversary, remembering those who gave so much for our freedom.

Roedd tri diwrnod o ddathliadau diwrnod VE yn deyrnged addas i'r rhai a wnaeth gymaint i amddiffyn ein Teyrnas Unedig a sicrhau buddugoliaeth yn Ewrop. Roedd yn iawn i gymryd amser i fyfyrio ar yr aberth a wnaethpwyd, nid yn unig gan y rheini yn y lluoedd arfog, ond gan sifiliaid, fel y merched tir a'r rheini mewn gwaith neilltuedig, a gwneud yn siŵr bod y DU gyfan yn cael cyfle i goffáu'r pen-blwydd pwysig hwn, gan gofio'r rhai hynny a roddodd gymaint dros ein rhyddid.

In your statement, you refer to the £2 million funding to provide housing for armed forces service leavers. I presume this is the Ministry of Defence LIBOR money. I've been pleased to write in support of the Wales Homes for Veterans Initiative for further money as we go forward, but how is the Welsh Government ensuring that the properties on the various housing association sites under this scheme will be earmarked for ex-forces personnel, or even targeted at them to ensure that they don't just become general needs housing, particularly noting that you only indicate eight allocations so far?

Yn eich datganiad, rydych yn cyfeirio at y £2 filiwn o gyllid i ddarparu tai i bobl sy'n gadael gwasanaeth y lluoedd arfog. Rwyf yn tybio mai arian LIBOR y Weinyddiaeth Amddiffyn yw hwn. Rwyf wedi bod yn falch o ysgrifennu i gefnogi Menter Cartrefi Cymru i Gyn-filwyr i gael arian ychwanegol wrth inni symud ymlaen, ond sut y mae Llywodraeth Cymru'n sicrhau y bydd yr eiddo ar y gwahanol safleoedd cymdeithasau tai o dan y cynllun hwn yn cael ei glustnodi ar gyfer cyn-bersonél y lluoedd arfog, neu ei dargedu atynt hyd yn oed, i sicrhau nad ydynt yn dod yn dai anghenion cyffredinol, yn enwedig o weld mai dim ond wyth dyraniad yr ydych wedi'u nodi hyd yn hyn?

With reference to matters raised in this Chamber many times about the treatment of the war disablement pension within the financial assessment process for social care, and its disparity with the treatment of people receiving the armed forces compensation scheme, the First Minister wrote to me advising that the Minister for Health and Social Services is now considering the disparity in the treatment of these different schemes, with a view to developing a new charging and financial assessment framework. I wonder if you're able to update us on that, as that letter was now two months ago.

Gan gyfeirio at faterion a godwyd yn y Siambr hon droeon ynglŷn â thriniaeth y pensiwn anabledd rhyfel o fewn y broses asesu ariannol ar gyfer gofal cymdeithasol, a'r gwahaniaeth rhyngddo â thrin pobl sy'n cael cynllun iawndal y lluoedd arfog, ysgrifennodd y Prif Weinidog ataf gan ddweud bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol bellach yn ystyried y gwahaniaeth rhwng triniaeth y cynlluniau gwahanol hyn, gyda golwg ar ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer codi tâl ac asesu ariannol. Tybed a allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am hynny, gan fod y llythyr hwnnw ddau fis yn ôl erbyn hyn.

At a recent cross-party group on armed forces, chaired by my colleague, Darren Millar, a question was raised on how much Welsh Government received via the Barnett formula as a result of the school cadet expansion programme in England. I wonder if you could indicate that for us. There was an early trial in Llanwern and Treorchy, but, other than that, Wales hasn't yet been involved, although another school, namely Aberdare Community School, has expressed an interest, and there's a need to develop links with north Wales schools as well.

Mewn grŵp trawsbleidiol diweddar ar y lluoedd arfog, dan gadeiryddiaeth fy nghyd-Aelod, Darren Millar, gofynnwyd cwestiwn ynghylch faint gafodd Llywodraeth Cymru drwy fformiwla Barnett o ganlyniad i'r rhaglen ehangu cadetiaid ysgol yn Lloegr. Tybed a allech nodi hynny ar ein cyfer. Bu arbrawf cynnar yn Llanwern a Threorci, ond, heblaw am hynny, nid yw Cymru wedi cymryd rhan hyd yma, er bod ysgol arall, sef Ysgol Gymunedol Aberdâr, wedi mynegi diddordeb, ac mae angen datblygu cysylltiadau ag ysgolion y gogledd hefyd.

In terms of the armed forces covenant, we heard again at the cross-party group that the covenant is full of strong words but it needs to link to action, and that armed forces champions in local authorities and NHS Wales are trying hard but often lack understanding. Again, will you take that on board, and will you and your colleagues advise how you propose to address that?

O ran y cyfamod lluoedd arfog, clywsom eto yn y grŵp trawsbleidiol fod y cyfamod yn llawn geiriau cryf ond bod angen iddo gael cysylltiad â gweithredu, a bod hyrwyddwyr y lluoedd arfog mewn awdurdodau lleol a GIG Cymru yn ymdrechu'n galed ond bod ganddynt ddiffyg dealltwriaeth yn aml. Unwaith eto, a wnewch chi ystyried hynny, ac a wnewch chi a'ch cydweithwyr ddweud sut yr ydych yn bwriadu ymdrin â hynny?

In terms of Veterans' NHS Wales, which, of course, you do refer to, the point was made by the clinicians at the meeting of the cross-party group that the initial funding of £100,000 was over seven months, the additional £100,000 recently announced is over 12 months, and that there's £170,000 gap. They also said that the veterans funding in Wales for this service is well below that for Scotland and England, and that issues with funding had created a massive level of uncertainty amongst staff and patients. They estimated that they actually needed £0.5 million to start doing outreach work in Welsh prisons, with female veterans, families of veterans and serving personnel sick at home who are going to be medically discharged to the NHS. I wonder if you could comment on their concerns.

O ran GIG Cyn-filwyr Cymru, y gwnaethoch, wrth gwrs, gyfeirio ato, gwnaeth y clinigwyr y pwynt yng nghyfarfod y grŵp trawsbleidiol bod y cyllid cychwynnol o £100,000 dros saith mis, bod y £100,000 ychwanegol a gyhoeddwyd yn ddiweddar dros 12 mis, a bod bwlch o £170,000. Dywedasant hefyd fod cyllid ar gyfer y gwasanaeth hwn i gyn-filwyr Cymru yn llawer is nag yn yr Alban a Lloegr, a bod problemau gyda chyllid wedi creu ansicrwydd enfawr ymhlith y staff a chleifion. Roeddent yn amcangyfrif bod angen £0.5 miliwn arnynt mewn gwirionedd i ddechrau gwneud gwaith allgymorth yng ngharchardai Cymru, gyda chyn-filwyr benywaidd, teuluoedd cyn-filwyr a phersonél sy'n gwasanaethu yn sâl yn eu cartrefi sy'n mynd i gael eu rhyddhau'n feddygol i'r GIG. Tybed a allech chi roi sylwadau ar eu pryderon?

In terms of calls for an armed forces commissioner for the armed forces community in Wales, we heard that this is doing well in Scotland, where a good understanding of veterans and their needs is providing dividends, but there is a need to sustain momentum. Again, can you update us on the Welsh Government support regarding this scheme? A concern, finally, was raised at the meeting regarding finding premises for Veterans' NHS Wales in north Wales, where there were problems, they told us, with Betsi Cadwaladr University Local Health Board.

O ran galwadau am gomisiynydd lluoedd arfog i'r gymuned lluoedd arfog yng Nghymru, clywsom fod hyn yn gwneud yn dda yn yr Alban, lle mae dealltwriaeth dda o gyn-filwyr a'u hanghenion o fudd mawr, ond mae angen cynnal momentwm. Unwaith eto, a allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y cymorth gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r cynllun hwn? Yn olaf, mynegwyd pryder yn y cyfarfod ynghylch dod o hyd i eiddo ar gyfer GIG Cyn-filwyr Cymru yn y gogledd, lle'r oedd problemau, cawsom wybod, gyda Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Finally, if I may refer to neurolinguistic programming—an alternative therapy for ex-forces personnel and others with post-traumatic stress disorder and other complex psychological needs—noting that, apparently, the scheme is going to be accredited by the Royal College of Nursing later this year. There is a Bridgend-based charity working with Dr Neil Kitchener, Professor Neil Greenberg, Professor Jackie Stuart and King's College London in developing research into a neurolinguistic protocol for the treatment of military complex PTSD. Would the Welsh Government look at supporting the research into this NLP protocol that would add to the available therapies for the treatment of PTSD for ex-forces personnel in Wales? Thank you.

Yn olaf, os caf gyfeirio at raglennu niwroieithyddol—therapi amgen i gyn-bersonél y lluoedd arfog a phobl eraill sydd ag anhwylder straen wedi trawma ac anghenion seicolegol cymhleth eraill—a nodi ei bod yn debyg y caiff y cynllun ei achredu gan Goleg Brenhinol y Nyrsys yn ddiweddarach eleni. Mae elusen sydd wedi'i lleoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gweithio gyda Dr Neil Kitchener, yr Athro Neil Greenberg, yr Athro Jackie Stuart a Choleg y Brenin Llundain i ddatblygu ymchwil i brotocol niwroieithyddol i drin PTSD cymhleth milwrol. A fyddai Llywodraeth Cymru'n edrych ar gefnogi'r ymchwil i'r protocol NLP hwn a fyddai'n ychwanegu at y therapïau sydd ar gael i drin PTSD ymysg cyn-bersonél y lluoedd arfog yng Nghymru? Diolch.

14:41

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Llywydd, Mark Isherwood is right to refer to the three days of commemoration and the way in which it has been supported across Wales and across the United Kingdom. Indeed, I was very pleased to be present on Sunday at the opening of the new war memorial in Maerdy in my own constituency, which provided a focus for intergenerational understanding of these events. I think it will play a very valuable role in that community and I want to commend the work done by John Thomas and other volunteers in bringing that war memorial into operation.

Lywydd, mae Mark Isherwood yn iawn i gyfeirio at y tri diwrnod o goffâd a'r gefnogaeth a gafodd hyn ledled Cymru a ledled y Deyrnas Unedig. Yn wir, roeddwn yn falch iawn o fod yn bresennol ddydd Sul yn agoriad y gofeb ryfel newydd ym Maerdy yn fy etholaeth i, a roddodd ganolbwynt i ddealltwriaeth rhwng cenedlaethau am y digwyddiadau hyn. Rwy'n credu y bydd yn chwarae rhan werthfawr iawn yn y gymuned honno a hoffwn ganmol gwaith John Thomas a gwirfoddolwyr eraill i roi'r gofeb rhyfel honno ar waith.

The Member asks specifically about housing, and I think it's important to say that not only do we have, of course, the £2 million of funding made available in 2013-14, which was allocated to local authorities and was advertised, let me say, through the Ministry of Defence joint housing advice office as part of their referral scheme—and we had, I think, 15 expressions of interest initially on that—but we also, of course, have the Housing (Wales) Act 2014 that introduces a new framework for tackling homelessness in Wales from 27 April, which will strengthen the protection for all groups, including veterans. A new duty to help prevent homelessness will require local authorities to work with other agencies, including welfare services for veterans, to help them when they are at risk and, indeed, if they become homeless. A consultation on the statutory guidance to support this legislation has invited views from the armed forces welfare sector on how the guidance can be strengthened.

Mae'r Aelod yn gofyn yn benodol am dai, ac rwyf yn credu ei bod yn bwysig dweud bod gennym, wrth gwrs, y £2 filiwn o gyllid a ddarparwyd yn 2013-14, a ddyrannwyd i awdurdodau lleol ac a hysbysebwyd, gadewch imi ddweud, drwy swyddfa cyngor tai ar y cyd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn rhan o'i chynllun atgyfeirio—a chawsom, rwy'n meddwl, 15 mynegiant o ddiddordeb yn hynny ar y cychwyn—ond mae gennym hefyd, wrth gwrs, Deddf Tai (Cymru) 2014 sy'n cyflwyno fframwaith newydd i ymdrin â digartrefedd yng Nghymru o 27 Ebrill ymlaen, a fydd yn cryfhau'r amddiffyniad i bob grŵp, gan gynnwys cyn-filwyr. Bydd dyletswydd newydd i helpu i atal digartrefedd yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol gydweithio ag asiantaethau eraill, gan gynnwys gwasanaethau lles i gyn-filwyr, i'w helpu pan fyddant mewn perygl ac, yn wir, os byddant yn mynd yn ddigartref. Mae ymgynghoriad ar y canllawiau statudol i gefnogi'r ddeddfwriaeth hon wedi gwahodd sylwadau gan sector lles y lluoedd arfog ynglŷn â sut y gellir cryfhau'r canllawiau.

The Member asked about the issue of the charging regime under the new framework. That is being taken forward and will come into effect under the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. There will be a tranche 2 consultation on that. The treatment of war disablement pensions will form part of the overall review of the current charging disregards. That will feature in the consultation on the regulations to be made under the Act.

Gofynnodd yr Aelod am y drefn o godi tâl o dan y fframwaith newydd. Mae hynny ar y gweill a bydd yn dod i rym o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ceir ymgynghoriad cyfran 2 am hynny. Bydd triniaeth pensiynau anabledd rhyfel yn ffurfio rhan o'r adolygiad cyffredinol o'r diystyriad codi tâl presennol. Bydd hynny'n rhan o'r ymgynghoriad ar y rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf.

I'm very pleased he drew attention to the school cadet expansion scheme, because, of course, Treorchy comprehensive in my own constituency was the first state school in Wales to support a cadet scheme. That has been very successful and I was very pleased that the headteacher of Treorchy comprehensive was present with me at Windsor castle at the event of the new colours being given by Her Majesty just two weeks ago. I'm also pleased at the developments in Llanwern. There are opportunities, I think, for further expansion, and I know that the armed forces themselves are very keen to give that support.

Rwy'n falch iawn ei fod wedi tynnu sylw at y cynllun ehangu cadetiaid ysgol, oherwydd, wrth gwrs, ysgol gyfun Treorci yn fy etholaeth i oedd yr ysgol wladol gyntaf yng Nghymru i gefnogi cynllun cadét. Mae hynny wedi bod yn llwyddiannus iawn ac roeddwn yn falch iawn bod pennaeth ysgol gyfun Treorci'n bresennol gyda mi yng nghastell Windsor yn y digwyddiad o roi'r lliwiau newydd gan Ei Mawrhydi dim ond pythefnos yn ôl. Rwyf hefyd yn falch o'r datblygiadau yn Llanwern. Ceir cyfleoedd, rwyf yn credu, i ehangu ymhellach, a gwn fod y lluoedd arfog eu hunain yn awyddus iawn i roi'r gefnogaeth honno.

In respect of the covenant, as I said, we will review the package of support, and I would certainly want to take on board any suggestions that come from the armed forces welfare sector as to how we strengthen the covenant and, indeed, its delivery at a local level. I am attending a further event in that regard in Wrexham later this week.

O ran y cyfamod, fel y dywedais, byddwn yn adolygu'r pecyn cymorth, a byddwn yn sicr yn awyddus i ystyried unrhyw awgrymiadau a ddaw oddi wrth sector lles y lluoedd arfog o ran sut y byddwn yn cryfhau'r cyfamod ac, yn wir, yn ei gyflwyno ar lefel leol. Rwyf yn mynd i ddigwyddiad arall yn hynny o beth yn Wrecsam yn ddiweddarach yr wythnos hon.

In respect of the specific moneys made available through the health service, the £100,000 on the Veterans' NHS Wales, I think that that has been a successful investment. It's provided flexibility to maintain demand for the service and to sustain shorter waiting times for veterans to access the service. We have also, of course, invested £650,000 in improving access to psychological therapies during the current year. To embed talking therapies in the longer term, we've also commissioned a national action plan that will enable health boards to ensure consistent provision of talking therapies for all their population, including veterans. The health Minister has obviously heard what the Member had to say in respect of PTSD, and I will have further conversations with him about that.

O ran yr arian penodol a fydd ar gael drwy'r gwasanaeth iechyd, y £100,000 ar GIG Cyn-filwyr Cymru, rwyf yn meddwl bod hwnnw wedi bod yn fuddsoddiad llwyddiannus. Mae wedi rhoi hyblygrwydd i gynnal y galw am y gwasanaeth ac i gynnal amseroedd aros byrrach i gyn-filwyr sy'n ceisio cael mynediad at y gwasanaeth. Rydym hefyd, wrth gwrs, wedi buddsoddi £650,000 i wella mynediad at therapïau seicolegol yn ystod y flwyddyn hon. I ymgorffori therapïau siarad yn y tymor hwy, rydym hefyd wedi comisiynu cynllun gweithredu cenedlaethol a fydd yn galluogi byrddau iechyd i sicrhau darpariaeth gyson o therapïau siarad i'w holl boblogaeth, gan gynnwys cyn-filwyr. Mae'r Gweinidog iechyd yn amlwg wedi clywed yr hyn oedd gan yr Aelod i'w ddweud ynglŷn â PTSD, a chaf sgyrsiau pellach gydag ef am hynny.

14:46

## Jenny Rathbone [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Minister, for your statement. As you said, transition can be daunting for people moving back into civilian life, and, often, they may have seen dreadful things either happening to their friends or things that they'd been asked to do on our behalf. So, post-traumatic stress disorder is a major issue, and I was very pleased recently to visit the British legion shop in the high street in Cardiff, which does provide a very useful open-access, easy-to-find place where people can seek help, either for themselves or for their neighbours who they may be concerned about. However, it's clear to me that the general public is absolutely signed up to this idea that we need to support our armed forces and give very generously to the various charities that exist. I suppose my question is around how well do we encourage all those different charities to collaborate and work well together, because I have a sizeable number of former armed forces personnel living in my constituency, and some of them don't seem to be getting the services that they require. Clearly, some outreach is needed to ensure that they are offered what they need. So, I wondered if you could just say what the Government's role is in ensuring that all the different armed forces charities are working together.

Diolch, Weinidog, am eich datganiad. Fel y dywedasoch, gall pontio fod yn frawychus i bobl sy'n symud yn ôl i fywyd fel sifiliaid, ac, yn aml, efallai y byddant wedi gweld pethau ofnadwy naill ai'n digwydd i'w ffrindiau neu bethau y gofynnwyd iddynt eu gwneud ar ein rhan. Felly, mae anhwylder straen wedi trawma'n fater pwysig, ac roeddwn yn falch iawn yn ddiweddar o ymweld â siop y lleng Brydeinig ar y stryd fawr yng Nghaerdydd, sy'n darparu man mynediad agored defnyddiol iawn, sy'n hawdd ei ganfod lle gall pobl geisio cymorth, naill ai iddynt hwy eu hunain neu i'w cymdogion y gallent fod yn pryderu amdanynt. Fodd bynnag, mae'n amlwg i mi bod y cyhoedd yn gyffredinol yn bendant yn cytuno â'r syniad hwn bod angen inni gefnogi ein lluoedd arfog a rhoi'n hael iawn i'r amrywiol elusennau sy'n bodoli. Mae'n debyg mai fy nghwestiwn yw pa mor dda yr ydym yn annog yr holl elusennau gwahanol hyn i gydweithio a gweithio'n dda gyda'i gilydd, oherwydd mae gennyf nifer sylweddol o gyn-bersonél y lluoedd arfog yn byw yn fy etholaeth i, ac nid yw'n ymddangos bod rhai ohonynt yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Yn amlwg, mae angen rhywfaint o allgymorth i sicrhau eu bod yn cael cynnig yr hyn sydd ei angen arnynt. Felly, roeddwn yn meddwl tybed a allech chi ddweud beth yw swyddogaeth y Llywodraeth o ran sicrhau bod yr holl elusennau lluoedd arfog hyn yn gweithio gyda'i gilydd.

14:47

## Leighton Andrews [Bywgraffiad] [Biography]

Senedd.tv
Fideo Video

Well, I'm sure my colleague the Member for Cardiff Central will be aware that I, of course, opened the pop-in centre run by the Royal British Legion in St Mary Street just last year. I think it's had a very significant impact on providing visibility to the Royal British Legion and providing the opportunity for veterans to access services directly. I think the main forum in which we enable third sector organisations that operate on behalf of ex-servicemen and women is through our armed forces expert advisory group. That meets regularly during the course of the year, and a number of those organisations are represented on it.

Wel, rwy'n siwr y bydd fy nghydweithiwr yr Aelod dros Ganol Caerdydd yn ymwybodol fy mod i, wrth gwrs, wedi agor y ganolfan galw heibio a gynhelir gan y Lleng Brydeinig Frenhinol yn Heol Eglwys Fair y llynedd. Rwy'n credu ei bod wedi cael effaith sylweddol iawn wrth roi gwelededd i'r Lleng Brydeinig Frenhinol a rhoi cyfle i gyn-filwyr gael mynediad at wasanaethau yn uniongyrchol. Rwy'n credu mai'r prif fforwm lle'r ydym yn galluogi mudiadau'r trydydd sector sy'n gweithredu ar ran cyn-filwyr yw drwy ein grŵp cynghori arbenigol ar y lluoedd arfog. Mae'r grŵp hwnnw'n cwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, ac mae nifer o'r mudiadau hynny wedi'u cynrychioli arno.

14:48

## Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad] [Biography]

A gaf i groesawu'r datganiad yma gan y Gweinidog a chroesawu'n fawr iawn yr hyn y mae e wedi ei ddweud ynglŷn â'r gwasanaethau sy'n cael eu hestyn i gyn-filwyr sy'n ei chael hi'n anodd i ddychwelyd i gymdeithas, a hefyd i weddwon milwyr ac i'w teuluoedd nhw? Mae'n eithriadol o bwysig ein bod ni'n sicrhau bod y bobl yma, sydd eisoes wedi cael eu creithio gan ryfel a gan eu profiadau nhw yn y lluoedd arfog, yn cael pob cynhaliaeth bosib. Rwy'n mawr obeithio y bydd yna gefnogaeth drawsbleidiol yn y lle yma ar gyfer y gwasanaethau yma ac y gallwn ni gydweithio er mwyn hyrwyddo'r gwasanaethau hollbwysig yma.

May I welcome this statement from the Minister and warmly welcome what he has had to say about the services that are being extended to veterans who find it difficult to return to society, and also to the widows of soldiers and their families? It is exceptionally important that we ensure that these people, who have already been scarred by conflict and by their experiences in the armed forces, are given all possible support. I very much hope that there will be cross-party support in this place for these services and that we can all collaborate in order to promote these crucially important services.

A gaf i hefyd fanteisio ar y cyfle i gofnodi'r angen, wrth inni gofio, inni ddysgu hefyd wersi hanes? Fe gefais i a rhai o'm cyd Gomisiynwyr y cyfle, gyda'r Dirprwy Lywydd, i ymweld â Bosnia yn ddiweddar ac i dystio i'r hyn a ddigwyddodd yn Sarajevo ac yn Srebrenica, a oedd yn ein hatgoffa ni o'r hyn all ddigwydd o ganlyniad i ryfel, a rhai o'r pethau a gyflawnwyd gan luoedd Serbia yn y fan honno a oedd yn gwbl annynol a'r modd y cafodd bywydau pobl eu creithio a'u dinistrio gan y digwyddiadau hynny.

May I also take this opportunity to put on record the need, as we commemorate, to learn the lessons of history? I and some of my fellow Commissioners had the opportunity, with the Deputy Presiding Officer, to visit Bosnia recently, witnessing what happened in Sarajevo and Srebrenica, which reminded us of what can happen as a result of war, and some of the things done by the Serbian forces in that place that were totally inhuman and of the way that people's lives were scarred and destroyed by those events.

Byddwn ni yn cael cyfle yma yng Nghymru ym mis Gorffennaf—8 Gorffennaf—i fod yn rhan o'r cofiant o 20 mlynedd ers y digwyddiadau erchyll hynny. Pan rydym ni'n edrych ar yr hyn a ddigwyddodd yn y ganrif ddiwethaf, gyda'r ddau ryfel byd, mae'n rhaid inni gofio hefyd bod y naill ryfel a'r llall wedi creu amodau ar gyfer tyndra ychwanegol—y rhyfel byd cyntaf wedi arwain yn uniongyrchol i'r ail ryfel byd, a'r ail ryfel byd wedi creu'r tensiynau rhwng y gorllewin a'r dwyrain a'r rhyfel oer. Mae'n eithriadol o bwysig inni ddysgu'r gwersi hynny wrth inni edrych ymlaen. Yng nghyd destun hynny, a wnaiff y Gweinidog gytuno â fi bod yr Undeb Ewropeaidd yn eithriadol o bwysig o ran cynnal sefydlogrwydd, nid yn unig o fewn Ewrop, ond yn fyd eang, a bod ein haelodaeth ni o'r Undeb Ewropeaidd yn fodd i geisio sicrhau na fyddwn ni'n gorfod wynebu rhyfel yn Ewrop unwaith yn rhagor?

We will have an opportunity here in Wales in July—8 July—to participate in events to mark 20 years since those most appalling events. When we look at what happened in the last century with the two world wars, we must also bear in mind that both wars created the conditions for additional tensions—the first world war led directly to the second world war, and the second world war created those tensions between east and west that led to the cold war. It is exceptionally important that we learn those lessons as we look to the future. In that context, will the Minister agree with me that the European Union is exceptionally important in terms of maintaining stability, not only within Europe but on a global level, and that our membership of the European Union is a means of trying to ensure that we don't have to face war in Europe ever again?

14:51

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I thank the Plaid Cymru spokesperson for his observations. I think he reminded us not only of the sacrifices but also of the injustices that can be done within war situations. He will be aware that, as well as the recent VE Day commemorations, of course, we have been now, for the last year or so, involved in the Cymru'n Cofio events in relation to the first world war. There is a significant programme of events and activity under way in that regard. He drew specific attention to the twentieth anniversary of the events of Srebrenica on 8 July. I know that he will be encouraging Members to mark those events. Of course, I agree with him that one of the things that has enabled the reduction of tension in Europe has been the creation of the European Union, and I've no doubt that he and I, and others in this Chamber, will have an opportunity to make our commitment and support clear for the endurance of the European Union and the United Kingdom's membership of it in the near future.

Diolch i lefarydd Plaid Cymru am ei sylwadau. Rwy'n credu ei fod wedi ein hatgoffa, nid yn unig am yr aberth, ond hefyd am yr anghyfiawnderau a all ddigwydd mewn sefyllfaoedd rhyfel. Bydd yn ymwybodol, yn ogystal â dathliadau diweddar Diwrnod VE, wrth gwrs, ein bod bellach, yn ystod y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf, wedi cymryd rhan yn y digwyddiadau Cymru'n Cofio sy'n ymwneud â'r rhyfel byd cyntaf. Mae rhaglen sylweddol o ddigwyddiadau a gweithgareddau ar y gweill yn hynny o beth. Tynnodd sylw penodol at yr ugain mlwynedd ers y digwyddiadau yn Srebrenica ar 8 Gorffennaf. Gwn y bydd yn annog yr Aelodau i nodi'r digwyddiadau hynny. Wrth gwrs, rwyf yn cytuno ag ef mai un o'r pethau sydd wedi galluogi lleihau tensiwn yn Ewrop oedd creu'r Undeb Ewropeaidd, ac rwy'n siŵr y bydd ef a minnau, ac eraill yn y Siambr hon, yn cael cyfle i ddangos yn glir ein hymrwymiad a'n cefnogaeth i barhad yr Undeb Ewropeaidd ac aelodaeth y Deyrnas Unedig ohono yn y dyfodol agos.

14:52

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Can I thank the Minister for his statement and for reminding us in this Chamber of the importance of VE Day and commemorating those many millions of people who have given their lives in war over the last century? I was very pleased to be able to lay a wreath in Neath, as I am sure you were, on Sunday. Also, I think it's good that we do commemorate that and join with those who have direct experience of those conflicts, and try to get that lesson across to younger people in terms of what that conflict can mean. Can I also join with Rhodri Glyn Thomas in pressing upon the Chamber the importance of Europe as an institution that has helped us to keep peace, and, of course, of the Human Rights Act and the European convention on human rights, which came directly from that second world war conflict, and how important that is as well in terms of respect for fellow humans and in trying to ensure that we learn the lessons of those conflicts and the appalling tyranny that spawned the second world war in the first place?

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad ac am ein hatgoffa yn y Siambr hon o bwysigrwydd Diwrnod VE a choffáu'r miliynau lawer hynny o bobl sydd wedi rhoi eu bywydau mewn rhyfel yn ystod y ganrif ddiwethaf? Roeddwn yn falch iawn o allu gosod torch yng Nghastell-nedd, fel yr wyf yn siŵr eich bod chithau, ddydd Sul. Hefyd, rwyf yn meddwl ei fod yn beth da ein bod yn coffáu hynny ac yn ymuno â'r bobl hynny sydd â phrofiad uniongyrchol o'r rhyfeloedd hynny, ac yn ceisio cyfleu'r wers honno i bobl iau o ran yr hyn y gall y rhyfel hwnnw ei olygu. A gaf fi hefyd ymuno â Rhodri Glyn Thomas i bwysleisio wrth y Siambr bwysigrwydd Ewrop fel sefydliad sydd wedi ein helpu i gadw heddwch, ac, wrth gwrs, y Ddeddf Hawliau Dynol a'r confensiwn Ewropeaidd ar hawliau dynol, a ddaeth yn uniongyrchol o'r ail ryfel byd, a pha mor bwysig yw hwnnw hefyd o ran parch at gyd-ddyn ac o ran ceisio sicrhau ein bod yn dysgu gwersi'r rhyfeloedd hynny a'r gormes echrydus a arweiniodd at yr ail ryfel byd yn y lle cyntaf?

With regard to what we're able to do here in Wales, Minister, I am aware of the recent report by Professor Rosemary Kennedy into residential provision for veterans, which concluded that there was no evidence of strong support to warrant a residential facility to support veterans with PTSD in Wales. However, there does need to be sufficient capacity in the NHS for members of the armed forces community in Wales who suffer from PTSD to access suitable care, including access to specialist and adequate emergency and respite support. Given that we have no residential facilities here, how is the Welsh Government going to ensure that there is sufficient capacity to support those suffering with PTSD? Will you keep under review the potential need, with your colleague, the health Minister, of course, for such a centre in the future?

O ran yr hyn y gallwn ei wneud yma yng Nghymru, Weinidog, rwyf yn ymwybodol o'r adroddiad diweddar gan yr Athro Rosemary Kennedy ynglŷn â darpariaeth breswyl i gyn-filwyr, a ddaeth i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth o gefnogaeth gref i warantu cyfleuster preswyl i gefnogi cyn-filwyr â PTSD yng Nghymru. Fodd bynnag, mae angen digon o gapasiti yn y GIG ar gyfer aelodau'r gymuned lluoedd arfog yng Nghymru sy'n dioddef o PTSD i gael gofal priodol, gan gynnwys mynediad at gymorth brys a chefnogaeth seibiant arbenigol a digonol. O gofio nad oes gennym gyfleusterau preswyl yma, sut y mae Llywodraeth Cymru'n mynd i sicrhau bod digon o gapasiti i gefnogi'r bobl hynny sy'n dioddef o PTSD? A wnewch chi barhau i adolygu'r angen posibl, gyda'ch cydweithiwr, y Gweinidog iechyd, wrth gwrs, am ganolfan o'r fath yn y dyfodol?

The Liberal Democrats also recognise the importance of mental as well as physical health, and acknowledge that, particularly for veterans, mental health issues have previously been untreated due to the perceived stigma attached to seeking help. What action is the Welsh Government taking to work with the Time to Change Wales programme to tackle stigma about mental health problems with a focus on the armed forces? Since 2010, the Welsh Government has invested around £0.5 million annually to support the all-Wales veterans health and wellbeing service in Wales, and an additional £650,000 was announced last summer for the Veterans' NHS Wales. Could the Minister give an update on how this funding is being spent? Do you have a target for the number of mental health professionals that the Government hopes to employ with this funding, and how is the spending being measured to ensure that we see tangible results rather than just throwing money at the issue in the hope that it will improve?

Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol hefyd yn cydnabod pwysigrwydd iechyd meddwl yn ogystal ag iechyd corfforol, ac yn cydnabod, yn enwedig ar gyfer cyn-filwyr, na chafodd materion iechyd meddwl eu trin yn y gorffennol oherwydd y teimlad o stigma sydd ynghlwm wrth geisio cymorth. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i weithio gyda'r rhaglen Amser i Newid Cymru i ymdrin â stigma am broblemau iechyd meddwl gyda phwyslais ar y lluoedd arfog? Ers 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi tua £0.5 miliwn y flwyddyn i gefnogi gwasanaeth iechyd a lles cyn-filwyr Cymru gyfan yng Nghymru, a chyhoeddwyd £650,000 ychwanegol yr haf diwethaf ar gyfer GIG Cyn-filwyr Cymru. A allai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae'r cyllid hwn yn cael ei wario? A oes gennych chi darged ar gyfer nifer y gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol y mae'r Llywodraeth yn gobeithio eu cyflogi gyda'r cyllid hwn, a sut y mae'r gwariant yn cael ei fesur i sicrhau ein bod yn gweld canlyniadau pendant yn hytrach na dim ond taflu arian at y mater yn y gobaith y bydd yn gwella?

Finally, Presiding Officer, in relation to the community covenant scheme, there is some excellent work going on in local authorities such as Ceredigion, where the council has launched a dedicated telephone number for members of the armed forces community to receive advice and information from the staff trained by the legion and elsewhere as well. What is the Welsh Government doing to capture good practice around Wales and ensure that it is shared and replicated across the country?

Yn olaf, Lywydd, o ran y cynllun cyfamod cymunedol, mae gwaith rhagorol yn cael ei wneud mewn awdurdodau lleol megis Ceredigion, lle mae'r cyngor wedi lansio rhif ffôn penodol ar gyfer aelodau'r gymuned lluoedd arfog i gael cyngor a gwybodaeth gan y staff sydd wedi'u hyfforddi gan y lleng ac mewn mannau eraill hefyd. Beth mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i nodi arferion da o amgylch Cymru a sicrhau eu bod yn cael eu rhannu a'u hailadrodd ledled y wlad?

14:55

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Llywydd, I thank the Liberal Democrat spokesperson for his comments. He started, again, with an endorsement of what had been said by the Plaid Cymru spokesperson in respect of the importance of Europe. He also raised the importance of the Human Rights Act, and, certainly, today I have commissioned work from my officials on the implications of the new UK Government's proposals around the Humans Rights Act, which may well be a subject I need to discuss with the new Justice Secretary, Michael Gove.

Lywydd, diolchaf i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol am ei sylwadau. Dechreuodd, unwaith eto, drwy gymeradwyo'r hyn a ddywedodd llefarydd Plaid Cymru o ran pwysigrwydd Ewrop. Hefyd, soniodd am bwysigrwydd y Ddeddf Hawliau Dynol, ac, yn sicr, heddiw rwyf wedi comisiynu gwaith gan fy swyddogion ar oblygiadau cynigion Llywodraeth newydd y DU yn ymwneud â'r Ddeddf Hawliau Dynol, a allai'n wir fod yn bwnc y mae angen imi ei drafod gyda'r Ysgrifennydd Cyfiawnder newydd, Michael Gove.

He referred specifically to issues around mental health of veterans and, clearly, as a Welsh Government, we have developed a comprehensive strategy, 'Together for Mental Health'. The work, I think, that we have undertaken with Time to Change Wales in tackling stigma has been supported by all in this Chamber, and a number of Assembly Members have given prominence and have been courageous enough to speak of their own experiences in supporting the issue of tackling stigma.

Cyfeiriodd yn benodol at faterion yn ymwneud ag iechyd meddwl cyn-filwyr ac, yn amlwg, fel Llywodraeth Cymru, rydym wedi datblygu strategaeth gynhwysfawr, 'Law yn Llaw at Iechyd Meddwl'. Mae'r gwaith, rwyf yn credu, yr ydym wedi ei wneud gydag Amser i Newid Cymru i ymdrin â stigma wedi ei gefnogi gan bawb yn y Siambr hon, ac mae nifer o Aelodau'r Cynulliad wedi tynnu sylw ac wedi bod yn ddigon dewr i siarad am eu profiadau eu hunain wrth gefnogi'r mater o ymdrin â stigma.

In respect of the specific issues that he raised around the funding, we continue to meet our programme for government commitment in respect of mental health needs of veterans through support for Veterans' NHS Wales, which, of course, provides dedicated veteran therapists in each health board, with £485,000 of Welsh Government funding. Since its inception in 2010, the service has received over 1,100 referrals. Last year we had figures that, to 2013-14, it received 395 referrals. Recognising the need, of course, to ensure timely access to treatment, we announced the additional £100,000 already referred to during 2014 to reduce waiting lists. That had a significant effect, which has been seen across Wales.

O ran y materion penodol a godwyd ganddo ynglŷn â'r cyllid, rydym yn parhau i gyflawni ymrwymiad ein rhaglen lywodraethu o ran anghenion iechyd meddwl cyn-filwyr drwy gefnogi GIG Cyn-filwyr Cymru, sydd, wrth gwrs, yn darparu therapyddion profiadol pwrpasol ym mhob bwrdd iechyd, gyda £485,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru. Ers ei sefydlu yn 2010, mae'r gwasanaeth wedi cael dros 1,100 o atgyfeiriadau. Y llynedd, roedd gennym ffigurau ei fod, hyd at 2013-14, wedi cael 395 o atgyfeiriadau. Gan gydnabod, wrth gwrs, bod angen sicrhau bod triniaeth ar gael yn brydlon, gwnaethom gyhoeddi'r £100,000 ychwanegol y cyfeiriwyd ato eisoes yn ystod 2014 i leihau rhestrau aros. Cafodd hynny effaith sylweddol, sydd wedi cael ei gweld ledled Cymru.

I certainly am happy to commend best practice in local authorities in respect of services for veterans. That is why we have the community covenant champions in local authorities across Wales and why we meet with them to discuss what can best be done by local authorities and others.

Rwyf yn sicr yn fodlon cymeradwyo arfer gorau mewn awdurdodau lleol o ran gwasanaethau i gyn-filwyr. Dyna pam mae gennym yr hyrwyddwyr cyfamod cymunedol mewn awdurdodau lleol ledled Cymru a pham yr ydym yn cyfarfod â hwy i drafod beth yw'r peth gorau i awdurdodau lleol ac eraill ei wneud.

14:58

## Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I, too, want to echo some of the comments that have been made about the tremendous commemoration activity across the United Kingdom last week and over the weekend. It was wonderful to see so many veterans in London, at the cenotaph, to mark the very special anniversary—the seventieth anniversary, of VE Day. Will you join me in condemning those left-wing activists, though, who vandalised war memorials in London over the past week, which I thought was an insult, frankly, to those brave men and women who we, as the rest of the nation, were saluting on that very important day?

Weinidog, hoffwn innau adleisio rhai o'r sylwadau sydd wedi'u gwneud am y gweithgareddau coffáu aruthrol ledled y Deyrnas Unedig yr wythnos diwethaf a dros y penwythnos. Roedd yn wych gweld cynifer o gyn-filwyr yn Llundain, yn y senotaff, i nodi pen-blwydd arbennig iawn—deg mlynedd a thrigain ers Diwrnod VE. A wnewch chi ymuno â mi i gondemnio'r ymgyrchwyr adain chwith hynny, fodd bynnag, a fu'n fandaleiddio cofebion rhyfel yn Llundain dros yr wythnos ddiwethaf, a oedd yn sarhad, a dweud y gwir, yn fy marn i, i'r dynion a'r menywod dewr hynny yr oeddem ni, fel gweddill y genedl, yn eu saliwtio ar y diwrnod pwysig iawn hwnnw?

Can I also ask you, Minister—? There's been a bit of dithering from the Welsh Government, frankly, on the proposed creation of an armed forces card for Wales. It was some two years ago now, in fact almost three years ago now, when the then Minister responsible for the armed forces told us very clearly that consideration was being given to the establishment of a veterans ID card for Wales and that a task and finish group would be established. That was very welcome news indeed by the armed forces family, and, indeed, by all members on all sides of this Chamber. However, that task and finish group, as I understand it, has completed its work and has reported to the Welsh Government, but I'm not aware of any progress having been made. I'm not aware of any announcements in the pipeline on this and it would be helpful if you could just give us an update as to the status of the work of that task and finish group, so that we can deliver some of the additional benefits that we want to see, on top of the defence privilege card, which has already been established by the work of the UK Government and the Ministry of Defence. We made it quite clear that we want to extend free bus travel, free entry into council swimming pools and Cadw heritage sites, and to create a greater emphasis on identifying veterans in the health system, so that they can ensure that they get access to that priority treatment that they deserve, and are entitled to, as a result of any military service causing them problems with their health.

A gaf fi hefyd ofyn ichi, Weinidog—? Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn araf braidd, a dweud y gwir, ynglŷn â'r bwriad o greu cerdyn lluoedd arfog i Gymru. Mae tua dwy flynedd erbyn hyn, yn wir bron i dair blynedd yn ôl bellach, ers i'r Gweinidog a oedd yn gyfrifol am y lluoedd arfog ar y pryd ddweud wrthym yn glir iawn ei fod yn ystyried sefydlu cerdyn adnabod cyn-filwyr ar gyfer Cymru ac y byddai'n sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen. Cafodd y newyddion groeso brwd iawn gan y teulu lluoedd arfog, ac, yn wir, gan yr holl aelodau ar bob ochr o'r Siambr hon. Fodd bynnag, mae'r grŵp gorchwyl a gorffen hwnnw, yn ôl a ddeallaf, wedi cwblhau ei waith ac wedi adrodd i Lywodraeth Cymru, ond nid wyf yn ymwybodol bod unrhyw gynnydd wedi'i wneud. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gyhoeddiadau sydd ar y gweill ynglŷn â hyn a byddai o gymorth pe gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ynghylch statws gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen hwnnw, fel y gallwn ddarparu rhai o'r manteision ychwanegol yr hoffem eu gweld, ar ben y cerdyn braint amddiffyn, sydd eisoes wedi ei sefydlu gan waith Llywodraeth y DU a'r Weinyddiaeth Amddiffyn. Gwnaethom hi'n gwbl glir ein bod am ymestyn teithiau bws am ddim, rhoi mynediad am ddim i byllau nofio cynghorau a safleoedd treftadaeth Cadw, a chreu mwy o bwyslais ar nodi cyn-filwyr yn y system iechyd, fel y gallant sicrhau bod y driniaeth flaenoriaeth y maent yn ei haeddu ar gael iddynt, yn unol â'u hawliau, o ganlyniad i unrhyw wasanaeth milwrol a achosodd broblemau iechyd iddynt.

Can I also ask, Minister, in terms of the resource, which has been—very welcome—put into the Veterans' NHS Wales service? There is a clear shortfall in the capacity of that service to meet the current levels of demand. That £100,000 has helped to clear some of the backlog, but there is a rising demand for that service as people are becoming more and more aware of it. I know that it's something that the Government is committed to, and I appreciate that very much indeed, but it would be helpful if you could identify the timescale by which you intend to look again at the resources that that service receives, to make sure that they are actually adequate.

A gaf fi ofyn hefyd, Weinidog, o ran yr adnoddau, sydd wedi—croeso mawr iddynt—eu rhoi i mewn i'r gwasanaeth GIG Cyn-filwyr Cymru? Ceir diffyg clir o ran gallu'r gwasanaeth hwnnw i ateb lefelau presennol y galw. Mae'r £100,000 hwnnw wedi helpu i glirio rhywfaint o'r ôl-groniad, ond mae galw cynyddol am y gwasanaeth hwnnw wrth i bobl ddod yn fwy a mwy ymwybodol ohono. Rwy'n gwybod ei fod yn rhywbeth y mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo iddo, ac rwyf yn gwerthfawrogi hynny'n fawr iawn wir, ond byddai o gymorth pe gallech nodi eich amserlen o ran erbyn pryd yr ydych yn bwriadu edrych eto ar yr adnoddau y mae'r gwasanaeth hwnnw'n eu cael, er mwyn sicrhau eu bod mewn gwirionedd yn ddigonol.

In terms also of the work of the third sector, you made reference—.

O ran gwaith y trydydd sector hefyd, gwnaethoch gyfeirio —.

15:01 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Inaudible.]

[Anghlywadwy.]

15:01 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Sorry, Minister, I didn't quite catch that. You made reference to the third sector in your statement—I think it was just to the Royal British Legion. There are obviously many, many organisations that are out there supporting the armed forces community, not least of them are Blind Veterans UK in the north and indeed Cais, through their Change Step programme, which is supporting those individuals who, sometimes, are on the brink of falling into serious problems, but are being rescued from those. The other organisation that is doing some tremendous work, of course, in Wales, is Alabaré, which are establishing, or hoping to establish, a number of veterans homes for those people who need supported accommodation. They have come up with all sorts of problems in the planning process when trying to secure the provision of new homes. Most recently, for example, in Carmarthen, where lots of scaremongering has been going on in communities about the sorts of individuals that they are supporting. What work is the Welsh Government doing to support them in overcoming some of those barriers to delivering these very important supported accommodation places for those people who've served in the forces that need them? Thank you.

Mae'n ddrwg gen i, Weinidog, wnes i ddim clywed hynna'n iawn. Gwnaethoch gyfeirio at y trydydd sector yn eich datganiad—rwyf yn meddwl mai dim ond at y Lleng Brydeinig Frenhinol. Yn amlwg mae llawer iawn o sefydliadau allan yna sy'n cefnogi'r gymuned lluoedd arfog, gan gynnwys Blind Veterans UK yn y gogledd ac yn wir Cais, drwy eu rhaglen Newid Trywydd, sy'n cefnogi'r unigolion hynny sydd, weithiau, ar fin syrthio i mewn i broblemau difrifol, ond sy'n cael eu hachub rhagddynt. Y sefydliad arall sy'n gwneud gwaith aruthrol, wrth gwrs, yng Nghymru, yw Alabaré, sy'n sefydlu, neu sy'n gobeithio sefydlu, nifer o gartrefi cyn-filwyr ar gyfer y bobl hynny sydd ag angen llety â chymorth. Maent wedi wynebu pob math o broblemau yn y broses gynllunio wrth geisio sicrhau darpariaeth cartrefi newydd. Yn fwyaf diweddar, er enghraifft, yng Nghaerfyrddin, lle mae llawer o godi bwganod wedi bod yn digwydd mewn cymunedau am y mathau o unigolion y maent yn eu cefnogi. Pa waith y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i'w cynorthwyo i oresgyn rhai o'r rhwystrau hynny i ddarparu'r lleoedd llety â chymorth pwysig iawn hyn i'r bobl hynny sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog sydd eu hangen? Diolch.

15:02 **Leighton Andrews** Bywgraffiad Biography

Llywydd, can I start by saying that I condemn absolutely and without reservation the actions of anyone who vandalises war memorials?

Lywydd, a gaf fi ddechrau drwy ddweud fy mod yn condemnio'n llwyr ac yn ddiamod gweithredoedd unrhyw un sy'n fandaleiddio cofebion rhyfel?

The Member asks specific questions around the possible establishment of the armed forces card, and I will give consideration to that within the context of the review of the package of support that we are taking forward, but I do want to stress the success that we have had in respect of the armed forces discount card, since we launched the advertising campaign last November. As I said, the increase in take-up of that card in Wales is 52.3 per cent, compared to a UK increase of 13.9 per cent. Our campaign on this will run until Armed Forces Day in June, even though it has already exceeded its targets.

Mae'r Aelod yn gofyn cwestiynau penodol ynglŷn â'r posibilrwydd o sefydlu'r cerdyn lluoedd arfog, a byddaf yn ystyried hynny yng nghyd-destun yr adolygiad o'r pecyn cymorth yr ydym yn bwrw ymlaen ag ef, ond hoffwn bwysleisio'r llwyddiant yr ydym wedi'i gael o ran y cerdyn disgownt lluoedd arfog, ers inni lansio'r ymgyrch hysbysebu fis Tachwedd diwethaf. Fel y dywedais, mae'r cynnydd yn y nifer sy'n defnyddio'r cerdyn yng Nghymru yn 52.3 y cant, o'i gymharu â chynnydd yn y DU o 13.9 y cant. Bydd ein hymgyrch ar hyn yn rhedeg hyd at Ddiwrnod y Lluoedd Arfog ym mis Mehefin, er ei fod eisoes wedi rhagori ar ei dargedau.

In respect of the resources for mental health services, I think that we have to recognise that the additional resources that are being put in have enabled all health boards to reduce waiting times to access treatment considerably. For example, as at December 2014, the waiting times ranged from no waits at Betsi Cadwaladr University Local Health Board to a maximum of 17 weeks at Cardiff and Vale University Local Health Board, and this is within the Royal British Legion's general election manifesto, which was calling on the next UK Government to commit to a maximum of 18 weeks' wait for veterans to access mental health treatment.

O ran yr adnoddau ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, credaf fod yn rhaid inni gydnabod bod yr adnoddau ychwanegol sy'n cael eu rhoi i mewn wedi galluogi pob bwrdd iechyd i leihau amseroedd aros am driniaeth yn sylweddol. Er enghraifft, ym mis Rhagfyr 2014, roedd yr amseroedd aros yn amrywio o ddim aros ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr i uchafswm o 17 wythnos ym Mwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ac mae hyn o fewn maniffesto etholiad cyffredinol y Lleng Brydeinig Frenhinol, a oedd yn galw ar Lywodraeth nesaf y DU i ymrwymo i uchafswm o 18 wythnos o aros i gyn-filwyr i gael triniaeth iechyd meddwl.

He's right to draw attention to third sector organisations. Another of those that he could have referred to, of course, is SSAFA, which does excellent work, and again, is represented on our armed forces expert group. I have, in fact, met with Alabaré, and I will be visiting one of the facilities that they provide in the near future. If there are issues that they want to raise with me in respect of problems that they have experienced on planning in future, I'll be happy to discuss those with them.

Mae e'n iawn i dynnu sylw at sefydliadau trydydd sector. Un arall o'r rhai y gallai fod wedi cyfeirio atynt, wrth gwrs, yw SSAFA, sy'n gwneud gwaith rhagorol, ac unwaith eto, yn cael ei gynrychioli ar ein grŵp arbenigwyr lluoedd arfog. A dweud y gwir, rwyf wedi cyfarfod ag Alabaré, a byddaf yn ymweld ag un o'r cyfleusterau a ddarperir ganddynt yn y dyfodol agos. Os bydd materion yr hoffent eu codi gyda mi ynglŷn â'r problemau y maent wedi'u profi ar gynllunio yn y dyfodol, byddaf yn hapus i'w trafod gyda hwy.

15:04 **4. Datganiad: Llysgenhadon Cyllid yr UE** | **4. Statement: EU Funding Ambassadors**

Y Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

### Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The next item has been postponed.

Mae'r eitem nesaf wedi'i gohirio.

15:04 **5. Datganiad: Cyflwyno Bil yr Amgylchedd (Cymru)** | **5. Statement: Introduction of the Environment (Wales) Bill**

Y Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

### Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

We now move to item 5, which is a statement by the Minister for Natural Resources on the introduction of the Environment (Wales) Bill. Carl Sargeant.

Symudwn yn awr at eitem 5, sef datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol ar gyflwyno Bil yr Amgylchedd (Cymru). Carl Sargeant.

15:04

### Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Thank you, Presiding Officer. I'm pleased to announce and introduce the Environment (Wales) Bill into the National Assembly for Wales today. Following on from the groundbreaking Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, the environment Bill focuses on the management of resources, which is fundamental to our ability to develop sustainably.

Diolch ichi, Lywydd. Rwyf yn falch o gyhoeddi a chyflwyno Bil yr Amgylchedd (Cymru) gerbron y Cynulliad Cenedlaethol Cymru heddiw. Wedi inni dorri tir newydd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Bil yr amgylchedd yn canolbwyntio ar reoli adnoddau, sy'n hanfodol i'n gallu i ddatblygu yn gynaliadwy.

In order to secure prosperity for Wales, safeguarding the resilience of our natural resources and the services they provide, ensuring a clear pathway for decarbonisation and managing our resources effectively is vital. If passed, this legislation will put in place the primary legislation needed to manage Wales's natural resources sustainably in line with the framework in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, and complement the wider legislative reform I'm bringing forward with the Planning (Wales) Bill.

Er mwyn sicrhau ffyniant i Gymru, mae'n gwbl hanfodol diogelu cydnerthedd ein hadnoddau naturiol a'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt, gan sicrhau llwybr clir ar gyfer datgarboneiddio a rheoli ein hadnoddau yn effeithiol. Os caiff ei phasio, bydd y ddeddfwriaeth hon yn sefydlu'r ddeddfwriaeth sylfaenol sydd ei hangen i reoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy yn unol â'r fframwaith yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac yn ategu'r diwygiadau deddfwriaethol ehangach yr wyf yn eu cyflwyno drwy Fil Cynllunio (Cymru).

The Bill has been informed by both Green Paper and White Paper consultations in 2012 and 2014, and secures the changes needed to enable a more joined-up, proactive and effective approach to managing Wales's resources. The provisions have been designed in a way that not only helps to tackle the strategic challenges we face, such as climate change or the continuing decline in biodiversity, but also focuses on the opportunities sustainably managing our resources can provide to support lasting benefits for our communities and the economy.

Mae ymgynghoriadau Papur Gwyrdd a Phapur Gwyn yn 2012 a 2014 wedi llywio'r Bil hwn, ac mae'n sicrhau'r newidiadau sydd eu hangen i alluogi ymagwedd fwy cydgysylltiedig, rhagweithiol ac effeithiol tuag at reoli adnoddau Cymru. Mae'r darpariaethau wedi eu cynllunio mewn ffordd sydd nid yn unig yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau strategol sy'n ein hwynebu, megis newid yn yr hinsawdd neu'r dirywiad parhaus mewn bioamrywiaeth, ond maent hefyd yn canolbwyntio ar y cyfleoedd y gall rheoli ein hadnoddau'n gynaliadwy eu darparu i gefnogi buddion parhaol i'n cymunedau a'r economi.

The Bill delivers directly against the programme for government commitment to introduce environmental legislation and supports the delivery of related programme for government commitments in relation to supporting the transition to a low-carbon economy, effective implementation of European legislation, and enhanced measures to reduce waste and build on Wales's current successful recycling performance.

Mae'r Bil yn cyflawni'n uniongyrchol yn unol ag ymrwymiad y rhaglen lywodraethu i gyflwyno deddfwriaeth amgylcheddol ac yn cefnogi cyflawni ymrwymiadau cysylltiedig y rhaglen lywodraethu mewn perthynas â chefnogi'r newid i economi carbon isel, gweithredu deddfwriaeth Ewropeaidd yn effeithiol, a mesurau gwell i leihau gwastraff ac adeiladu ar berfformiad ailgylchu llwyddiannus presennol Cymru.

Specifically, the Bill addresses fundamental weaknesses in the current statutory framework; and, puts in place modern legislation for managing Wales's natural resources based on acknowledgement of international best practice that, as well as helping to tackle the challenges we face, is equally focused on identifying the opportunities our resources provide to develop sustainably. It puts in place a stronger legislative framework to tackle the causes of climate change with at least an 80% emission reduction target by 2050. Wales, along with the UK is part of a leading group of countries taking legislative action to tackle climate change in this programme. The Bill provides the Welsh Ministers with the necessary powers to ensure that there is greater flexibility to adapt to any emerging consumer trends or unintended consequences of the single-use carrier bags charging scheme and further improves Wales's waste management processes by making provision for waste recycling, better food waste treatment and increased energy recovery. The Bill also enables the removal of unnecessary complexity, and simplifies processes in relation to other regulated industries of shellfisheries, land drainage and flood-risk management. It also enables the marine licensing authority for Wales to charge fees associated with administering the marine licensing scheme.

Yn benodol, mae'r Bil yn mynd i'r afael â gwendidau sylfaenol yn y fframwaith statudol presennol; ac, yn sefydlu deddfwriaeth fodern ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yn seiliedig ar gydnabyddiaeth o arfer gorau rhyngwladol sydd, yn ogystal â helpu i fynd i'r afael â'r heriau yr ydym yn eu hwynebu, yn canolbwyntio yn yr un modd ar nodi'r cyfleoedd y mae ein hadnoddau'n eu darparu i ddatblygu'n gynaliadwy. Mae'n sefydlu fframwaith deddfwriaethol cryfach i fynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd gyda tharged lleihau allyriadau o 80% o leiaf erbyn 2050. Mae Cymru, ynghyd â'r DU yn rhan o grŵp blaenllaw o wledydd sy'n cymryd camau deddfwriaethol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn y rhaglen hon. Mae'r Bil yn rhoi i Weinidogion Cymru y pwerau angenrheidiol i sicrhau bod mwy o hyblygrwydd i addasu i unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg ymhlith defnyddwyr neu ganlyniadau anfwriadol y cynllun codi tâl am fagiau siopa untro ac yn gwella prosesau rheoli gwastraff Cymru ymhellach drwy wneud darpariaeth ar gyfer ailgylchu gwastraff, trin gwastraff bwyd yn well a mwy o adfer ynni. Mae'r Bil hefyd yn golygu y gellir cael gwared ar gymhlethdod diangen, ac yn symleiddio'r prosesau mewn perthynas â diwydiannau eraill a reoleiddir sef pysgodfeydd cregyn, draenio tir a rheoli perygl llifogydd. Mae hefyd yn galluogi awdurdod trwyddedu morol Cymru i godi ffioedd sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r cynllun trwyddedu morol.

The combined impact of the Bill provisions enable significant economic, social and environmental benefits for Wales, and builds on the approach of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 that has already been recognised by the UN as world leading. Working with the wellbeing of future generations Act and the Planning (Wales) Bill, the Environment (Wales) Bill will put in place the legislation needed to secure the long-term wellbeing of the people of Wales and ensure that current and future generations benefit from a prosperous economy, a healthy and resilient environment and vibrant and cohesive communities. Thank you.

Mae effaith gyfunol darpariaethau'r Bil yn cynnig manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sylweddol i Gymru, ac yn adeiladu ar ymagwedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd eisoes wedi ei chydnabod gan y Cenhedloedd Unedig fel un sy'n arwain y byd. Law yn llaw â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Bil Cynllunio (Cymru), bydd Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn sefydlu'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i sicrhau llesiant hirdymor pobl Cymru a sicrhau bod cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol yn elwa ar economi ffyniannus, amgylchedd iach a chydnerth a chymunedau bywiog a chydlynol. Diolch yn fawr.

15:08

## Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography

Minister, thank you for your statement today, and in particular your explanation of the legislation as you see it that the Government is introducing into the Assembly for scrutiny in the first instance, but obviously then taking it forward for adoption after it has passed its Stage 3 process. There is much water to go under the bridge and I'm sure there will be much evidence taken by the committee, and hopefully the Minister will be in listening mode. I think, as a Minister, he has most probably taken more legislation through the Assembly than other Ministers on the front bench there, so he's becoming a bit of an old hand at this, but I do hope that he will be in listening mode, because obviously the environment is something that concerns us all, and it is surely incumbent on us all to make sure that we hand over a legacy to the next generation that is better than the legacy that we inherited. Given the challenges that we do face in the environmental field, he will find a supportive ear certainly on this side of the Chamber, but a critical opinion where that opinion needs to be expressed, and where change needs to be brought forward, because we need to make sure that this legislation is sound, is correct, and ultimately can deliver the benefits that I think we'd all aspire to.

Weinidog, diolch ichi am eich datganiad heddiw, ac yn arbennig am eich esboniad o'r ddeddfwriaeth fel y gwelwch hi y mae'r Llywodraeth yn ei chyflwyno i'r Cynulliad ar gyfer craffu yn y lle cyntaf, ond yn amlwg, yn bwrw ymlaen â hi wedyn i'w mabwysiadu ar ôl iddi basio ei phroses Cam 3. Mae llawer o ddŵr i fynd o dan y bont ac rwyf yn siŵr y bydd y pwyllgor yn cymryd llawer o dystiolaeth, ac rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn gwrando. Credaf ei fod, fel Gweinidog, yn ôl pob tebyg wedi mynd â mwy o ddeddfwriaeth drwy'r Cynulliad na Gweinidogion eraill ar y fainc flaen acw, felly mae'n dod yn dipyn o hen law ar hyn, ond rwyf yn gobeithio y bydd yn gwrando, oherwydd wrth gwrs mae'r amgylchedd yn rhywbeth sy'n peri pryder inni i gyd, ac mae'n sicr yn ddyletswydd arnom i gyd i wneud yn siŵr ein bod yn trosglwyddo etifeddiaeth i'r genhedlaeth nesaf sy'n well na'r etifeddiaeth a gawsom ni. O ystyried yr heriau yr ydym yn eu hwynebu yn y maes amgylcheddol, bydd clust gefnogol iddo yn sicr ar yr ochr hon i'r Siambr, ond hefyd farn feirniadol lle y mae angen i'r farn honno gael ei mynegi, a lle y mae angen cyflwyno newid, oherwydd mae angen sicrhau bod y ddeddfwriaeth hon yn gadarn, yn gywir, ac yn y pen draw yn gallu sicrhau'r buddion yr wyf yn meddwl ein bod ni oll yn anelu atynt.

I do have my concerns, though. Obviously, the Minister in his statement refers to Natural Resources Wales, and the ability for Natural Resources Wales to deliver some of this legislation. We all know that the recent staff survey showed that that organisation is not in a good place at the moment, and in fact he does touch on it in his statement when he says that NRW remains bound by weakness, albeit he is talking about the legislative framework. I'd be grateful if the Minister could explain in some detail how he believes Natural Resources Wales will evolve from the current very low morale that exists within that organisation to be able to work to deliver on the aspirations that are contained within this legislation, and, indeed, how they have informed his department in the creation of the legislation that his department have laid before the Assembly today.

Mae gennyf bryderon, er hynny. Wrth gwrs, mae'r Gweinidog yn ei ddatganiad yn cyfeirio at Cyfoeth Naturiol Cymru, a'r gallu i Cyfoeth Naturiol Cymru gyflwyno rhywfaint o'r ddeddfwriaeth hon. Rydym i gyd yn gwybod bod yr arolwg staff diweddar yn dangos nad yw'r sefydliad hwnnw mewn lle da ar hyn o bryd, ac yn wir mae'n crybwyll hynny yn ei ddatganiad pan ddywed fod CNC yn dal wedi'i gyfyngu gan wendid, er ei fod yn siarad am y fframwaith deddfwriaethol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog esbonio'n fanwl sut y mae'n credu y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn esblygu o'r morâl isel iawn sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y sefydliad i allu gweithio i gyflawni'r dyheadau sydd yn y ddeddfwriaeth hon, ac, yn wir, sut y mae wedi rhoi gwybodaeth i'w adran wrth greu'r ddeddfwriaeth y mae ei adran wedi'i gosod gerbron y Cynulliad heddiw.

I'd also be interested to see an explanation from the Minister when he's talking about the Bill containing:

Byddai'n dda gennyf hefyd gael eglurhad gan y Gweinidog pan ddywed y bydd y Bil yn cynnwys:

'the necessary powers to ensure that there is greater flexibility to adapt to any emerging consumer trends'.

'y pwerau angenrheidiol i sicrhau bod mwy o hyblygrwydd i addasu i unrhyw dueddiadau sy'n dod i'r amlwg ymhlith defnyddwyr'.

That, to me, is just civil-service speak, to be honest with you. I'd be really grateful to understand how he believes this legislation will respond practically to 'emerging consumer trends' and what he believes are 'emerging consumer trends' as we sit here today, because, as I said, to me, it just looks very much like civil-service speak.

I mi, ieithwedd y gwasanaeth sifil yw hynny, a dweud y gwir. Byddai'n dda iawn gennyf gael deall sut y mae'n credu y bydd y ddeddfwriaeth hon yn ymateb yn ymarferol i 'dueddiadau sy'n dod i'r amlwg ymhlith defnyddwyr' a'r hyn y mae'n credu sy'n 'dueddiadau sy'n dod i'r amlwg ymhlith defnyddwyr' wrth inni eistedd yma heddiw, oherwydd, fel y dywedais, i mi, mae'n edrych yn debyg iawn i ieithwedd y gwasanaeth sifil.

It talks about enabling the 'removal of unnecessary complexity' and simplifying the process. Again, could you offer an explanation of where you believe this complexity exists at the moment, and how this legislation will, in the first instance, remove that complexity, but also, as we move forward, continue to remove the complexity? Certainly, again, from this side of the house, we are all for lessening the burden and lessening the regulatory red-tape stranglehold that we hear about from businesses and consumers that seems to drive them so mad, and that, in practice, seems to grow day by day and week by week.

Mae'n sôn am allu 'cael gwared ar gymhlethdod diangen' a symleiddio'r broses. Unwaith eto, a allwch chi gynnig esboniad o ble yr ydych yn credu y mae'r cymhlethdod hwn yn bodoli ar hyn o bryd, a sut y bydd y ddeddfwriaeth hon, yn y lle cyntaf, yn cael gwared ar y cymhlethdod hwnnw, ond hefyd, wrth inni symud ymlaen, sut y bydd yn parhau i gael gwared ar y cymhlethdod? Yn sicr, unwaith eto, ar yr ochr hon i'r tŷ, rydym i gyd o blaid ysgafnhau'r baich a llacio gafael haearnaidd y rheoleiddio biwrocrataidd yr ydym yn clywed amdano gan fusnesau a defnyddwyr sydd fel petai'n eu gyrru mor wallgof, ac sydd, yn ymarferol, fel petai'n tyfu o ddydd i ddydd ac o wythnos i wythnos.

Also, I'd be interested to hear, when he's talking about the Bill setting,

Hefyd, byddai gennyf ddiddordeb clywed, pan fo'n sôn y bydd y Bil yn sefydlu,

'requirements for the development of a State of Natural Resources Report, a National Natural Resources Policy and Area Statements',

gofynion i ddatblygu Adroddiad am Sefyllfa Adnoddau Naturiol, Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a Datganiadau Ardal,

how he sees those statements and reports actually coming forward. Is it from within his department—therefore, the same civil servants who are devising the legislation and, maybe, responsible for delivering Government policy, ticking their own boxes, as it were—or will that be passed to a third party group or organisation so that we genuinely do get an independent report and oversight as to the progress that has been made?

sut y mae'n gweld y datganiadau a'r adroddiadau hynny mewn gwirionedd yn cael eu cyflwyno. Ai o'i adran ef—felly, yr un gweision sifil sy'n dyfeisio'r ddeddfwriaeth ac, efallai, yn gyfrifol am roi polisi'r Llywodraeth ar waith, yn ticio eu blychau eu hunain, fel petai—neu a fydd hyn yn cael ei drosglwyddo i grŵp neu sefydliad trydydd parti, fel ein bod mewn gwirionedd yn cael adroddiad annibynnol a goruchwyliaeth o ran y cynnydd sydd wedi'i wneud?

I'd also like to find out from the Minister how he believes, working across Government, some of these aspirations in the legislation will be able to be enacted; in particular, the rural development plan, for example, because you talk about,

Hoffwn hefyd gael gwybod gan y Gweinidog sut y mae'n credu y bydd rhai o'r dyheadau hyn yn y ddeddfwriaeth, gan weithio ar draws y Llywodraeth, yn gallu cael eu deddfu; yn benodol, y cynllun datblygu gwledig, er enghraifft, oherwydd rydych yn sôn am,

'sustainable land management practices to provide habitats for wildlife'.

arferion rheoli tir cynaliadwy er mwyn darparu cynefinoedd i fywyd gwyllt.

That, to me, could've jumped out of any rural development plan that a Minister and his Government might be bringing forward. So, I'd be grateful to hear how the legislation might well complement the policy aspirations that the Government, obviously, would have in that particular field.

I mi, gallai hynny fod wedi neidio allan o unrhyw gynllun datblygu gwledig y gallai rhyw Weinidog a'i Lywodraeth ei gyflwyno. Felly, byddai'n dda gennyf gael clywed sut y gallai'r ddeddfwriaeth ategu'r dyheadau polisi a fyddai gan y Llywodraeth, yn amlwg, yn y maes penodol hwnnw.

Again, I'd also like to understand exactly how the,

Unwaith eto, hoffwn gael deall hefyd yn union sut y bydd y,

'statutory targets supported by carbon budgeting',

targedau statudol a gefnogir gan gyllidebu carbon,

that he refers to will work, because it talks about it in the statement, but I've tried to read the legislation, and I'm not sure how, in practice, those targets are going to be supported.

y mae'n cyfeirio atynt yn gweithio, oherwydd mae'n sôn am hyn yn y datganiad, ond rwyf wedi ceisio darllen y ddeddfwriaeth, ac nid wyf yn siŵr sut, yn ymarferol, y caiff y targedau hynny eu cefnogi.

Also, I think one of the key things to understand is the capacity of the industry and capacity of public bodies to meet the aspirations for better recycling, better food waste treatment and increased energy recovery. Again, I'd appreciate understanding from the Minister what actions, in formulating this legislation, the officials and, in particular, the Minister have taken in discussing the legislation and understanding the capacity constraints that might exist within the recycling industry or, indeed, many of the public bodies that would have to hit some of these key targets that the legislation would seek to set.

Hefyd, credaf mai un o'r pethau allweddol i'w deall yw capasiti'r diwydiant a gallu cyrff cyhoeddus i fodloni'r dyheadau ar gyfer ailgylchu gwell, trin gwastraff bwyd yn well a mwy o adfer ynni. Unwaith eto, hoffwn gael deall gan y Gweinidog pa gamau, wrth lunio'r ddeddfwriaeth hon, y mae'r swyddogion ac, yn benodol, y Gweinidog wedi'u cymryd wrth drafod y ddeddfwriaeth a deall y cyfyngiadau o ran capasiti a allai fod yn y diwydiant ailgylchu neu, yn wir, lawer o'r cyrff cyhoeddus y byddai'n rhaid iddynt daro rhai o'r targedau allweddol hyn y byddai'r ddeddfwriaeth yn eu gosod.

Above all, what we have to remember is that if we are going to succeed in our environmental objectives, education is a very important part of delivering those objectives. There was very little reference to education in the legislation or in this statement, or to how the Minister will be working with the departments across the rest of Government to make sure that the legislation that he is bringing forward is compatible with the wider goals of Government. If we can, through education and information, seek to change people's perspective and roles, and the way they go about their daily lives, whether that be in employment, in leisure or in family life, then we really will be on the path to creating a more sustainable and environmentally friendly country here in Wales. I hope that the Minister will be able to bring forward an explanation as to how that will all fit into this legislation that he's brought forward this week.

Yn anad dim, yr hyn mae'n rhaid inni ei gofio, os ydym am lwyddo yn ein hamcanion amgylcheddol, yw bod addysg yn rhan bwysig iawn o gyflawni'r amcanion hynny. Ychydig iawn o sôn am addysg oedd yn y ddeddfwriaeth a'r datganiad hwn, ac am sut y bydd y Gweinidog yn gweithio gydag adrannau ar draws gweddill y Llywodraeth i wneud yn siŵr bod y ddeddfwriaeth y mae'n ei chyflwyno yn gydnaws â nodau ehangach y Llywodraeth. Os gallwn geisio, drwy addysg a gwybodaeth, newid persbectif a rolau pobl, a'r ffordd y maent yn byw eu bywydau o ddydd i ddydd, boed hynny o ran cyflogaeth, hamdden neu fywyd teuluol, yna byddwn ar y trywydd iawn i greu gwlad fwy cynaliadwy ac ecogyfeillgar yma yng Nghymru. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn gallu cyflwyno esboniad ynghylch sut y bydd hynny i gyd yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth hon y mae wedi'i chyflwyno'r wythnos hon.

15:14 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Thank you for the positive comments from the Member. I will try my best to answer, initially, some of the questions he raises. First of all, he raised issues regarding the legislation profile and how that will be streamlined in this Bill. The current environmental legislation is around 230 separate pieces of legislation, and, when we integrated the three bodies into NRW, they were still operating very differently, according to each particular establishment that was as an external agency. What we're doing now, because we've created one agency, we're going to modify the framework so that we can pull those pieces of legislation together.

Diolch am y sylwadau cadarnhaol gan yr Aelod. Gwnaf fy ngorau i ateb, yn y lle cyntaf, rai o'r cwestiynau y mae'n eu codi. Yn gyntaf oll, cododd faterion ynglŷn â phroffil y ddeddfwriaeth a sut y bydd hynny'n cael ei symleiddio yn y Bil hwn. Mae tua 230 o wahanol ddarnau o ddeddfwriaeth i'r ddeddfwriaeth amgylcheddol bresennol, a phan aethom ati i gyfuno'r tri chorff i greu CNC, roeddent yn dal i weithredu mewn ffyrdd gwahanol iawn, yn ôl pob sefydliad penodol a oedd yn asiantaeth allanol. Yr hyn yr ydym yn ei wneud yn awr, gan ein bod wedi creu un asiantaeth, yw mynd ati i newid y fframwaith fel y gallwn dynnu'r darnau hynny o ddeddfwriaeth at ei gilydd.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:15.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:15.*

**Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

It would be fair to say, in an ideal world, with more time, we would probably have done some consolidation of environmental legislation, but we just don't have the capacity to do that in this Bill. I think, for a future Government, that is something that would probably need to be considered, around how do we integrate that and consolidate some of that legislation, moving forward. But, for the time being, we believe the activity that NRW needs to work on, around area statements and stuff that the Member raises, will be much more streamlined by bringing the current legislation into one place where one agency links to that.

Byddai'n deg dweud, mewn byd delfrydol, gyda mwy o amser, y byddem yn ôl pob tebyg wedi gwneud rhywfaint o waith i gyfuno deddfwriaeth amgylcheddol, ond nid oes gennym y capasiti i wneud hynny yn y Bil hwn. Credaf fod sut y mae integreiddio hynny a chyfuno rhywfaint o'r ddeddfwriaeth honno, wrth symud ymlaen, yn rhywbeth y bydd angen i Lywodraeth yn y dyfodol ei ystyried. Ond, am y tro, rydym o'r farn y bydd y gweithgarwch y mae angen i CNC weithio arno, ynghylch datganiadau ardal a phethau y mae'r Aelod yn eu codi, yn llawer symlach drwy ddod â'r ddeddfwriaeth gyfredol ynghyd mewn un man lle y mae un asiantaeth yn cysylltu â hynny.

The Member used my words from the statement of course, interestingly, when he said there was a fundamental weakness. Can I assure the Member that wasn't in relation at all to the recent staff survey that the organisation has had, and it's just about process as opposed to personnel? But I do recognise and I've asked my team to raise it with the chief executive of Natural Resources Wales around how he can improve staff morale. Change is difficult for any organisation, and members do feel transition is challenging. But I have every respect for the organisation; they've done a great job in getting to the position where they are of transition, and moving forward now is an important part. The Environment (Wales) Bill gives them the tools to start changing and managing the environment as we see fit for the future, informed by, as I said, the White and Green Papers of earlier years. We've designed this piece of legislation working with many stakeholders, both in public bodies but also in third sector organisations, too.

Defnyddiodd yr Aelod fy ngeiriau o'r datganiad, wrth gwrs, yn ddiddorol, pan ddywedodd fod gwendid sylfaenol. A gaf fi sicrhau'r Aelod nad oedd hynny'n ymwneud o gwbl â'r arolwg staff diweddar y mae'r sefydliad wedi'i gynnal, a'i fod yn ymwneud â phroses yn hytrach na phersonél? Ond rwyf yn cydnabod ac rwyf wedi gofyn i'm tîm godi'r mater gyda phrif weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch sut y gall wella morâl y staff. Mae newid yn anodd i unrhyw sefydliad, ac mae'r aelodau yn teimlo fod y newid yn heriol. Ond mae gennyf bob parch at y sefydliad; mae wedi gwneud gwaith rhagorol i gyrraedd y sefyllfa sydd ohoni o ran newid, ac mae symud ymlaen yn awr yn elfen bwysig. Mae Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn rhoi'r offer iddynt i ddechrau newid a rheoli'r amgylchedd fel y gwelwn yn dda ar gyfer y dyfodol, ar sail, fel y dywedais, Papurau Gwyn a Gwyrdd blynyddoedd blaenorol. Rydym wedi cynllunio'r darn hwn o ddeddfwriaeth gan weithio gyda llawer o randdeiliaid, mewn cyrff cyhoeddus, ond hefyd mewn sefydliadau yn y trydydd sector.

The civil-service speak that the Member talked about, I think he related that to the carrier bag charging and future trends, perhaps. What I hope I can give him comfort about—. One real-term example of this is that there is a carrier bag charge currently in use in Wales, and England and Scotland are looking at that closely to see whether to introduce it there, because of its great success. It wasn't about increasing funding from carrier bags; it was actually trying to get people to use carrier bags less. The Member will notice, if he does the weekly shop perhaps, when he goes into the supermarket, that it's very rare now that you'll see the 5p recycling bags. Actually, they're generally the 6p or 10p ones, which the levy doesn't apply to. So, what we're doing here is seeking, where imaginative supermarkets have used a way to move to a different funding regime—. We are trying to capture that in this piece of legislation. So, that's the future trends, which people are using to escape some of the charging systems that are currently in place.

O ran ieithwedd y gwasanaeth sifil yr oedd yr Aelod yn sôn amdani, credaf ei fod yn cysylltu hynny â chodi tâl am fagiau siopa untro a thueddiadau yn y dyfodol, efallai. Yr hyn yr wyf yn gobeithio y gallaf roi cysur iddo yn ei gylch—. Un enghraifft mewn termau real o hyn yw bod tâl am fagiau siopa untro ar hyn o bryd yn cael ei godi yng Nghymru, ac mae Lloegr a'r Alban yn edrych ar hynny'n ofalus i weld a ddylid ei gyflwyno yno, oherwydd ei fod mor llwyddiannus. Nid oedd yn fater o gasglu mwy o arian am fagiau plastig; y bwriad mewn gwirionedd oedd ceisio cael pobl i ddefnyddio llai ar fagiau plastig. Bydd yr Aelod yn sylwi, wrth wneud y siopa wythnosol efallai, pan fydd yn mynd i'r archfarchnad, mai prin iawn erbyn hyn y gwelwch y bagiau ailgylchu 5c. Mewn gwirionedd, maent fel arfer y rhai 6c neu 10c, nad yw'r ardoll yn berthnasol iddynt. Felly, yr hyn yr ydym yn ceisio'i wneud yma, lle y mae archfarchnadoedd llawn dychymyg wedi defnyddio ffordd o symud i drefn ariannu wahanol—. Rydym yn ceisio cynnwys hynny yn y darn hwn o ddeddfwriaeth. Felly, dyna dueddiadau'r dyfodol, y mae pobl yn eu defnyddio i osgoi rhai o'r systemau codi tâl sydd ar waith ar hyn o bryd.

The Member is absolutely right: areas of the Bill are complex, but another real example would be—and I hope the Member would support this—in terms of the shell fisheries and the management of shell fisheries. Currently, there are Orders in place from many years ago, in terms of the legislation, but what that doesn't help businesses to do is plan for the long term, because we aren't able to apply licences as we were in the past, because of risk factors around sites of scientific interest around Wales. Where a business wants to make a long-term investment of 15 or 20 years, of course they'd like a licence to accompany that, but we can't do that, because we can't prove the science to give comfort to organisations, saying, 'It will be okay to do that for the next 15 or 20 years'. So, this legislation will allow us to have break clauses in that process, which is comfort—. Therefore, we can give businesses longer term contracts for business plans, but it gives us and regulators the ability to have comfort to say, if this isn't working right, then we can put a break clause in that business plan. It just gives us a bit more flexibility to work with business in that process.

Mae'r Aelod yn llygad ei le: mae rhai rhannau o'r Bil yn gymhleth, ond enghraifft wirioneddol arall—ac rwyf yn gobeithio y byddai'r Aelod yn cefnogi hyn—fyddai'r pysgodfeydd cregyn a rheoli pysgodfeydd cregyn. Ar hyn o bryd, mae Gorchmynion ar waith o flynyddoedd lawer yn ôl, o ran y ddeddfwriaeth, ond yr hyn nad yw hynny'n helpu busnesau i'w wneud yw cynllunio ar gyfer y tymor hir, gan nad ydym yn gallu defnyddio trwyddedau fel yr oeddem yn y gorffennol, oherwydd ffactorau risg o ran safleoedd o ddiddordeb gwyddonol o gwmpas Cymru. Pan fo busnes am wneud buddsoddiad hirdymor o 15 neu 20 mlynedd, wrth gwrs byddent yn hoffi trwydded i gyd-fynd â hynny, ond ni allwn wneud hynny, oherwydd ni allwn brofi'r wyddoniaeth i roi cysur i sefydliadau a dweud, 'Bydd yn iawn gwneud hynny am y 15 neu'r 20 mlynedd nesaf'. Felly, bydd y ddeddfwriaeth hon yn golygu y gallwn gynnwys cymalau terfynu yn y broses honno, sydd yn gysur—. Felly, gallwn roi contractau tymor hwy ar gyfer cynlluniau busnes i fusnesau, ond mae'n rhoi'r gallu i ni ac i'r rheoleiddwyr i allu dweud, os nad yw hyn yn gweithio'n iawn, yna gallwn roi cymal terfynu yn y cynllun busnes. Mae'n rhoi ychydig mwy o hyblygrwydd inni i weithio gyda busnesau yn y broses honno.

On the waste management area, we've worked with Constructing Excellence in Wales. I met with the waste recycling membership body last week. There is a great opportunity. People are seeing—. There's two sides to this—either it's a burden or an opportunity. We certainly see it as an opportunity, because we know that by protecting waste streams—so, first of all, minimising waste and understanding what your usage is in the first place, and, secondly, making sure that we've got sorted waste at source, gives you a better cost opportunity. So, instead of feeding your waste stream into landfill, by early sort—and yes, there is more work involved in that—actually, you get a better price and you can move that waste stream on. Understanding your procurement processes there is better for your business. In fact, looking at your waste streams stops you buying in the first place if you're better-informed longer term, and Constructing Excellence Wales are doing some work with SMEs in and across Wales.

O ran rheoli gwastraff, rydym wedi bod yn gweithio gydag Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru. Cyfarfûm â'r corff aelodaeth ailgylchu gwastraff yr wythnos diwethaf. Mae yma gyfle gwych. Mae pobl yn gweld—. Mae dwy ochr i hyn—mae naill ai'n faich neu'n gyfle. Rydym ni'n sicr yn ei weld fel cyfle, oherwydd gwyddom, drwy ddiogelu ffrydiau gwastraff—felly, yn gyntaf oll, mae lleihau gwastraff a deall beth yw eich defnydd yn y lle cyntaf, ac, yn ail, gwneud yn siŵr bod gennym wastraff wedi'i ddidoli yn y tarddiad, yn rhoi cyfle gwell ichi o ran cost. Felly, yn hytrach na bwydo eich llif gwastraff i safleoedd tirlenwi, drwy ddidoli cynnar—ac oes, mae mwy o waith ynghlwm â hynny—mewn gwirionedd, cewch bris gwell a gallwch symud y ffrwd wastraff honno yn ei blaen. Mae deall eich prosesau caffael yno yn well i'ch busnes. Yn wir, mae edrych ar eich ffrydiau gwastraff yn eich atal rhag prynu yn y lle cyntaf os ydych yn fwy gwybodus yn y tymor hwy, ac mae Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru'n gwneud rhywfaint o waith gyda busnesau bach a chanolig yng Nghymru ac ar draws Cymru.

This Bill, as I said—and I made several references to it—is one of the tools in this portfolio of legislation's toolkit. It fits absolutely with the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, and some of the issues around measuring performance and young people, particularly in how we engage and educate people to look after the environment, all fits in with the milestones and the targets within the Well-being of Future Generations (Wales) Act, and in this Bill. We did launch the environment Bill with a poster competition, which was run through Keep Wales Tidy across schools across Wales and we had that event about three weeks ago—very successful. Environmental impact is generational, I think—us oldies, we sort of get it, but actually the younger people absolutely get it and they will be the game-changers, and we have to make sure we've got the right legislation in place, and work with them to make a better future. But I'm grateful for the Member's initial support.

Mae'r Bil, fel y dywedais—a chyfeiriais ato droeon—yn un o'r arfau ym mhecyn cymorth y portffolio deddfwriaeth hwn. Mae'n cyd-fynd yn llwyr â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae rhai o'r materion sy'n ymwneud â mesur perfformiad a phobl ifanc, ac yn arbennig y ffordd yr ydym yn ymgysylltu ac yn addysgu pobl i ofalu am yr amgylchedd, i gyd yn cyd-fynd â'r cerrig milltir a'r targedau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), ac yn y Bil hwn. Lansiasom Fil yr amgylchedd gyda chystadleuaeth poster, a gynhaliwyd drwy Cadwch Gymru'n Daclus mewn ysgolion ar draws Cymru a chynhaliwyd y digwyddiad hwnnw tua thair wythnos yn ôl—llwyddiannus iawn. Mae effaith ar yr amgylchedd yn fater o genhedlaeth, yn fy marn i—rydym ni'r hen bobl yn ei deall i ryw raddau, ond mae'r bobl iau yn ei deall yn llwyr a nhw fydd yn gweddnewid y sefyllfa, ac mae'n rhaid inni wneud yn siŵr bod y ddeddfwriaeth iawn ar waith, a gweithio gyda hwy i greu dyfodol gwell. Ond rwyf yn ddiolchgar am gefnogaeth gychwynnol yr Aelod.

15:21 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

A gaf innau hefyd groesawu cyhoeddi'r Bil yma? Yn sicr, mae yna sawl agwedd i'r Bil, a dweud y lleiaf, ac rŷm ni'n edrych ymlaen at chwarae ein rhan ni wrth graffu ar y Bil ar hyd ei daith drwy y Cynulliad yma. Nawr, o'i wneud yn iawn, wrth gwrs, mae'r dynesiad ecosystemaidd i reoli adnoddau naturiol yn cynnig llawer iawn o fanteision a buddiannau ac yn egwyddor rŷm ni, wrth gwrs, yn ei chefnogi. Ond, os yw e i weithio'n iawn, a fyddech chi, Weinidog, yn cytuno bod angen sicrhau bod system gref o adfer bioamrywiaeth yn ei lle? Nawr, yn amlwg, mae nifer o randdeiliaid eisoes wedi bod yn galw am dargedau statudol ar adfer bioamrywiaeth, a byddwn i'n gofyn i chi efallai i achub ar y cyfle i esbonio pam eich bod chi'n teimlo nad yw hi'n addas i gynnwys targedau o'r fath yn y Bil—oherwydd, wrth gwrs, rydych chi wedi cynnwys targedau newid hinsawdd statudol, ac mae hynny'n rhywbeth y mae Plaid Cymru yn ei gyfrif yn fuddugoliaeth, ac yn wir nifer o gyrff a mudiadau sydd wedi galw am hynny ers talwm. Rŷm ni yn croesawu hynny'n fawr iawn. Ond, wrth groesawu hynny, byddwn i yn gofyn i chi esbonio pa waith y mae'r Llywodraeth wedi'i wneud i adolygu y targedau arfaethedig fydd yn y Bil er mwyn sicrhau eu bod nhw yn dal yn addas ac yn dal yn ddigonol, a hefyd, pa ddarpariaeth fydd yna yn y Bil i adolygu y targedau hynny yn y dyfodol, wrth gwrs, wrth i amgylchiadau newid dros y blynyddoedd i ddod.

May I also welcome the introduction of this Bill? Certainly, there are many aspects to it, to say the least, and we look forward to playing our part in scrutinising the Bill on its journey through this Assembly. Now, in doing it properly, of course, the ecosystems approach to managing natural resources provides many benefits, and is a principle that we, of course, support. But, if it is to work effectively, would you, Minister, agree, that we must ensure that there is a strong system to restore biodiversity in place? Now, clearly, many stakeholders have already been calling for statutory targets on restoring biodiversity, and I would ask you perhaps to take this opportunity to explain why you feel that it isn't appropriate to include such targets in the Bill—because, of course, you have included targets on climate change, which are statutory, and that is something that Plaid Cymru sees as a victory, and, indeed, is something that many other organisations have been calling for for many years. We welcome that very much. But, in welcoming it, we would ask you to explain what work the Government has done to review the proposed targets within the Bill in order to ensure that they continue to be appropriate and adequate, and also to explain what provision there will be within the Bill to review those targets in future, of course, as circumstances change over the years.

Nawr, mae'r Bil yn rhoi, hyd y gwelaf i, dros 40 o bwerau newydd i chi, fel Gweinidog, drwy ddeddfwriaeth eilradd ac yn y blaen. A ydych chi'n cytuno felly fod hynny, weithiau, yn gallu ei gwneud hi'n anodd i randdeiliaid ac i ni fel Aelodau Cynulliad i ddeall yn union beth yw eich bwriad chi mewn perthynas â rhai adrannau o'r Bil? Un o'r rheini efallai yw'r adran sy'n sôn am losgi gwastraff. Nawr, rwyf i a nifer o Aelodau eraill, wrth gwrs, wedi rhybuddio bod cytundebau 25 mlynedd i ddarparu gwastraff i'w losgi, pan fo lefelau ailgylchi yn codi ac yn codi, yn anghyfrifol a dweud y lleiaf. Felly, onid yw cyfyngu ar y gwastraff y gellir ei losgi yn y Bil yma, unwaith eto, yn tanlinellu pa mor anghynaliadwy ac anghyfrifol yw codi mwy o losgyddion gwastraff?

The Bill, as far as I can see, provides over 40 new powers for you, as Minister, through subordinate legislation and so on. Do you agree, therefore, that that, on occasion, can make it difficult for stakeholders, and for us as Assembly Members, to fully understand your intentions in relation to certain sections of the Bill? One of those perhaps is the section concerning the incineration of waste. Now, I and many other Members, of course, have warned that 25-year contracts to provide waste for incineration, when recycling levels are increasing, are irresponsible to say the least. So, doesn't limiting in this Bill the waste that can be incinerated underline how unsustainable and irresponsible it is to actually construct more incinerators?

Rwy’n sylwi hefyd bod y Bil amgylchedd yma yn achub ar y cyfle i ddiwygio y Bil cynllunio, sydd eto i’w fabwysiadu gan y Cynulliad yma, wrth gwrs. Mae hefyd yn achub ar y cyfle i ddiwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru), prin wythnosau ar ôl iddo fe ddod yn Ddeddf. Ysgwn i a fyddech chi, felly, yn cydnabod bod ambell un yn cwestiynu i ba raddau y mae’r Llywodraeth wedi llwyddo i gydlynu y rhaglen ddeddfwriaethol yma fel un rhaglen gyson a chynhwysfawr yn hytrach na thri darn unigol o waith.

I also see that this environment Bill takes the opportunity to amend the planning Bill, which has yet to be adopted by this Assembly, of course. It also takes the opportunity to amend the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, just a few weeks after it became an Act. I wonder if you would, therefore, acknowledge that there are some who would question to what extent the Government has managed to co-ordinate this legislative programme as a single, cohesive and comprehensive programme rather than three separate pieces of work.

Mae’r Bil, wrth gwrs, yn sefydlu rhestr o ddyletswyddau newydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru, ac mi wnaeth y prif weithredwr a’r cadeirydd hi’n glir yn y pwyllgor amgylchedd yr wythnos diwethaf y byddai unrhyw ddyletswyddau ychwanegol yn gorfod dod â mwy o adnoddau gyda nhw. A gaf i felly ofyn i chi, Weinidog, pa adnoddau ychwanegol y byddwch chi’n eu rhoi i Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni’r dyletswyddau newydd yma, ac, os na fyddwch chi yn cynnig adnoddau newydd, efallai y gallwch chi esbonio pa agweddau o’u cyfrifoldebau presennol nhw y byddwch chi’n gofyn iddyn nhw beidio â’u cyflawni?

The Bill, of course, does establish a list of new duties for Natural Resources Wales, and the chief executive and chair made it clear at the Environment and Sustainability Committee last week that any new duties would have to come with greater resources attached to them. So, can I ask you, Minister, what additional resources will you provide to NRW in order to achieve these new duties, and, if you will not be providing further resources, perhaps you could explain what aspects of their current responsibilities will be downgraded or set aside?

Yn olaf, mae yna gonsýrn y bydd y Bil yn symud pwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru ymhellach i ffwrdd o gyflawni cadwraeth natur ac yn ffocysu fwyfwy, ac yn fwy ‘exclusive’, ar reolaeth adnoddau naturiol. Mae’r pwyllgor amgylchedd wedi derbyn llawer iawn o dystiolaeth bod angen i bwrpas Cyfoeth Naturiol Cymru adlewyrchu’n well ei rôl cadwraeth natur. Oni fyddai, er enghraifft, alinio’r pwrpas yn fwy agos i’r nod o greu’r Gymru fwy gwydn yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cyflawni hynny yn fwy effeithiol?

Finally, there is concern, of course, that the Bill would move the purpose of NRW further away from achieving nature conservation and focus more and more, and more exclusively, on the management of natural resources. The environment committee has received a great deal of evidence that NRW’s purpose needs to better reflect its conservation role. Wouldn’t, for example, aligning the purpose more closely to the objective of creating a more robust Wales, which is in the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, achieve that more effectively?

15:25

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

I thank the Member for his questions. I’m grateful to the Member for early on indicating his preferences around the Bill. The Member is obsessed, obviously, with statutory targets in all sorts of Bills, but I’m more than happy to have more discussions around that as we move forward. But I’m grateful for the Member’s comments. In terms of the biodiversity targets the Member made reference to, the Bill replaces the existing duty in section 40 of the Natural Environment and Rural Communities Act 2006 in relation to Wales with a duty on public authorities to seek and maintain and enhance biodiversity, and therefore we believe we complement the Bill in the way that is drafted in terms of what the expectation is of public bodies in this process.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiynau. Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am nodi yn gynnar ei farn ynghylch y Bil. Mae gan yr Aelod obsesiwn, yn amlwg, â thargedau statudol mewn Biliau o bob math, ond rwyf yn fwy na bodlon cael mwy o drafodaethau ynghylch hynny wrth inni symud ymlaen. Ond rwyf yn ddiolchgar am sylwadau'r Aelod. O ran y targedau bioamrywiaeth y cyfeiriodd yr Aelod atynt, mae'r Bil yn disodli'r ddyletswydd bresennol yn adran 40 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 mewn perthynas â Chymru â dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i geisio ac i gynnal a gwella bioamrywiaeth, ac felly rydym yn credu ein bod yn ategu'r Bil o ran y ffordd y mae wedi'i ddrafftio o ran y disgwyliad ar gyrff cyhoeddus yn y broses hon.

The framework and the regulatory powers are no different to any other Bill. It’s for the Minister—me in this case—to explain to the committee exactly what our powers and our intentions are to do that. In other Bills, we’ve issued statements of intent, and that’s something that we would be quite keen to work with committee on too in terms of exactly what the framework and the regulatory powers would allow a Minister to do or not to do.

Nid yw’r fframwaith na'r pwerau rheoleiddio yn wahanol i unrhyw Fil arall. Mater i’r Gweinidog—fi yn yr achos hwn-—yw esbonio i'r pwyllgor yn union beth yw ein pwerau a'n bwriadau i wneud hynny. Mewn Biliau eraill, rydym wedi cyhoeddi datganiadau o fwriad, ac mae hynny'n rhywbeth y byddem yn eithaf awyddus i weithio arno gyda’r pwyllgor hefyd o ran beth yn union y byddai'r fframwaith a'r pwerau rheoleiddio yn caniatáu i Weinidog ei wneud neu beidio â’i wneud.

I don’t accept the issue where the Member said about making amendments to the planning Bill or the future generations Act. All three pieces of legislation were definitive in their own right. The fact is that we’re there for the grace of this Assembly and the benefit of Members that allows passage of that Bill. This is the third and final piece of that jigsaw of Bills and, therefore, we have to consider, as we’re laying the Bills, if, for instance, the environment Bill didn’t pass, then would the legislation of the planning Bill or the Well-being of future generations Act still work. That’s why we have to make amendments as new Bills come forward. So, I would not accept that they are not joined up. It’s absolutely been a key plank to make sure that they do work within my department, but making sure that the legislative profile allows us to make amendments as and when they pass and we see passage through this Assembly with the gift of the Members.

Nid wyf yn derbyn yr hyn a ddywedodd yr Aelod ynghylch gwneud diwygiadau i'r Bil cynllunio neu i Ddeddf cenedlaethau'r dyfodol. Roedd y tri darn o ddeddfwriaeth yn ddiffiniadol yn eu rhinwedd eu hunain. Y ffaith yw ein bod yno trwy ras y Cynulliad hwn ac er budd yr Aelodau sy'n caniatáu hynt y Bil. Dyma drydydd darn a darn olaf y jig-so hwnnw o Filiau ac, felly, mae'n rhaid inni ystyried, wrth inni osod y Biliau, pe na bai, er enghraifft, Bil yr amgylchedd yn pasio, yna a fyddai deddfwriaeth y Bil Cynllunio neu Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dal i weithio. Dyna pam y mae'n rhaid inni wneud gwelliannau wrth i Filiau newydd ddod gerbron. Felly, ni fyddwn yn derbyn nad ydynt yn gydgysylltiedig. Mae wedi bod yn allweddol gwneud yn siŵr eu bod yn gweithio yn fy adran, ond gwneud yn siŵr hefyd fod y proffil deddfwriaethol yn ein galluogi i wneud gwelliannau wrth iddynt gael eu derbyn a phasio drwy'r Cynulliad hwn drwy ras yr Aelodau.

I’m not sure, again, on NRW and additional resources. You know, this is about what NRW was set up to do, and this is how we expect them to do these things. It’s a transition phase for them and we do understand that, early on, there will be costs around how they do work differently that will be involved. But, actually, they’ve got their business plan, they knew the environment Bill was coming and they’ve been very engaged in the whole programme. The regulatory impact assessment will indicate how the financial structures will operate. They fully understand that, and we haven’t had any concerns raised by them in terms of management of the environment Bill, subject to passage.

Nid wyf yn siŵr, unwaith eto, ynglŷn â CNC ac adnoddau ychwanegol. Wyddoch chi, mae hyn yn ymwneud â'r hyn y sefydlwyd CNC i’w wneud, a dyma sut yr ydym yn disgwyl iddynt wneud y pethau hyn. Mae'n gyfnod pontio iddynt ac rydym yn deall y bydd costau, yn y cyfnodau cynnar, o ran sut y maent yn gweithio mewn ffordd wahanol. Ond, a dweud y gwir, mae ganddynt eu cynllun busnes, roeddent yn gwybod bod Bil yr amgylchedd yn dod ac maent wedi ymgysylltu’n fawr â’r rhaglen gyfan. Bydd yr asesiad effaith rheoleiddiol yn nodi sut y bydd y strwythurau ariannol yn gweithredu. Maent yn deall hynny, ac nid ydynt wedi codi dim pryderon o safbwynt rheoli Bil yr amgylchedd, yn amodol ar ei basio.

Again, I think it’s the use of language. I don’t think we disagree; I just think it’s about the broader narrative. You suggested that NRW are moving away from the conservation aspect of their duty. Actually, I think the management role of their duty is much more important, and that includes conservation. It’s not one or the other; actually, they can do both. I think, again, I wouldn’t like to put NRW in a box and say, ‘This is only what you do and are perceived to do’. Actually, the management of natural resources and the broader natural environment—land, sea and air-based—is a fundamental part of how they operate and do business. I think we’ve captured that in the whole Bill, but I welcome the Member’s comments and will look forward, through the scrutiny process, to strengthening the Bill.

Unwaith eto, credaf mai mater o ieithwedd yw hyn. Nid wyf yn credu ein bod yn anghytuno, ond credaf ei fod yn ymwneud â'r naratif ehangach. Awgrymasoch fod CNC yn symud i ffwrdd oddi wrth agwedd gadwraethol ei ddyletswydd. A dweud y gwir, credaf fod swyddogaeth reoli ei ddyletswydd yn bwysicach o lawer, ac mae hynny'n cynnwys cadwraeth. Nid yw’n fater o’r naill neu'r llall; mewn gwirionedd, gall wneud y ddau. Unwaith eto, ni fyddwn am roi CNC mewn blwch a dweud, ‘Dim ond hyn yr ydych yn ei wneud ac y mae pobl yn meddwl eich bod yn ei wneud'. A dweud y gwir, mae rheoli adnoddau naturiol a'r amgylchedd naturiol ehangach-—ar y tir a’r môr ac yn yr awyr—yn rhan sylfaenol o'r modd y mae’n gweithredu ac yn cynnal ei fusnes. Credaf ein bod wedi cynnwys hynny yn y Bil cyfan, ond rwyf yn croesawu sylwadau'r Aelod ac edrychaf ymlaen, drwy'r broses graffu, at gryfhau'r Bil.

15:29 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Minister, I want very much to welcome the introduction of this Bill. It's been quite a long time in the making, but its reach and its bearing will be much longer. It is the third in a series of connected Bills, following the future generations Act and the planning Bill, and I look forward to scrutinising it over the next few months on the Environment and Sustainability Committee and also to holding you to account, as a backbencher. I've had a brief opportunity to look over it, and I'm particularly interested in the provision to establish a flood and coastal committee for Wales. On paper, it reads like a go-between for Natural Resources Wales, local authorities and Welsh Ministers. Can you elaborate on how it will function and what authority it might have, Minister? In terms of membership in England, these committees are made up of Environment Agency appointees, and councillors, with a Government appointee as chair. Members of the public are invited to attend meetings, as observers, but I think that it's worth exploring how you, Minister, can consider how else people might interact with the proposed Welsh committee, and have their particular voice heard. I'm sure you're aware, Minister, of the shoreline management plans for north-west Wales, and the concerns around them, particularly by the group Fairbourne Facing Change. I think we need to have some wider dialogue about that, to afford some greater understanding of what we're trying to do, with those people who live in those communities.

Weinidog, croesawaf yn fawr iawn gyflwyno'r Bil hwn. Mae wedi cymryd tipyn o amser, ond bydd ei gyrhaeddiad a'i ddylanwad yn llawer hwy. Dyma'r trydydd mewn cyfres o Filiau cysylltiedig, yn dilyn Deddf cenedlaethau'r dyfodol a'r Bil cynllunio, ac edrychaf ymlaen at graffu arno dros y misoedd nesaf ym Mhwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd a hefyd at eich dal i gyfrif, fel aelod o'r meinciau cefn. Rwyf wedi cael cyfle bras i edrych drosto, ac mae gennyf ddiddordeb arbennig yn y ddarpariaeth i sefydlu pwyllgor llifogydd ac arfordir ar gyfer Cymru. Ar bapur, ymddengys ei fod yn fan cyswllt rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru. A wnewch chi ymhelaethu ynghylch sut y bydd yn gweithredu a pha awdurdod y gallai fod ganddo, Weinidog? O ran aelodaeth yn Lloegr, mae'r pwyllgorau hyn yn cynnwys penodedigion a chynghorwyr Asiantaeth yr Amgylchedd, a phenodai y Llywodraeth yn gadeirydd. Gwahoddir aelodau o'r cyhoedd i ddod i'r cyfarfodydd, fel sylwebyddion, ond credaf ei bod yn werth archwilio sut y gallech chi, Weinidog, ystyried ffyrdd eraill y gallai pobl ryngweithio â'r pwyllgor arfaethedig yng Nghymru, a sicrhau bod eu llais neilltuol yn cael ei glywed. Rwyf yn siŵr eich bod yn gwybod, Weinidog, am gynlluniau rheoli traethlin gogledd-orllewin Cymru, a'r pryderon yn eu cylch, yn enwedig gan grŵp Fairbourne yn Wynebu Newid. Credaf fod angen cael rhywfaint o ddeialog ehangach am hynny, er mwyn i bobl gael deall yn well yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud, gyda'r bobl hynny sy'n byw yn y cymunedau hynny.

Again, as I said earlier, we are talking about the environment, we are talking about two Bills that have already gone before. And I'm sure you won't be surprised, Minister, when I ask for another chance to reconsider the surface water elements of planning. Because they greatly are affected by climate change, by massive downpours of water, and it isn't very often the case that the people who have caused the problem suffer the result. So, I would ask you, Minister, to consider in your Planning Bill an element of tree planting when we do large-scale housing builds. Because, we all know, don't we, that trees hold substantial amounts of water, and they hold it where it is, rather than letting it run down the road?

Unwaith eto, fel y dywedais yn gynharach, rydym yn sôn am yr amgylchedd, rydym yn sôn am ddau Fil sydd eisoes wedi mynd gerbron. Ac rwyf yn siŵr na fyddwch yn synnu, Weinidog, pan ofynnaf am gyfle arall i ailystyried agweddau dŵr wyneb ar gynllunio. Oherwydd mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio'n fawr arnynt, ynghyd â chawodydd trymion iawn, ac anaml y mae'r bobl sydd wedi achosi'r broblem yn dioddef y canlyniad. Felly, byddwn yn gofyn ichi, Weinidog, ystyried yn eich Bil Cynllunio elfen o blannu coed pan gaiff tai eu hadeiladu ar raddfa fawr. Oherwydd, rydym i gyd yn gwybod, onid ydym, fod coed yn cadw llawer iawn o ddŵr, ac maent yn ei gadw lle y mae, yn hytrach na gadael iddo redeg i lawr y ffordd?

The other area that I'm particularly interested in is recycling, but also waste management. And we all know people who, on the street, give somebody their rubbish because they can take it away for £20, instead of paying a licence or permit holder the true cost of getting rid of that rubbish, while not understanding exactly what they're doing. They have no idea that these people need some licences, that they need permits, so that they can then dispose of that in the right manner, rather than putting it in a farmer's field, or a play area, or a hedgerow. So, Minister, do you think that we can strengthen, somewhere along the line, that information—that knowledge—and maybe put the onus on people to actually have to ask for a permit, or a licence, before they hand over their rubbish?

Y maes arall y mae gennyf ddiddordeb arbennig ynddo yw ailgylchu, ond hefyd rheoli gwastraff. Ac rydym i gyd yn adnabod pobl, ar y stryd, sydd yn rhoi eu sbwriel i rywun oherwydd y gallant ei symud am £20, yn lle talu gwir gost cael gwared ar y sbwriel i ddeiliad trwydded neu bapur caniatâd, heb ddeall yn union yr hyn y maent yn ei wneud. Nid oes ganddynt ddim syniad bod angen trwyddedau ar y bobl hyn, bod angen papur caniatâd arnynt, fel y gallant wedyn cael gwared ar y gwastraff yn y ffordd iawn, yn hytrach na'i roi mewn cae fferm, neu ardal chwarae, neu wrych. Felly, Weinidog, a ydych yn credu y gallwn gryfhau, yn rhywle, yr hysbysrwydd hwnnw—y wybodaeth honno—ac efallai roi'r cyfrifoldeb ar bobl i orfod gofyn am bapur caniatâd, neu drwydded, cyn iddynt drosglwyddo eu sbwriel?

Again, I'm going to flag up some areas of best practice, when people are getting rid of their furniture. The likes of FRAME, in Pembrokeshire—and there are many, many others around the county, and the country—actually do successfully recycle household goods, and actually offer job opportunities, and training, to those people. So, we are actually joining up the economy, saving the environment from fly-tipping, and giving people a real, real opportunity to be part of their communities, in a way that they might not otherwise have.

Unwaith eto, rwyf am dynnu sylw at rai enghreifftiau o arfer gorau, pan fydd pobl yn cael gwared ar eu dodrefn. Mae pobl fel FRAME, yn Sir Benfro—ac mae llawer iawn o rai eraill ar hyd a lled y sir, a'r wlad—yn ailgylchu nwyddau cartref yn llwyddiannus, ac mewn gwirionedd yn cynnig cyfleoedd swyddi a hyfforddiant i'r bobl hynny. Felly, rydym a dweud y gwir yn cydgysylltu'r economi, gan arbed yr amgylchedd rhag tipio anghyfreithlon, a rhoi cyfle gwirioneddol i bobl i fod yn rhan o'u cymunedau, mewn ffordd na allent fod fel arall.

15:33

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

I thank the Member for her comments—again, well-constructed—and look forward to working with her on committee, as with all Members.

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau—unwaith eto, wedi'u saernïo'n dda—ac edrychaf ymlaen at weithio gyda hi ar y pwyllgor, a chyda'r Aelodau i gyd.

She raised the first issue around the flood and coastal committee. We put in the Bill here—this is from an historic piece of legislation, again, stemming, in fact, from the Environment Agency. I've looked at the committee, and how it functions, and I think the Member is absolutely right to raise the issues about how relevant it is to Wales, and how we interact with Wales. I think NRW have done a great job; we're the only place in the UK that has flood wardens, in communities across Wales, and I think that's just one example of where we can do something different for the good.

Roedd y mater cyntaf a gododd yn ymwneud â'r pwyllgor llifogydd a'r arfordir. Rydym yn rhoi'r Bil yma—mae hyn yn codi o ddarn hanesyddol o ddeddfwriaeth, unwaith eto, yn deillio, mewn gwirionedd, o Asiantaeth yr Amgylchedd. Rwyf wedi edrych ar y pwyllgor, a'r ffordd y mae'n gweithredu, a chredaf fod yr Aelod yn hollol iawn i godi'r materion ynghylch pa mor berthnasol y mae i Gymru, a sut yr ydym yn rhyngweithio â Chymru. Credaf fod CNC wedi gwneud gwaith gwych; ni yw'r unig le yn y Deyrnas Unedig sydd â wardeiniaid llifogydd, mewn cymunedau ledled Cymru, a chredaf mai dim ond un enghraifft yw hynny o ble y gallwn wneud rhywbeth gwahanol a fydd o les.

Because it's in statute, we have to put in the ability to remove this statutory function, and therefore I'm looking forward to committee, to understand better about the very questions that the Member has asked, about how as a committee—and engagement with the community, and public, with Government bodies—we can better do that. But I think this gives us the ability to start our own framework—a made-in-Wales solution, to some of the issues that the Member raises.

Oherwydd ei fod mewn statud, mae'n rhaid inni gynnwys y gallu i gael gwared ar y swyddogaeth statudol hon, ac felly edrychaf ymlaen at y pwyllgor, er mwyn deall yn well yr union gwestiynau y mae'r Aelod wedi eu gofyn, ynghylch sut fel pwyllgor—ac ymgysylltu â'r gymuned, a'r cyhoedd, gyda chyrff y Llywodraeth—y gallwn wneud hynny yn well. Ond credaf fod hyn yn rhoi'r gallu inni i ddechrau ein fframwaith ein hunain—ateb a luniwyd yng Nghymru, i rai o'r materion y mae'r Aelod yn eu codi.

She takes every opportunity to raise with me the issue of surface water drainage, and I'm happy to meet with the Member, if she'd like to contact my team, to have a further discussion about that—maybe not with this, in this Bill, but I'm more than happy to have another conversation with her as she pushes that continuously and moves forward.

Mae'n cymryd pob cyfle i godi gyda mi fater draenio dŵr wyneb, ac rwyf yn hapus i gwrdd â'r Aelod, os hoffai gysylltu â'm tîm, er mwyn trafod hynny ymhellach—efallai nid o ran hyn, yn y Bil hwn, ond rwyf yn fwy na bodlon cael sgwrs arall â hi wrth iddi barhau i wthio hynny a symud ymlaen.

On the issue around recycling, again, with municipal waste, we're the fourth in Europe, the best in the UK, and our targets have been driven very hard, with the support of communities and people engaging in that whole process. I know, indeed, that in Lord Dafydd Elis-Thomas's constituency, he takes pride and tweets regularly about how successful they are in recycling in his particular region and the area that he represents. I welcome his contribution, and that of many Members in this Chamber as well, in driving that whole narrative forward. There are things that we already have about illegal fly-tipping, the Clean Neighbourhoods and Environment Act 2005 et cetera, but I think the Member is right to raise with us the issue of responsibility, where we, collectively, have ownership of the state of our nature and of our environment. Again, this is an early stage for the Bill moving forward and I look forward to understanding better what the Member may have in mind in terms of giving additional powers or opportunities for enforcement agencies, or people taking responsibility, as we move forward to bringing the Bill to the floor.

O ran y mater ynghylch ailgylchu, unwaith eto, o ran gwastraff trefol, ni yw'r pedwerydd yn Ewrop, y gorau yn y DU, ac mae ein targedau wedi eu gyrru'n galed iawn, gyda chefnogaeth cymunedau a phobl a ymgysylltodd â'r holl broses honno. Gwn, yn wir, yn etholaeth yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, ei fod yn falch iawn ac yn trydar yn rheolaidd am ba mor llwyddiannus y maent o ran ailgylchu yn ei ranbarth ef a'r ardal y mae'n ei chynrychioli. Rwyf yn croesawu ei gyfraniad, a chyfraniad llawer o Aelodau yn y Siambr hon, yn ogystal, tuag at yrru'r naratif cyfan yn ei flaen. Mae materion eisoes am dipio anghyfreithlon, Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 ac ati, ond credaf fod yr Aelod yn iawn i godi gyda ni fater cyfrifoldeb, lle y mae gennym, gyda'n gilydd, berchnogaeth dros sefyllfa ein natur a'n hamgylchedd. Unwaith eto, rydym yng nghyfnodau cynnar y Bil wrth symud ymlaen ac edrychaf ymlaen at ddeall yn well yr hyn a allai fod mewn golwg gan yr Aelod o ran rhoi pwerau neu gyfleoedd ychwanegol i asiantaethau gorfodi, neu bobl sy'n cymryd cyfrifoldeb, wrth inni symud tuag at ddod â'r Bil i'r llawr.

15:36

## William Powell Bywgraffiad Biography

We hail the publication of this much anticipated Bill and are looking forward to studying it in much detail in the days and weeks to come. Broadly speaking, we welcome the Bill's intention to promote the sustainable management of our natural resources and, indeed, to provide the legislative framework to tackle climate change and to do so in a proactive manner. I'm pleased that the Bill will place a new statutory purpose on Natural Resources Wales and that this will be more clearly and closely aligned to the natural resource management plan. This is particularly welcome if this clarity helps to address some of the issues that were highlighted in the Environment and Sustainability Committee's scrutiny session of NRW just last week, many of which evidently need working through, and need that urgently, if the organisation is to fulfil its remit as effectively and efficiently as we need it to do.

Rydym yn croesawu cyhoeddi'r Bil hirddisgwyliedig hwn ac yn edrych ymlaen at ei astudio'n fanwl yn ystod y dyddiau a'r wythnosau i ddod. Yn fras, rydym yn croesawu bwriad y Bil i hyrwyddo rheolaeth gynaliadwy ar ein hadnoddau naturiol ac, yn wir, i ddarparu fframwaith deddfwriaethol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a gwneud hynny mewn modd rhagweithiol. Rwyf yn falch y bydd y Bil yn gosod pwrpas statudol newydd i Gyfoeth Naturiol Cymru ac y bydd hyn yn cyd-fynd yn fwy clir ac yn agosach â'r cynllun rheoli adnoddau naturiol. Mae hyn i'w groesawu yn enwedig os yw'r eglurder hwn yn helpu i fynd i'r afael â rhai o'r materion a amlygwyd yn sesiwn graffu Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar CNC yr wythnos diwethaf, llawer ohonynt yn amlwg y mae angen gweithio drwyddynt, ac mae angen hynny ar frys, os yw'r sefydliad i gyflawni ei gylch gwaith mor effeithiol ac effeithlon ag y mae arnom angen iddo ei wneud.

I note that there are some additional duties and requirements being placed upon NRW in the form of preparing and publishing area statements for instance. It is important that as much evidence and feedback as possible is gathered from the three area trials that are currently under way, so that any problems can be identified at an early stage and, indeed, the lessons learned. It is also important that NRW is adequately resourced to carry out these additional duties. This is an organisation that has been through some difficult times, as was laid bare in committee last Wednesday, but it is, hopefully, through the worst. It is, however, imperative that NRW has the capacity to carry out what is being asked of it by this new legislation.

Nodaf fod rhai dyletswyddau a gofynion ychwanegol yn cael eu gosod ar CNC ar ffurf paratoi a chyhoeddi datganiadau ardal er enghraifft. Mae'n bwysig bod cymaint o dystiolaeth ac adborth ag y bo modd yn cael eu casglu o'r tri chynllun treialu ardal sydd ar hyn o bryd ar waith, fel y gellir nodi unrhyw broblemau yn gynnar ac, yn wir, ddysgu'r gwersi. Mae hefyd yn bwysig bod gan CNC ddigon o adnoddau i gyflawni'r dyletswyddau ychwanegol hyn. Mae hwn yn sefydliad sydd wedi bod trwy gyfnod anodd, fel y datgelwyd yn y pwyllgor ddydd Mercher diwethaf, ond y mae, rwyf yn gobeithio, wedi dod drwy'r gwaethaf. Y mae, fodd bynnag, yn hanfodol bod CNC yn gallu gwneud yr hyn y mae'r ddeddfwriaeth newydd hon yn gofyn iddo'i wneud.

We welcome the fact that existing duties on public authorities to have regard to biodiversity are being strengthened, but in terms of providing real protection for biodiversity, I agree with others who've already spoken that we must maintain the drive for statutory targets for biodiversity so as to ensure recovery, and that should be on the face of the Bill. The environment strategy for Wales 2006 stated the Welsh Government's commitment to halting the loss of biodiversity and seeing a definite recovery from losses already occurred. Wales has international biodiversity commitments, which we must uphold, including goals set under the UN convention on biodiversity. Yet, a report produced recently by Oxfam, and published two months ago in fact, found that Wales had exceeded proposed safe boundaries by 55 per cent in terms of biodiversity loss.

Rydym yn croesawu'r ffaith fod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus ar hyn o bryd i ystyried bioamrywiaeth yn cael eu cryfhau, ond o ran gwarchod bioamrywiaeth mewn gwirionedd, rwyf yn cytuno ag eraill sydd eisoes wedi siarad fod yn rhaid inni gynnal yr ymdrech i sicrhau targedau statudol ar gyfer bioamrywiaeth, er mwyn sicrhau adferiad, a dylai hynny fod ar wyneb y Bil. Nodwyd yn strategaeth amgylcheddol Cymru 2006 fod ymrwymiad Llywodraeth Cymru i atal colli bioamrywiaeth a sicrhau adferiad pendant yn sgil colledion eisoes wedi digwydd. Mae gan Gymru ymrwymiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, y mae'n rhaid inni eu cynnal, gan gynnwys nodau a osodwyd o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar fioamrywiaeth. Eto i gyd, canfu adroddiad diweddar gan Oxfam, a gyhoeddwyd ddau fis yn ôl a dweud y gwir, fod Cymru wedi mynd 55 y cant y tu hwnt i'r ffiniau diogel arfaethedig o ran colli bioamrywiaeth.

It's also important to note the inter-linkage between climate change and biodiversity loss. For instance, many biodiverse habitats, such as peat lands, hold a substantial amount of carbon, as has been well-rehearsed. With such habitats in decline, this carbon being released into the atmosphere could actually help to sequester carbon. As such, protecting and restoring these habitats can have a major benefit. In the light of this, Minister, do you agree that Wales's biodiversity levels will be a key indication of whether the new natural resource approach is actually working? Will you also commit to introducing a long-term statutory biodiversity target, as others have already raised, not only to reflect Wales's international biodiversity commitments, but also to work in tandem with the proposed climate change targets, which we welcome?

Mae hefyd yn bwysig nodi'r cysylltiad rhwng newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth. Er enghraifft, mewn llawer o gynefinoedd bioamrywiol, megis tiroedd mawn, mae cryn dipyn o garbon, ac mae hynny wedi ei drafod yn helaeth. Gyda chynefinoedd o'r fath yn dirywio, byddai rhyddhau'r carbon hwn i'r atmosffer mewn gwirionedd yn gallu helpu i atafaelu carbon. O'r herwydd, gall gwarchod ac adfer y cynefinoedd hyn fod o fudd mawr. Yng ngoleuni hyn, Weinidog, a ydych yn cytuno y bydd lefelau bioamrywiaeth Cymru yn arwydd allweddol o p'un a yw'r ymagwedd newydd at adnoddau naturiol yn gweithio mewn gwirionedd? A wnewch chi hefyd ymrwymo i gyflwyno targed bioamrywiaeth hirdymor statudol, fel y mae eraill eisoes wedi ei grybwyll, nid yn unig er mwyn adlewyrchu ymrwymiadau bioamrywiaeth rhyngwladol Cymru, ond hefyd er mwyn gweithio law yn llaw â'r targedau arfaethedig ar gyfer newid yn yr hinsawdd, yr ydym yn eu croesawu?

I welcome the comments made by Joyce Watson earlier in response to your statement regarding the local flood panels, but will you give us your reassurance, Minister, that these flood panels will draw on local knowledge? That's absolutely critical. We know from bodies such as the Powysland Internal Drainage Board, the importance of the knowledge and expertise over the years that landowners and other land managers can bring to this process. Also, the importance to protect communities against vexatious objectors who can cause difficulty with regard to delivering particular schemes on the ground.

Rwyf yn croesawu'r sylwadau a wnaed gan Joyce Watson yn gynharach mewn ymateb i'ch datganiad ynghylch y paneli llifogydd lleol, ond a wnewch chi roi sicrwydd inni, Weinidog, y bydd y paneli llifogydd hyn yn tynnu ar wybodaeth leol? Mae hynny'n gwbl hanfodol. Rydym yn gwybod oddi wrth gyrff megis Bwrdd Draenio Mewnol Powysland, am bwysigrwydd y wybodaeth a'r arbenigedd dros y blynyddoedd y gall tirfeddianwyr a rheolwyr tir eraill eu cyfrannu i'r broses hon. Hefyd, pwysigrwydd diogelu cymunedau rhag gwrthwynebwyr blinderus a all achosi anhawster o ran rhoi cynlluniau penodol ar waith ar lawr gwlad.

I would also like, Minister, to see the Bill including stronger commitments to decarbonising the power sector, in order to ensure that we are able to move towards a zero-carbon Wales. Reports have shown that, given the predicted increase in electricity requirements in the UK and in Wales, it is only through the provision of low or no carbon sources of electricity to meet this demand, that emission reductions can be achieved.

Hefyd, Weinidog, hoffwn weld yn y Bil ymrwymiadau cryfach i ddatgarboneiddio'r sector ynni, er mwyn sicrhau y gallwn symud tuag at Gymru ddi-garbon. Mae adroddiadau wedi dangos, o ystyried y cynnydd a ragwelir yng ngofynion trydan y DU a Chymru, mai dim ond trwy ddarparu ffynonellau trydan carbon isel neu ddim carbon i ateb y galw hwn y gellir lleihau allyriadau.

Given that, in terms of greenhouse gas emissions, this Bill does show a commitment by the Minister to tackling climate change, which we welcome, and to implementing targets, Minister, do you agree that this is consistent with the recent declaration by Baden-Württemberg Minister, President Winfried Kretschmann, and California State Governor, Jerry Brown? Will you commit, Minister, to re-energising the work of the four motors for Europe approach so as to show international leadership on this vital issue?

Ac ystyried bod y Bil hwn, o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn dangos ymrwymiad gan y Gweinidog i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, a chroesawn hynny, ac i weithredu targedau, Weinidog, a ydych yn cytuno bod hyn yn gyson â'r datganiad diweddar gan Weinidog Lywydd Baden-Württemberg, Winfried Kretschmann, a Llywodraethwr Talaith California, Jerry Brown? A wnewch chi ymrwymo, Weinidog, i symbylu o'r newydd y gwaith ymagwedd pedwar rhanbarth sbardun Ewrop er mwyn dangos arweiniad rhyngwladol ar y mater hollbwysig hwn?

We will, of course, be looking at all sections of this Bill, Minister, in detail. As I say, at this stage, it is the inclusion of a statutory target for biodiversity, as well as measures around decarbonisation and energy efficiency that we feel need to be significantly strengthened within this Bill so as to demonstrate a true commitment to tackling climate change and to meeting our international obligations. On that, we remain firm.

Byddwn, wrth gwrs, yn edrych ar bob adran o'r Bil hwn, Weinidog, yn fanwl. Fel y dywedais, ar hyn o bryd, yr hyn yr ydym yn credu sydd angen ei gryfhau'n sylweddol yn y Bil yw cynnwys targed statudol ar gyfer bioamrywiaeth, yn ogystal â mesurau datgarboneiddio ac effeithlonrwydd ynni, er mwyn dangos ymrwymiad gwirioneddol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a chyflawni ein rhwymedigaethau rhyngwladol. Ynglŷn â hynny, rydym yn parhau i fod yn gadarn.

15:42

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Thank you for your contribution, again, with many opportunities to strengthen the Bill as we move forward. Can I start with some of the issues around the NRW purpose of this? I think, what I'd like to say on the record is that NRW have done an extremely good job. I believe, moving forward with Emyr and Peter, who've established the board in transition, that change has not been without challenge, as the Member is right to say. But I believe that they've done an incredibly good job in managing the environment. We are now, with this Bill, giving them the tools to move forward into managing our natural environment, which is welcomed by the Member.

Diolch ichi am eich cyfraniad, unwaith eto, gyda llawer o gyfleoedd i gryfhau'r Bil wrth inni symud ymlaen. A gaf fi ddechrau drwy sôn am rai o'r materion ynghylch diben CNC o ran hyn? Yr hyn yr hoffwn ei ddweud ar gofnod yw bod CNC wedi gwneud gwaith arbennig o dda. Gan symud ymlaen gydag Emyr a Peter, sydd wedi sefydlu'r bwrdd mewn cyfnod o newid, nid yw'r newid wedi bod heb ei heriau, fel y mae'r Aelod yn ei ddweud yn gwbl briodol. Ond rwyf yn credu eu bod wedi gwneud gwaith aruthrol o ran rheoli'r amgylchedd. Rydym yn awr, gyda'r Bil hwn, yn rhoi'r arfau iddynt i symud ymlaen i reoli ein hamgylchedd naturiol, ac mae'r Aelod wedi croesawu hynny.

I think there is much debate to be had around biodiversity targets. I think both you and Llyr have made reference to them today and I'd be happy to engage with you around that, on exactly what you are seeking to do. I hope to give you confidence that, within the Bill, we can make some progress there. I'm grateful for the issues around climate change and recognising that we are committed, as a Government, to making a stance and making a clear, positive commitment to our global impact and our local domestic footprint and how we manage that carefully.

Credaf fod llawer i'w drafod ynghylch targedau bioamrywiaeth. Rydych chi a Llyr wedi cyfeirio atynt heddiw a byddwn yn hapus i drafod hynny â chi, o ran yr hyn yn union yr ydych yn ceisio ei wneud. Rwyf yn gobeithio rhoi hyder ichi y gallwn, yn y Bil, symud ymlaen yn hynny o beth. Rwyf yn ddiolchgar am y materion ynghylch newid yn yr hinsawdd a chydnabod ein bod wedi ymrwymo, fel Llywodraeth, i wneud safiad a gwneud ymrwymiad clir, cadarnhaol i'n heffaith fyd-eang a'n hôl troed domestig lleol a sut y mae rheoli hynny'n ofalus.

With regard to the flood committee, I think the Member is right. I don't know quite what the structure should or would look like in the future, but it is absolutely paramount that we do understand what the local demographics are in understanding how the area floods and the activity around there. I also have concerns about individuals who often make vexatious claims about activity in their area, which prevents the good of the community, which does cross my desk. I know that you and other Members have raised this issue with me most recently.

O ran y pwyllgor llifogydd, credaf fod yr Aelod yn iawn. Nid wyf yn gwybod yn union sut y dylai'r strwythur edrych na sut y bydd yn edrych yn y dyfodol, ond mae'n hollbwysig ein bod yn deall beth yw'r ddemograffeg leol o ran deall sut y mae llifogydd yn effeithio ar ardal a'r gweithgarwch yn y fan honno. Rwyf hefyd yn pryderu am unigolion sydd yn aml yn gwneud honiadau blinderus am weithgarwch yn eu hardal, sy'n rhwystro lles y gymuned, sy'n croesi fy nesg. Gwn eich bod chi ac Aelodau eraill wedi codi'r mater hwn gyda mi yn ddiweddar.

I'd like to say, Deputy Presiding Officer, that the laying of this Bill today has given us much opportunity to come together in terms of protecting our environment across parties and it's a welcome opportunity to understand how passage of the Bill will be smoother, now that I understand where Members sit with regard to the provisions that we've laid. But, I'm looking forward to working with the committee and stakeholders as we move forward.

Hoffwn ddweud, Ddirprwy Lywydd, fod gosod y Bil hwn heddiw wedi rhoi llawer o gyfle inni i ddod at ein gilydd o ran gwarchod ein hamgylchedd ar draws y pleidiau ac mae'n gyfle i'w groesawu i ddeall sut y bydd hynt y Bil yn fwy esmwyth, yn awr fy mod yn deall safbwynt yr Aelodau o ran y darpariaethau yr ydym wedi eu gosod. Ond, rwyf yn edrych ymlaen at weithio gyda'r pwyllgor a'r rhanddeiliaid wrth inni symud ymlaen.

15:44 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch yn fawr, Weinidog.

15:44

## 6. Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2015

## 6. The Anti-social Behaviour, CrimeY and Policing Act 2014 (Consequential Amendments) (Wales) Order 2015

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item six is the anti-social behaviour, crime and policing Act Order, and I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion–Lesley Griffiths.

Eitem chwech yw Gorchymyn y Ddeddf ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu a phlismona, a galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gynnig y cynnig—Lesley Griffiths.

Cynnig NDM5754 Jane Hutt

Motion NDM5754 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Mawrth 2015.

Approves that the draft The Anti-social Behaviour, Crime and Policing Act 2014 (Consequential Amendments) (Wales) Order 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 25 March 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:44 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Formally.

Yn ffurfiol.

15:44 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I don't have any speakers. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? The motion is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Nid oes gennyf ddim siaradwyr. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

## 7. Dadl Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefyd yr Afu

## 7. Debate on the Liver Disease Delivery Plan

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Paul Davies, a gwelliant 2 yn enw Elin Jones.*

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Paul Davies, and amendment 2 in the name of Elin Jones.*

15:44 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Eitem 7—dadl cynllun cyflawni ar gyfer clefyd yr afu. Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd i wneud y cynnig—Vaughan Gething.

Item 7—debate on the liver disease delivery plan. I call on the Deputy Minister for Health to move the motion—Vaughan Gething.

Cynnig NDM5753 Jane Hutt

Motion NDM5753 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefyd yr Afu, fframwaith tan 2020 ar gyfer GIG Cymru i wella gwasanaethau clefyd yr afu.

Notes the Liver Disease Delivery Plan, a framework for NHS Wales to improve liver disease services until 2020.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:45

## Vaughan Gething Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I'm happy to move the motion on the paper in the name of Jane Hutt. I'll briefly outline the Government's view on the two amendments and then speak to the liver disease delivery plan. We will not support amendment 1, which will come as no surprise to Members here. Members will be familiar with the unavoidable fact that UK Government has cut, in real terms, £1.4 billion from the Welsh Government budget. Despite that, we have invested an extra £500 million in the NHS in Wales over the last two years, including £1 million a year, going forward, associated with this delivery plan that we will debate and discuss today.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf yn hapus i gynnig y cynnig ar y papur yn enw Jane Hutt. Amlinellaf farn y Llywodraeth yn fyr ar y ddau welliant, ac yna rwyf am siarad am y cynllun cyflawni ar gyfer clefyd yr afu. Ni fyddwn yn cefnogi gwelliant 1, ac ni fydd hynny'n syndod i'r Aelodau yma. Bydd yr Aelodau'n gwybod yn ddigamsyniol fod Llywodraeth y DU wedi torri, mewn termau real, £1.4 biliwn o gyllideb Llywodraeth Cymru. Er gwaethaf hynny, rydym wedi buddsoddi £500 miliwn yn rhagor yn y GIG yng Nghymru dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan gynnwys £1 miliwn y flwyddyn, wrth symud ymlaen, sy'n gysylltiedig â'r cynllun cyflawni hwn y byddwn yn dadlau yn ei gylch ac yn ei drafod heddiw.

We will, however, support amendment 2 in the name of Elin Jones. We are committed to exploring minimum unit pricing and this will help us tackle alcohol-related liver disease. Elin, of course, will be aware that there is still uncertainty about the timing of the European Court of Justice's deliberations on similar Scottish Government legislation. The First Minister has made clear that we aren't introducing legislation in this Assembly term, but will publish a draft Bill for consultation in due course, whilst we await the outcome of the European court's decision.

Byddwn, fodd bynnag, yn cefnogi gwelliant 2 yn enw Elin Jones. Rydym wedi ymrwymo i archwilio isafswm prisio unedau a bydd hyn yn ein helpu i fynd i'r afael â chlefyd yr afu sy'n gysylltiedig ag alcohol. Bydd Elin, wrth gwrs, yn gwybod bod ansicrwydd ynghylch amseriad trafodaethau Llys Cyfiawnder Ewrop ar ddeddfwriaeth debyg gan Lywodraeth yr Alban. Mae'r Prif Weinidog wedi datgan yn glir nad ydym yn cyflwyno deddfwriaeth yn nhymor y Cynulliad hwn, ond byddwn yn cyhoeddi Bil drafft ar gyfer ymgynghori maes o law, wrth inni aros am ganlyniad penderfyniad y llys Ewropeaidd.

The liver disease delivery plan, which we'll be discussing over the next hour or so, has a simple purpose: to help deliver an agreed set of priorities to improve liver services and, crucially, to improve outcomes for patients. Achieving that will be anything but simple. The prevalence of liver disease is rising. Mortality from liver disease is rising. Some of that is unavoidable—for instance, autoimmune or inherited metabolic liver disease—but most of the increasing demand is avoidable. The Caerphilly cohort study that we continue to mention, and rightly so, gives us hard evidence about the health impact of lifestyles, emphasising that poor health is often avoidable. We know that deprivation is associated with poor health, and we must, of course, make continued efforts to lift people out of poverty. But, for some people, the opportunity to live healthily is limited by affordability. However, for large numbers of people, over-drinking, over-eating and under-exercising have led to an inevitable rise in alcohol-related liver disease and fatty liver disease. These factors, combined with the impact of blood-borne viral hepatitis, have fuelled the doubling of liver disease deaths in the past 20 years. For example, in 2013, in Wales, there were nearly 500 deaths from liver disease.

Mae i'r cynllun cyflawni ar gyfer clefyd yr afu, y byddwn yn ei drafod dros yr awr neu ddwy nesaf, ddiben syml: helpu i gyflwyno cyfres y cytunwyd arni o flaenoriaethau i wella gwasanaethau'r afu ac, yn hollbwysig, i wella canlyniadau i gleifion. Bydd cyflawni hynny ymhell o fod yn hawdd. Mae nifer yr achosion o glefyd yr afu yn codi. Mae marwolaethau o glefyd yr afu ar gynnydd. Mae rhywfaint o hynny'n anorfod—er enghraifft, clefyd awto-imiwn neu fetabolaidd etifeddol yr afu—ond mae modd osgoi'r rhan fwyaf o'r galw cynyddol. Mae astudiaeth carfan Caerffili yr ydym yn dal i sôn amdani, a hynny'n briodol, yn rhoi inni dystiolaeth gadarn am effaith ffyrdd o fyw ar iechyd, ac yn pwysleisio bod modd yn aml osgoi iechyd gwael. Gwyddom fod amddifadedd yn gysylltiedig ag iechyd gwael, ac mae'n rhaid inni, wrth gwrs, barhau â'n hymdrechion i godi pobl allan o dlodi. Ond, i rai pobl, mae fforddiadwyedd yn cyfyngu ar eu cyfle i fyw'n iach. Fodd bynnag, i nifer fawr o bobl, mae goryfed, gorfwyta a dim digon o ymarfer wedi arwain at gynnydd anochel yng nghlefyd yr afu sy'n gysylltiedig ag alcohol a chlefyd yr afu brasterog. Mae'r ffactorau hyn, ynghyd ag effaith hepatitis feirysol a gludir yn y gwaed, wedi cyfrannu at ddyblu nifer y marwolaethau o glefyd yr afu yn yr 20 mlynedd diwethaf. Er enghraifft, yn 2013, yng Nghymru, roedd bron i 500 o farwolaethau o glefyd yr afu.

The health service in Wales cannot be expected to keep on picking up the pieces of poor lifestyle choices. The future sustainability of the health service must be based on a balance between action on the underlying causes of poor health and a measure of personal responsibility to look after one's own health and wellbeing. This, of course, is a matter that this Assembly debated and agreed upon at the start of this Assembly term in debating and agreeing the first report from the Bevan commission.

Ni ellir disgwyl i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru barhau i ymdrin â chanlyniadau dewisiadau gwael o ran ffordd o fyw. Rhaid i gynaliadwyedd y gwasanaeth iechyd yn y dyfodol fod yn seiliedig ar gadw cydbwysedd rhwng ymdrin ag achosion sylfaenol iechyd gwael a rhywfaint o gyfrifoldeb personol i ofalu am eich iechyd a'ch lles eich hun. Mae hyn, wrth gwrs, yn fater a drafodwyd gan y Cynulliad hwn ac y cytunwyd arno ar ddechrau tymor y Cynulliad hwn wrth drafod a chytuno ar adroddiad cyntaf comisiwn Bevan.

Delivery plans act as frameworks to drive service improvement and improve outcomes. They bring stakeholders together, with a common aim, and facilitate clinical leadership in the development of services. This delivery plan takes forward the chief medical officer's recommendation that we develop a liver disease plan and, in doing so, we are the only UK country to respond substantively to 'The Lancet' campaign, started in November last year, to take action on liver disease. The chief medical officer's annual reports and the 'The Lancet' campaign show how important this challenge is. All Members from all parties should be pleased to see Wales taking a proactive approach to this issue.

Mae cynlluniau cyflawni yn gweithredu fel fframweithiau i sbarduno gwelliannau i wasanaethau ac i wella canlyniadau. Maent yn dod â rhanddeiliaid ynghyd, â nod cyffredin, ac yn hwyluso arweinyddiaeth glinigol wrth ddatblygu gwasanaethau. Mae'r cynllun cyflawni hwn yn bwrw ymlaen ag argymhelliad y prif swyddog meddygol y dylem ddatblygu cynllun clefyd yr afu ac, wrth wneud hynny, ni yw'r unig wlad yn y DU i ymateb yn sylweddol i ymgyrch 'The Lancet' , a ddechreuwyd ym mis Tachwedd y llynedd, i weithredu ar glefyd yr afu. Mae adroddiadau blynyddol y prif swyddog meddygol ac ymgyrch 'The Lancet' yn dangos pa mor bwysig yw'r her hon. Dylai pob Aelod o bob plaid fod yn falch o weld ymagwedd ragweithiol Cymru tuag at y mater hwn.

Specifically, the plan seeks to address the rise in liver disease and liver disease-related deaths, to give patients more support, to improve the quality of services and to improve specialist knowledge on liver disease throughout the health service, and, of course, we will encourage patients to take responsibility for their health and care choices. To enable this, we have announced £1 million of annual funding to support the implementation of this plan. I'm also pleased to confirm that the £1.4 million of annual funding that was associated with the blood-borne viral hepatitis action plan will continue now that the delivery plan has taken over the effort against blood-borne viral hepatitis.

Yn benodol, mae'r cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r cynnydd yng nghlefyd yr afu a marwolaethau sy'n gysylltiedig â chlefyd yr afu, er mwyn rhoi mwy o gymorth i gleifion, er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau a gwella gwybodaeth arbenigol am glefyd yr afu ar draws y gwasanaeth iechyd, ac, wrth gwrs, byddwn yn annog cleifion i gymryd cyfrifoldeb am eu dewisiadau iechyd a gofal. Er mwyn i hyn allu digwydd, rydym wedi cyhoeddi £1 miliwn o arian blynyddol i helpu i weithredu'r cynllun hwn. Rwyf hefyd yn falch o gadarnhau y bydd yr £1.4 miliwn o gyllid blynyddol a oedd yn gysylltiedig â'r cynllun gweithredu hepatitis feirysol a gludir yn y gwaed yn parhau yn awr bod y cynllun cyflawni wedi cymryd yr awenau yn yr ymdrech yn erbyn hepatitis firysol a gludir yn y gwaed.

Our delivery plan has prudent healthcare principles running through it. I've already alluded to some of them. Co-production is about patients being equal partners in their own health and care. This plan is underpinned by patients taking increased responsibility for reducing risk factors and playing a greater role in self-managing their condition.

Mae egwyddorion gofal iechyd darbodus yn rhedeg drwy ein cynllun cyflawni. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at rai ohonynt. Mae cydgynhyrchu'n golygu bod cleifion yn bartneriaid cyfartal yn eu hiechyd a'u gofal eu hunain. Wrth wraidd y cynllun hwn mae'r angen i gleifion gymryd mwy o gyfrifoldeb dros leihau ffactorau risg a gwneud mwy i reoli eu cyflyrau eu hunain.

Tackling variation in services is inherent in our approach to improving specialist hepatology expertise throughout NHS Wales, raising standards of care and improving access to diagnostics and treatment. We recognise the need to help support people to live independently with their condition; the need to deliver highly specialist care, such as paediatric surgery and liver surgery; and when necessary to support people to deal proactively with end-of-life care.

Mae mynd i'r afael ag amrywiadau mewn gwasanaethau yn rhan annatod o'n hymagwedd at wella arbenigedd hepatoleg arbenigol ledled GIG Cymru, gan godi safonau gofal a gwella mynediad at ddiagnosteg a thriniaethau. Rydym yn cydnabod yr angen i helpu i gynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol gyda'u cyflwr; yr angen i ddarparu gofal arbenigol iawn, megis llawdriniaethau pediatrig a llawdriniaethau'r afu; a phan fo angen, i helpu pobl i ymdrin yn rhagweithiol â gofal diwedd oes.

The final elements of the plan are about improving information and targeting research; improving information for patients to help them understand and manage their condition; and improving the information available to clinicians to better manage care. Targeted research is about developing more insight into the causes and treatments for liver disease, and crucially, linking findings back into improving care and improving outcomes for patients. This plan is meant to help prevent disease, to enable better care for patients with liver disease, and to improve outcomes. It is in all of our interests that we succeed in these ambitions.

Mae elfennau olaf y cynllun yn ymwneud â gwella gwybodaeth a thargedu gwaith ymchwil; gwella gwybodaeth i gleifion i'w helpu i ddeall a rheoli eu cyflwr; a gwella'r wybodaeth sydd ar gael i glinigwyr i reoli gofal yn well. Mae ymchwil wedi'i dargedu'n ymwneud â datblygu mwy o fewnweledIad i achosion a thriniaethau clefyd yr afu, ac yn hanfodol, cysylltu canfyddiadau yn ôl i wella gofal a gwella canlyniadau i gleifion. Bwriedir i'r cynllun hwn helpu i atal clefydau, er mwyn gallu rhoi gofal gwell i gleifion sydd â chlefyd yr afu, ac i wella canlyniadau. Mae er budd pob un ohonom ein bod yn llwyddo yn yr uchelgeisiau hyn.

I look forward to hearing what Members have to say in today's debate.

Edrychaf ymlaen at glywed yr hyn sydd gan yr Aelodau i'w ddweud yn y ddadl heddiw.

15:51

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Rwyf wedi dethol y ddau welliant i'r cynnig. Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliant 1 yn enw Paul Davies.

I have selected the two amendments to the motion. I call on Darren Millar to move amendment 1 in the name of Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn gresynu at y ffaith y gallai'r broses o gyflwyno cynllun cyflenwi clefyd yr iau gael ei llesteirio gan yr heriau ariannol y mae byrddau iechyd lleol yn eu hwynebu o ganlyniad i'r toriadau cyllidebol mwyaf erioed gan Lywodraeth Cymru.*

*Regrets that the financial challenges faced by local health boards as a result of the Welsh Government's record-breaking budget cuts may hamper the delivery of the liver disease delivery plan.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

15:51

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move amendment 1 on the order paper in the name of my colleague, Paul Davies. I'm very pleased that we're having this debate on this important issue in the Assembly today. We know that liver disease is the third most common cause of premature death in the UK and that, regrettably, the UK and Wales have higher rates of increase in liver disease than in other countries in western Europe. That is a cause, I think, of great concern. So, it is good that the Welsh Government has developed this delivery plan, setting out its vision for tackling liver disease, and indeed for preventing it too. I also welcome the investment that the Minister has referred to—the £1 million-worth of investment. It would be good to see a breakdown of where that investment is actually going to go, which parts of Wales are going to benefit from it, and indeed to which parts of the plan it is specifically attached because, from the evidence that I have received from different organisations with a keen interest in this, particularly the British Liver Trust, they've made it clear that they do not feel that that £1 million is sufficient to plug the gap in the capacity of the services around Wales that we need to ensure are there for liver patients.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf welliant 1 ar y papur trefn yn enw fy nghyd-Aelod, Paul Davies. Rwyf yn falch iawn ein bod yn cael y ddadl hon ar y mater pwysig hwn yn y Cynulliad heddiw. Gwyddom mai clefyd yr afu yw'r trydydd achos mwyaf cyffredin o farwolaeth gynamserol yn y DU a bod cyfraddau'r cynnydd yng nghlefyd yr afu yn y DU a Chymru, yn anffodus, yn uwch nag yng ngwledydd eraill gorllewin Ewrop. Mae hynny, yn fy marn i, yn destun pryder mawr. Felly, mae'n dda bod Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r cynllun cyflawni hwn, yn nodi ei weledigaeth ar gyfer mynd i'r afael â chlefyd yr afu, ac yn wir ar gyfer ei atal hefyd. Rwyf hefyd yn croesawu'r buddsoddiad y mae'r Gweinidog wedi cyfeirio ato—y buddsoddiad gwerth £1 miliwn. Byddai'n dda gweld dadansoddiad o ble y mae'r buddsoddiad hwnnw mewn gwirionedd yn mynd i fynd, pa rannau o Gymru sy'n mynd i elwa arno, ac yn wir â pha rannau o'r cynllun y mae'n benodol gysylltiedig â hwy oherwydd, o'r dystiolaeth a gefais gan wahanol sefydliadau sydd â diddordeb mawr yn hyn, yn enwedig Ymddiriedolaeth Afu Prydain, maent wedi ei gwneud yn glir nad ydynt yn teimlo bod yr £1 miliwn hwnnw'n ddigon i lenwi'r bwlch yng nghapasiti gwasanaethau ledled Cymru y mae angen inni sicrhau eu bod yno ar gyfer cleifion afu.

I want to put on record my party's support for amendment 2 in the name of Elin Jones. We do support the need for minimum alcohol pricing here in Wales. We very much look forward to the public health (Wales) Bill being laid before the Assembly with that very clearly on the face of the Bill. But, of course, it is important that whatever minimum price is set, that it is an appropriate minimum price that doesn't undermine the viability of many of those food and drink businesses that are active out there. So, it is important that we have a minimum price in order to reduce the damage that alcohol does to society, and to discourage people from drinking it, particularly the cheap alcohol that we see available from supermarkets, but we have to get the price right. I look forward to working with the Government in supporting their proposals as they move forward.

Rwyf am roi ar gofnod gefnogaeth fy mhlaid i welliant 2 yn enw Elin Jones. Rydym yn cefnogi'r angen am isafswm pris alcohol yma yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at weld Bil iechyd y cyhoedd (Cymru) yn cael ei osod gerbron y Cynulliad gyda hynny yn glir iawn ar wyneb y Bil. Ond, wrth gwrs, mae'n bwysig, pa bynnag isafswm pris sy'n cael ei osod, ei fod yn isafswm pris priodol nad yw'n tanseilio hyfywedd llawer o'r busnesau bwyd a diod hynny sy'n gweithredu. Felly, mae'n bwysig pennu isafswm prisio er mwyn lleihau'r niwed y mae alcohol yn ei wneud i gymdeithas, ac er mwyn annog pobl i beidio â'i yfed, yn enwedig yr alcohol rhad a welwn ar gael mewn archfarchnadoedd, ond rhaid inni gael y pris cywir. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r Llywodraeth i gefnogi ei chynigion wrth symud ymlaen.

I'm very pleased to see that there's an emphasis on de-stigmatising liver disease as well. People coming forward with problems associated with alcohol consumption in particular can sometimes feel as though they don't want to report that they have a problem or that they have symptoms of liver disease, simply because they don't want to expose the fact that alcohol is a problem in their lives. So, I'm very pleased to see that that's an emphasis. I do want to just ask the Deputy Minister, though: what work has been done in terms of engaging patients in the development of this plan? Because, I can't see a great deal of evidence that patients have been engaged in its development. This is something that I know that the British Liver Trust, again, has flagged up as a concern. I would like to know how you're going to ensure that patients are involved in ensuring the delivery of this plan on the ground.

Rwyf yn falch iawn o weld pwyslais ar gael gwared ar stigma clefyd yr afu hefyd. Weithiau gall pobl sydd â phroblemau sy'n gysylltiedig ag yfed alcohol yn benodol deimlo nad ydynt am roi gwybod bod ganddynt broblem neu bod ganddynt symptomau clefyd yr afu, am y rheswm syml nad ydynt am ddatgelu'r ffaith fod alcohol yn broblem yn eu bywydau. Felly, rwyf yn falch iawn o weld pwysais ar hynny. Rwyf am ofyn hyn i'r Dirprwy Weinidog, er hynny: pa waith sydd wedi'i wneud i ymgysylltu â chleifion wrth ddatblygu'r cynllun hwn? Oherwydd, ni allaf weld rhyw lawer o dystiolaeth bod cleifion wedi bod yn rhan o'i ddatblygu. Mae hyn yn rhywbeth y gwn fod Ymddiriedolaeth Afu Prydain, unwaith eto, wedi tynnu sylw ato fel pryder. Hoffwn wybod sut yr ydych yn mynd i sicrhau bod cleifion yn cael eu cynnwys wrth sicrhau bod y cynllun hwn yn cael ei gyflwyno ar lawr gwlad.

There are also some concerns, which have been raised by different organisations, about how you're going to measure success and whether the measures that are attached in the plan are actually appropriate and will enable you to see whether there has been any progress in tackling liver disease across Wales. I, for one, would welcome further discussion on what is the appropriate suite of key targets to measure any performance, because if we can't measure outcomes and progress against them, then, unfortunately, this will just be another document on a shelf that is not actually having the sort of impact that we all want it to have here in Wales.

Mae rhai pryderon wedi eu codi hefyd gan wahanol sefydliadau ynglŷn â sut y byddwch yn mesur llwyddiant a p'un a yw'r mesurau sydd ynghlwm wrth y cynllun mewn gwirionedd yn briodol ac a fyddant yn eich galluogi i weld a fu unrhyw gynnydd wrth fynd i'r afael â chlefyd yr afu ledled Cymru. Byddwn i, yn sicr, yn croesawu trafodaeth bellach ynglŷn â beth yw'r gyfres briodol o dargedau allweddol i fesur perfformiad, oherwydd os na allwn fesur canlyniadau a chynnydd yn eu herbyn, yna, yn anffodus, ni fydd hon ond yn ddogfen arall ar silff nad yw'n cael y math o effaith yr ydym i gyd am iddi ei chael yma yng Nghymru.

Hepatitis C, of course. There are about 12,000 people in Wales who are infected with hep C and, of course, it can cause some very serious health problems—fatal liver damage and cancer, of course—if untreated. I wonder, Deputy Minister, whether you'd be able to tell us what part of the £1 million investment is actually going to deliver some of those new treatments that are available to help prolong life and improve the quality of life of patients with hepatitis C in Wales in your response to today's debate.

Hepatitis C, wrth gwrs. Mae tua 12,000 o bobl yng Nghymru wedi'u eu heintio â hep C ac, wrth gwrs, gall achosi problemau difrifol iawn—niwed angheuol i'r afu a chanser, wrth gwrs—os na chaiff ei drin. Tybed, Ddirprwy Weinidog, a allwch ddweud wrthym pa ran o'r buddsoddiad £1 miliwn sydd mewn gwirionedd yn mynd i ddarparu rhai o'r triniaethau newydd sydd ar gael i helpu i estyn bywydau a gwella ansawdd bywyd cleifion sydd â hepatitis C yng Nghymru, yn eich ymateb i'r ddadl heddiw.

Time is short, so I just want to make one reference, if I can, to end-of-life care. Obviously, the emphasis on end-of-life care in Wales, palliative care, over the years has been very much on cancer and it's been great to see that other conditions are now becoming more of a focus for those organisations that are involved in the delivery of palliative care, particularly cardiac care, et cetera. Marie Curie have expressed a keen interest in ensuring that there is a greater emphasis on palliative care for liver patients in the future and I wonder what consideration you have given to ensuring this high-quality palliative care for liver patients who do require it in the future.

Mae amser yn brin, felly rwyf am gyfeirio, os caf fi, at ofal diwedd oes. Yn amlwg, mae'r pwyslais ar ofal diwedd oes yng Nghymru, gofal lliniarol, dros y blynyddoedd wedi bod i raddau helaeth ar ganser ac mae wedi bod yn wych gweld bod cyflyrau eraill yn awr yn dod yn fwy o ffocws i'r sefydliadau hynny sy'n ymwneud â darparu gofal lliniarol, yn enwedig gofal y galon, ac ati. Mae Marie Curie wedi mynegi diddordeb mawr mewn sicrhau bod mwy o bwyslais ar ofal lliniarol i gleifion afu yn y dyfodol a tybed pa ystyriaeth yr ydych wedi'i rhoi i sicrhau'r gofal lliniarol hwn o safon uchel i gleifion afu y bydd ei angen arnynt yn y dyfodol?

15:56

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar Elin Jones i gynnig gwelliant 2, a gyflwynwyd yn ei henw.

I call on Elin Jones to move amendment 2, tabled in her name.

*Gwelliant 2—Elin Jones*

*Amendment 2—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi prisiau uned sylfaenol ar gyfer alcohol ar waith cyn gynted ag y bo modd.*

*Calls on the Welsh Government to implement a minimum unit pricing for alcohol as soon as possible.*

*Cynigiwyd gwelliant 2.*

*Amendment 2 moved.*

15:57

## Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n cyflwyno'r gwelliant yn enw Plaid Cymru. Mae cyfraddau marwolaeth o glefyd yr afu wedi codi 400 y cant ers 1970—ffigwr sylweddol iawn—ac, yn arwyddocaol iawn hefyd, clefyd yr afu bellach yw'r trydydd achos mwyaf o farwolaethau cynamserol yn y Deyrnas Gyfunol. Mae'n glefyd sy'n cael ei achosi'n gynyddol gan newidiadau mewn ffyrdd o fyw—goryfed alcohol, gordewdra—a hefyd gan dwf hepatitis feirysol. Mae clefyd yr afu hefyd yn arbennig o bresennol yn ein cymunedau tlotaf. Mae nifer y derbyniadau i ysbytai oherwydd clefyd yr afu hefyd ar gynnydd a'r rhan fwyaf o gleifion yn rhai gyda chlefyd cam terfynol, sirosis yr afu neu fethiant yr afu.

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move the amendment in the name of Plaid Cymru. Mortality rates as a result of liver disease have risen 400 per cent since 1970—a significant figure—and, significantly as well, liver disease is now the third highest cause of premature deaths in the United Kingdom. It is a disease that is increasingly caused by changes in lifestyle—too much alcohol, obesity—and also an increase in viral hepatitis. Liver disease is prevalent in our poorest communities as well. The number of admissions to hospitals as a result of liver disease is also on the increase and most of the patients have end-stage live disease, cirrhosis of the liver or liver failure.

Y cam pwysicaf, felly, i'r cynllun yma ei gymryd, a'r cam pwysicaf yn fy marn i hefyd, yw cwtogi ar y ffactorau sy'n arwain at glefyd yr afu. Y cyntaf o'r rhain, fel mae'n gwelliant ni heddiw yn ei grybwyll, yw edrych i gyflwyno isafswm pris ar alcohol. Rwy'n gwybod bod y Llywodraeth yn rhannu barn Plaid Cymru ar hyn ac rwy'n derbyn y ffaith y bydd y Llywodraeth yn aros am ddyfarniad y llys Ewropeaidd cyn symud ymlaen i ddeddfu yma yng Nghymru ar hyn. Ond, mae'r dystiolaeth nawr yn glir iawn yn dangos bod angen cynyddu pris alcohol er mwyn cwtogi goryfed. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn dangos fod cynnydd ym mhris alcohol a lleihau argaeledd alcohol yn lleihau yfed alcohol yn sylweddol. Mae Llywodraeth yr Alban, wrth gwrs, sawl cam o'n blaen ni yma yng Nghymru ar hyn, ac mae modelu'r Alban yn dangos bod 225 yn llai o farwolaethau o fewn 10 mlynedd o gyflwyno isafswm pris o 45c yr uned, ac fe fyddai isafswm pris o 50c, yn ogystal â gwaharddiad ar ddisgownts ar alcohol, yn golygu 8,400 yn llai o bobl yn mynd i mewn i ysbyty yn yr Alban. Mae'r rhain yn gyfraniadau pwysig iawn tuag at yr NHS.

The most important step, therefore, for this plan to take, and the most important step in my opinion too, is to reduce the number of factors that lead to liver disease. The first of these, as our amendment today mentions, is to look at introducing minimum unit pricing for alcohol. I know that the Government shares the Plaid Cymru view on this and I accept the fact that the Government will await the European court judgment before legislating here in Wales on this. But, the evidence now is very clear in showing that there is a need to increase the price of alcohol in order to reduce the level of overconsumption. The World Health Organization has shown that an increase in the price of alcohol and reducing the availability of alcohol substantially reduces the consumption of alcohol. The Government in Scotland, of course, is a few steps ahead of us here in Wales on this, and the modelling in Scotland shows 225 fewer deaths in 10 years as a result of introducing minimum unit pricing of 45p per unit, and a minimum unit pricing of 50p, as well as a ban on alcohol discounts, would mean 8,400 fewer people being admitted to hospital in Scotland. These are important contributions towards the NHS.

Wrth gwrs, nid dim ond goryfed sydd yn arwain at glefyd yr afu. Mae gordewdra hefyd yn arwain at broblemau clefyd yr afu. Mae yna gysylltiad amlwg, wrth gwrs, rhwng goryfed a gordewdra, ond mae yna gamau lu sydd angen eu cymryd mewn cymdeithas i sicrhau lleihau gordewdra—lleihau siwgr yn ein deiet ni yn benodol, fel y mae nifer o arbenigwyr yn argymell. Rŷm ni hefyd ym Mhlaid Cymru yn credu bod eisiau gweld Llywodraeth nesaf Cymru yn symud i gyflwyno lefi ar ddiodydd melys, fel ein bod ni'n cwtogi ar faint o ddiodydd melys sydd bellach yn cael eu hyfed fel diod bob dydd gan gymaint o bobl.

Of course, a high level of alcohol consumption isn't the only contributing factor to liver disease. Obesity also leads to liver disease. There is an obvious link, of course, between drinking too much and obesity, but there are many steps that could be taken in society to ensure that obesity is reduced—reducing sugar in our diets specifically, as a number of experts recommend. We also in Plaid Cymru want to see the next Welsh Government move to introduce a levy on fizzy drinks, so that we reduce the number of sugary drinks that are now consumed as an everyday drink by so many people.

O ran hepatitis feirysol, yna mae dwy brif agwedd sydd angen canolbwyntio arnynt, ac, i fod yn deg, mae'r cynllun yma o'n blaenau ni heddiw yn gwneud hynny: yn gyntaf, yn bwysig iawn, diagnosis ac annog pobl i gael y profion a'r diagnosis hynny ar gyfer hepatitis feirysol, ac i leihau'r stigma sydd yn bodoli o gwmpas profion o'r math yma, a chymryd y camau i gwrdd ag anghenion y clefyd yma. Ond hefyd mae yna gyffuriau a thriniaethau newydd yn dod ymlaen i waredu'r firws hepatitis C, ac oblygiadau hwnnw ar yr afu, ac fe fyddwn i'n hoffi cadarnhad gan y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn edrych i sicrhau bod y triniaethau yma ar gael cyn gynted a phosib yn yr NHS yng Nghymru.

In terms of viral hepatitis, there are two main aspects that need to be focused on, and, in fairness, this plan before us today does that: first of all, very importantly, diagnosis and encouraging people to get the tests and that diagnosis, along with reducing the stigma around these tests, and taking steps to deal with the requirements of this disease. But also there are new drugs and treatments coming forward to eradicate the hepatitis C virus and its implications for the liver, and I would like confirmation from the Minister that the Welsh Government is looking to ensure that these treatments are available as soon as possible on the NHS.

Un pwynt wrth gloi: mae yna bump nod lefel uchel i'r cynllun yma, ond dim ond un o'r pump hynny, i bob pwrpas, sydd yn wirioneddol fesuradwy, sef yr un cyntaf, sy'n ymrwymo i atal y twf mewn afiachusrwydd a marwolaethau sy'n gysylltiedig a chlefyd yr afu cyn 2020. Mae'r pedwar nod arall sydd yn y cynllun yma o'n blaenau ni heddiw i bob pwrpas yn gwbl anfesuradwy a heb amserlen benodol iddyn nhw. Fe fydden i'n licio symud i bwynt lle mae Llywodraeth Cymru, yn ei holl gynlluniau a'i holl strategaethau, yn gosod nodau clir sydd yn fesuradwy ac sydd ag amserlen benodol iddyn nhw, fel bod hynny'n dangos yr arweiniad i'r sector o'r hyn mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gael ei gyflawni, ac yn atebol i ni am y cyflawniad hynny.

In conclusion, there are five high-level aims to this plan, but only one of those five aims is really measurable, namely the first, which commits to halting the growth in ill health and deaths associated with liver disease before 2020. The four other aims in the plan before us today are, to all intents and purposes, completely immeasurable and don't have a specific timetable. We would like to move to a point where the Welsh Government, in all of its plans and strategies, sets clear objectives that are measurable and have a specific timetable, in order to demonstrate leadership to the various sectors in terms of what the Welsh Government expects to be achieved, and is accountable to us for that achievement.

16:02

## Jenny Rathbone Bywgraffiad Biography

I think that all three previous speakers have mentioned the link between alcohol and liver disease, and I think that's now well established in people's minds, although, obviously, the solution to persuading people to drink less and to seek help when required is, obviously, something that is a continuing conundrum. But I suppose that the most important aspect of this liver disease action plan is the importance it gives to the link between obesity and liver disease, and obesity is an increasing challenge in all age groups, and may become the main cause—the main cause—of liver disease in the future. That's in the plan. So, I just want to confine my remarks to that particular challenge, because I think that that is the one that certainly shines out at me.

Mae pob un o'r tri siaradwr blaenorol wedi sôn am y cysylltiad rhwng alcohol a chlefyd yr afu, a chredaf fod hynny bellach wedi ei hen sefydlu ym meddyliau pobl, er, yn amlwg, fod yr ateb i ddarbwyllo pobl i yfed llai ac i ofyn am gymorth pan fo angen, yn amlwg, yn rhywbeth sy'n parhau i fod yn benbleth. Ond mae'n debyg mai'r agwedd bwysicaf ar y cynllun gweithredu hwn ar gyfer clefyd yr afu yw'r pwysigrwydd y mae'n ei roi i'r cysylltiad rhwng gordewdra a chlefyd yr afu, ac mae gordewdra yn her gynyddol ym mhob grŵp oedran, a gallai fod yn brif achos—yn brif achos—clefyd yr afu yn y dyfodol. Mae hynny yn y cynllun. Felly, rwyf am gyfyngu fy sylwadau i'r her arbennig honno, oherwydd credaf mai dyna'r un sy'n sicr fwyaf amlwg i mi.

So, we know that a quarter of children aged four to five are overweight or obese, and that it is more than that in the most deprived areas. Recent research by the Overseas Development Institute in London, which was reported yesterday in the papers, shows that this is not just a problem in Wales or the UK or even the United States, but it's also become a major problem in four of the biggest emerging industrial countries, namely Brazil, Mexico, China and Korea. So, this should be a huge concern to all of us, and particularly because junk food continues to go down in price, whereas real food continues to be more expensive. For example, in the UK, the cost of an ice cream—rarely containing any cream or, indeed, milk—has actually halved between 1980 and 2012, whereas fresh vegetables have tripled in price. So, it is hardly surprising that the stagnation of earnings and the reduction in benefits has driven people to choose the cheaper options, even though we know the costs in the long term will be borne by all of us in increasing healthcare costs.

Felly, rydym yn gwybod bod chwarter plant pedair a phump oed yn rhy drwm neu'n ordew, a bod mwy na hynny yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae ymchwil diweddar gan y Sefydliad Datblygu Tramor yn Llundain, a adroddwyd ddoe yn y papurau, yn dangos nad dim ond yng Nghymru neu'r DU neu hyd yn oed yn yr Unol Daleithiau y mae hyn yn broblem, ond mae hefyd wedi dod yn broblem fawr mewn pedair o'r gwledydd diwydiannol mwyaf sy'n datblygu, sef Brasil, Mecsico, Tsieina a Corea. Felly, dylai hyn fod yn bryder mawr i bob un ohonom, ac yn arbennig am fod pris bwyd sothach yn parhau i ostwng, tra bo bwyd go iawn yn parhau i fod yn ddrutach. Er enghraifft, yn y DU, mae cost hufen iâ—sy'n anaml iawn yn cynnwys dim hufen nac, yn wir, llaeth—wedi haneru rhwng 1980 a 2012, tra bo llysiau ffres wedi treblu yn eu pris. Felly, nid yw'n syndod bod diffyg twf enillion a'r gostyngiad mewn budd-daliadau wedi gyrru pobl i ddewis yr opsiynau rhatach, er ein bod yn gwybod y bydd y costau yn y tymor hir yn cael eu talu gan bob un ohonom mewn costau gofal iechyd uwch.

So, as well as a minimum alcohol pricing scheme, which I strongly support, and I'm sure that we'll all be voting in favour of that amendment, I wondered whether the Government would also consider a fat, sugar and salt tax to counter the trend, as part of the need to systematically tackle the obesogenic environment. There are many things that we have already done, namely the Active Travel (Wales) Act 2013, namely the healthy eating in schools initiative, but the size of the problem is so great, and the cost to society in terms of premature deaths, that I feel that this is the sort of thing that we should be considering. Mexico has already imposed a junk-food tax, and it is terrifying how quickly their culinary customs have changed as a result of the free trade act and the undermining of their national dishes. So, if they can do it, why can't we?

Felly, yn ogystal â chynllun isafswm pris alcohol, yr wyf yn ei gefnogi'n gryf, ac rwyf yn siŵr y byddwn i gyd yn pleidleisio o blaid y gwelliant hwnnw, tybed a fyddai'r Llywodraeth hefyd yn ystyried treth ar fraster, siwgr a halen i fynd i'r afael â'r duedd, fel rhan o'r angen i ymdrin yn systematig â'r amgylchedd sy'n achosi gordewdra. Rydym wedi gwneud sawl peth yn barod, sef Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, y fenter bwyta'n iach mewn ysgolion, ond mae maint y broblem mor fawr, a'r gost i gymdeithas o ran marwolaethau cynamserol, nes fy mod yn credu mai dyma'r math o beth y dylem fod yn ei ystyried. Mae Mecsico eisoes wedi gosod treth ar fwyd sothach, ac mae'n frawychus pa mor gyflym y mae ei harferion coginio wedi newid o ganlyniad i'r ddeddf masnach rydd a thanseilio ei seigiau cenedlaethol. Felly, os gallant hwy wneud hynny, pam na allwn ni?

I'd just like to point out that research in the UK in 2009 calculated that a 17.5 per cent tax, similar to VAT, on junk food, used to subsidise fruit and vegetables, would save between 3,600 and 6,400 premature deaths. If you compare that to the 3,600—. Even the lower figure of 3,600 is more than twice the number killed on the roads, on which there is a great deal more money spent than there is on trying to tackle the obesity problem. So, I think we should be seriously considering this, either as part of the public health Bill or as a separate Bill.

Hoffwn nodi bod ymchwil yn y DU yn 2009 wedi cyfrifo bod treth o 17.5 cant, yn debyg i TAW, ar fwyd sothach, a ddefnyddir i sybsideiddio ffrwythau a llysiau, yn arbed rhwng 3,600 a 6,400 o farwolaethau cynamserol. Os cymharwch hynny â'r 3,600—. Mae hyd yn oed y ffigur isaf o 3,600 yn fwy na dwywaith y nifer a leddir ar y ffyrdd, ac mae llawer iawn mwy o arian wedi'i wario ar hynny nag ar geisio mynd i'r afael â phroblem gordewdra. Felly, credaf y dylem fod yn ystyried hyn o ddifrif, naill ai fel rhan o Fil iechyd y cyhoedd neu fel Bil ar wahân.

16:06

## Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could I welcome the publication of the plan? I think sometimes we are guilty of ignoring this particular disease area and group of patients, and it's very welcome to see this renewed focus on tackling liver disease in all its forms.

A gaf fi groesawu cyhoeddi'r cynllun? Byddaf yn meddwl weithiau ein bod yn euog o anwybyddu'r clefyd hwn a'r grŵp penodol hwn o gleifion, ac mae'n galonogol iawn gweld y pwyslais hwn o'r newydd ar fynd i'r afael â chlefyd yr afu yn ei holl ffurfiau.

If I could talk to some of the specifics within the plan, Deputy Presiding Officer, key to the Government's policy is fast and effective diagnosis and care for those suffering from liver disease, yet the plan does recognise that the ability to do so at present is limited by the availability of appropriately trained specialists and the infrastructure within our hospital system to enable that to happen. So, it does the beg the question, having acknowledged that problem within the infrastructure, as to what plans does the Government have to ensure that we have the appropriately trained staff, both medical and nursing, to deliver the plan that is ahead of us. If they have recognised that there's a shortage to date, what active steps are they taking to recruit into this particular area?

Rwyf am siarad am rai o'r materion penodol yn y cynllun, Ddirprwy Lywydd. Yn allweddol i bolisi'r Llywodraeth y mae diagnosis a gofal cyflym ac effeithiol i'r rhai sy'n dioddef o glefyd yr afu, ac eto mae'r cynllun yn cydnabod bod prinder arbenigwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol a seilwaith yn ein system ysbytai i alluogi hynny i ddigwydd yn cyfyngu ar y gallu i wneud hynny ar hyn o bryd. Felly, mae'n rhaid gofyn, wedi cydnabod bod problem o fewn y seilwaith, pa gynlluniau sydd gan y Llywodraeth i sicrhau bod gennym staff wedi'u hyfforddi'n briodol, yn staff meddygol a nyrsio, i roi'r cynllun sydd ger ein bron ar waith. Os ydynt wedi cydnabod bod prinder hyd yma, pa gamau gweithredol y maent yn eu cymryd i recriwtio i'r maes penodol hwn?

The plan also goes on to say that one of the monitors of the delivery of this plan will be referral-to-treatment times, and this, of course, is an area where the Welsh Government struggles to meet its own aspirations and targets. Again, I would interested to hear from the Deputy Minister what proactive steps he's going to take to ensure that referral-to-treatment times are met with this particular group of patients.

Mae'r cynllun hefyd yn mynd ymlaen i ddweud mai un o'r dulliau o fonitro cyflwyno'r cynllun hwn fydd amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, ac mae hwn, wrth gwrs, yn faes lle y mae Llywodraeth Cymru'n ei chael yn anodd cyflawni ei dyheadau a'i thargedau ei hun. Unwaith eto, byddai gennyf ddiddordeb clywed gan y Dirprwy Weinidog pa gamau rhagweithiol y mae'n bwriadu eu cymryd i sicrhau bod amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth yn cael eu bodloni gyda'r grŵp penodol hwn o gleifion.

If I could move to the issue of minimum pricing of alcohol, I think the opposition spokesperson is mistaken, or certainly didn't listen to what the Deputy Minister had to say in his opening remarks with regard to the ability to legislate in this Assembly term. It's not the Deputy Minister's or the Government's intention, my understanding is, to legislate on the face of the public health Bill. There will have to be a separate piece of legislation in the next Assembly following the outcome, I suspect, of the European Commission's deliberations on competence issues, which have led to the Scottish legislation running into difficulty.

A throi at fater isafswm pris alcohol, rwyf yn credu bod llefarydd yr wrthblaid yn camsynied, neu yn sicr nid oedd yn gwrando ar yr hyn yr oedd gan y Dirprwy Weinidog i'w ddweud yn ei sylwadau agoriadol o ran y gallu i ddeddfu yn nhymor y Cynulliad hwn. Nid yw'n fwriad gan y Dirprwy Weinidog na'r Llywodraeth, yn ôl a ddeallaf, i ddeddfu ar wyneb Bil iechyd y cyhoedd. Bydd yn rhaid wrth ddarn gwahanol o ddeddfwriaeth yn y Cynulliad nesaf ar ôl canlyniad, rwyf yn amau, trafodaethau'r Comisiwn Ewropeaidd ar faterion cymhwystra, sydd wedi arwain at drafferthion i ddeddfwriaeth yr Alban.

On these benches, I have to admit, there is a difference of opinion as to whether minimum pricing is an evidence-based intervention in this particular arena. I personally am in favour of it, and I will have a job of work ahead of me in convincing my colleagues who sit alongside me that this is the case. But I think we have to be realistic if we believe that minimum pricing alone is the answer to our alcohol consumption issues in this country, because we do know, from the drug and alcohol strategies and reports the Government has undertaken, that one of the major problems that we have in terms of alcohol misuse in Wales is older, middle-income, high-income drinkers who are drinking at home, probably at a price point that is way above the minimum alcohol price point that we'd be setting. This particular measure will influence drinkers, perhaps, at one level in our communities who are drinking in a certain kind of way, but it is not going to actually impact upon the area that the Welsh Government itself recognises is where the main problem with alcohol misuse is in Wales at the moment—it will not be affected by these measures. So, this alone is not going to solve those problems, but I, personally, think it is an important element of what we can do, as a Government, to intervene and to try and influence people's alcohol choices.

Ar y meinciau hyn, rhaid imi gyfaddef, mae gwahaniaeth barn ynghylch a yw isafswm pris yn ymyriad sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y maes penodol hwn. Rwyf fi o'i blaid, a bydd gennyf dipyn o waith o'm blaen i argyhoeddi fy nghydweithwyr sy'n eistedd ochr yn ochr â mi mai dyna fel y mae. Ond credaf fod yn rhaid inni fod yn realistig os credwn mai isafswm pris yn unig yw'r ateb i'n problemau yfed alcohol yn y wlad hon, gan ein bod yn gwybod, o'r strategaethau cyffuriau ac alcohol ac adroddiadau y mae'r Llywodraeth wedi'u gwneud, mai un o'r prif broblemau sydd gennym o ran camddefnyddio alcohol yng Nghymru yw yfwyr hŷn, incwm canol, incwm uchel sy'n yfed gartref, yn ôl pob tebyg ar bwynt pris sy'n llawer uwch na'r isafswm pris alcohol y byddem yn ei osod. Bydd y mesur penodol hwn yn dylanwadu ar yfwyr, efallai, ar un lefel yn ein cymunedau sy'n yfed mewn math penodol o ffordd, ond ni chaiff effaith mewn gwirionedd ar y maes lle y mae Llywodraeth Cymru ei hun yn cydnabod y mae'r broblem fwyaf o ran camddefnyddio alcohol yng Nghymru ar hyn o bryd—ni fydd y mesurau hyn yn effeithio arno. Felly, nid yw hyn ar ei ben ei hun yn mynd i ddatrys y problemau hynny, ond rwyf fi'n credu ei fod yn elfen bwysig o'r hyn y gallwn ei wneud, fel Llywodraeth, i ymyrryd ac i geisio dylanwadu ar ddewisiadau alcohol pobl.

Could I turn to the issue of hepatitis C and the conundrum that arises out of the miracles of science? The development of sofosbuvir and simeprevir is a wonderful challenge to have, but it is a challenge nonetheless. We know that these particular drugs will transform—transform—the treatment options available for those suffering from hepatitis C. They are shorter interventions, the side effects are far fewer than the interferon interventions that we have at present and they can, effectively, cure people of their disease. But what we do know is that they are hugely expensive upfront; that's why the National Institute for Health and Care Excellence has given permission for the Westminster Government to delay its implementation of its recommendations. Let's be clear: these drugs have been approved for use by NICE. We know that they work, but there is a job of work to be done now by Welsh Government on understanding how these drugs will be issued in Wales, because there is a real conundrum: who gets it first? Is it the intravenous drug user who often is not a very sympathetic patient, or is it that person who acquired their hepatitis via NHS blood-borne transmission? What do we do? How do we get these drugs out in a fair, timely—

Hoffwn droi at fater hepatitis C a'r benbleth sy'n codi o wyrthiau gwyddoniaeth. Mae datblygu sofosbuvir a simeprevir yn her wych, ond mae'n her serch hynny. Rydym yn gwybod y bydd y cyffuriau penodol hyn yn trawsnewid—yn trawsnewid—y dewisiadau trin sydd ar gael i'r rhai sy'n dioddef o hepatitis C. Maent yn ymyriadau byrrach, mae'r sgil-effeithiau'n llai o lawer na'r ymyriadau interferon sydd gennym ar hyn o bryd a gallant, i bob pwrpas, wella pobl o'u clefyd. Ond yr hyn yr ydym yn ei wybod yw eu bod yn ddrud iawn ymlaen llaw; dyna pam y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal wedi rhoi caniatâd i Lywodraeth San Steffan i ohirio gweithredu ei argymhellion. Gadewch inni fod yn glir: mae'r cyffuriau hyn wedi eu cymeradwyo i'w defnyddio gan NICE. Rydym yn gwybod eu bod yn gweithio, ond mae gwaith i Lywodraeth Cymru ei wneud yn awr i ddeall sut y bydd y cyffuriau hyn yn cael eu rhoi yng Nghymru, oherwydd mae penbleth go iawn: pwy sy'n eu cael gyntaf? Ai'r defnyddiwr cyffuriau mewnwythiennol nad yw'n glaf cydymdeimladol iawn yn aml, neu ai'r person a gafodd ei hepatitis drwy drosglwyddiad a gludir yn y gwaed yn y GIG? Beth ddylem ni ei wneud? Sut mae cael y cyffuriau hyn allan mewn modd teg, amserol—

16:11

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finish with this now, please.

Gorffennwch gyda hyn yn awr, os gwelwch yn dda.

16:11

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—and equitable fashion to those people who are desperate—desperate—to receive them?

[Yn parhau.] —a chyfartal i'r bobl hynny sy'n daer—yn daer—i'w derbyn?

16:12

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

I think that every point that I could have made has been covered, so I will try and be brief on this. Everybody's discussed that the core of the delivery plan must be prevention. People eat too much, they drink too much and they exercise too little, and that has caused an increase in liver disease. But, of course, there are the other medical reasons, like hepatitis, that have been mentioned as well.

Credaf fod pob pwynt y gallwn fod wedi'u gwneud wedi cael sylw, felly ceisiaf fod yn fyr. Mae pawb wedi dweud bod yn rhaid i atal fod yn ganolog i'r cynllun cyflawni. Mae pobl yn bwyta gormod, maent yn yfed gormod ac maent yn ymarfer rhy ychydig, ac mae hynny wedi achosi cynnydd yng nghlefyd yr afu. Ond, wrth gwrs, mae rhesymau meddygol eraill, fel hepatitis, sydd wedi eu crybwyll hefyd.

I would like to know, Minister, what we're going to do about a public health campaign, because I think, if you say to people that there's a huge increase in deaths from liver disease, they'd be quite surprised, because it isn't all that well known. I do think that it is something that would benefit from some sort of publicity campaign. I do realise, though, that money is limited, and I do also welcome the amount of money that has been put into this plan. I think, in the circumstances that we're in, it is a reasonably generous amount of money.

Hoffwn wybod, Weinidog, beth yr ydym yn mynd i'w wneud ynghylch ymgyrch iechyd y cyhoedd, oherwydd credaf pe dywedech wrth bobl fod cynnydd aruthrol yn nifer y marwolaethau o glefyd yr afu, y byddent yn synnu braidd, oherwydd nid yw hynny'n wybyddus iawn i bobl. Credaf ei fod yn rhywbeth a fyddai'n elwa ar ryw fath o ymgyrch gyhoeddusrwydd. Rwyf yn sylweddoli, fodd bynnag, fod arian yn gyfyngedig, ac rwyf hefyd yn croesawu'r swm o arian sydd wedi ei roi i'r cynllun hwn. Credaf, yn yr amgylchiadau sydd ohonynt, ei fod yn swm eithaf hael o arian.

One of the things that people have been talking about—and I think Darren mentioned Marie Curie—was the fact that, when people are diagnosed with liver disease, there isn't always a look to the future to look at what palliative care they may need if that disease is going to be terminal. We know that people are dying in hospital when they do not wish to die in hospital. They share that with many other people, don't they? If you ask most people, 'Where would you prefer to spend your last days if you were ill?', most people would say, 'I want to spend them in my home, with support, if that is possible'. That is common to all palliative care, and I think that it means that we must look more and more at what services we are providing in the community, because they don't only apply to cancer or to liver disease, in this case, or to many of the other diseases that can, sadly, prove to be terminal. So, I think that we do need to that.

Un o'r pethau y mae pobl wedi bod yn siarad amdanynt—ac rwyf yn meddwl bod Darren wedi crybwyll Marie Curie—yw'r ffaith, pan fydd pobl yn cael diagnosis o glefyd yr afu, nad edrychir bob amser at y dyfodol i weld pa ofal lliniarol y gallai fod ei angen arnynt os bydd y clefyd yn derfynol. Rydym yn gwybod bod pobl yn marw yn yr ysbyty pan nad ydynt yn dymuno marw yn yr ysbyty. Maent yn rhannu hynny â llawer o bobl eraill, onid ydynt? Os gofynnwch i'r rhan fwyaf o bobl, 'Ble fyddai'n well gennych chi dreulio eich dyddiau olaf pe byddech yn sâl?', byddai'r rhan fwyaf o bobl yn dweud, 'Rydw i eisiau eu treulio yn fy nghartref, gyda chymorth, os yw hynny'n bosibl'. Mae hynny'n gyffredin i bob gofal lliniarol, a chredaf ei fod yn golygu bod yn rhaid inni edrych fwyfwy ar ba wasanaethau yr ydym yn eu darparu yn y gymuned, oherwydd nid dim ond i ganser neu glefyd yr afu, yn yr achos hwn, neu i lawer o'r clefydau eraill a all, yn anffodus, fod yn angheuol, y maent yn berthnasol. Felly, rwyf yn meddwl bod angen hynny arnom ni.

But also, if we do do that, we must see that the services provided are consistent, and that means that health boards must sign up to this. Not one health board, but all of the health boards, must sign up to this so that what does happen, if, sadly, people do need palliative care, is that they can get it wherever they are.

Ond hefyd, os gwnawn hynny, mae'n rhaid inni sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn gyson, ac mae hynny'n golygu bod yn rhaid i fyrddau iechyd ymrwymo i hyn. Mae angen i nid un bwrdd iechyd, ond pob un o'r byrddau iechyd, ymrwymo i hyn fel mai'r hyn sy'n digwydd, os oes angen gofal lliniarol, yn anffodus, ar bobl, yw y gallant ei gael lle bynnag y maent.

I can't really say much else. I certainly support Elin Jones's amendment—I think most people here do—and Kirsty Williams is absolutely right in saying that it's not the only thing that needs to happen. Because you are absolutely right: the statistics are that it is older people and middle-class people—people who can afford it—who are drinking in the home, and who are doing more and more damage to themselves. They're not all in Ibiza, doing whatever they do in Ibiza.

Ni allaf ddweud fawr mwy na hynny. Rwyf yn sicr yn cefnogi gwelliant Elin Jones—rwyf yn credu bod y rhan fwyaf o bobl yma yn ei gefnogi—ac mae Kirsty Williams yn llygad ei lle wrth ddweud nad dyma'r unig beth y mae angen iddo ddigwydd. Oherwydd rydych yn llygad eich lle: mae'r ystadegau'n dangos mai pobl hŷn a phobl dosbarth canol—pobl sy'n gallu ei fforddio—sy'n yfed yn y cartref, ac sy'n gwneud mwy a mwy o ddifrod iddynt hwy eu hunain. Nid ydynt i gyd yn Ibiza, yn gwneud beth bynnag y maent yn ei wneud yn Ibiza.

16:15

## Simon Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Ed Miliband is in Ibiza. [Laughter.]

Mae Ed Miliband yn Ibiza. [Chwerthin.]

16:15

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

I'd forgotten about that. Well, he deserves a break.

Roeddwn wedi anghofio am hynny. Wel, mae'n haeddu seibiant.

But, seriously, I think that, in palliative care and in caring for people who are terminally ill, there are a lot of things that are common and we shouldn't, when we're looking at one disease, not learn those lessons in other areas. We have a palliative care strategy, but I hope that we continue to develop resources and realise that we need to look at the community, we need to look at community-supported initiatives, and we must do as much as we can to see that health boards are completely signed up to this and take responsibility for their part in it.

Ond, o ddifrif, mewn gofal lliniarol ac wrth ofalu am bobl sydd â salwch terfynol, credaf fod llawer o bethau'n gyffredin ac ni ddylem, wrth edrych ar un clefyd, beidio â dysgu'r gwersi hynny mewn meysydd eraill. Mae gennym strategaeth gofal lliniarol, ond rwyf yn gobeithio y byddwn yn parhau i ddatblygu adnoddau ac yn sylweddoli bod angen inni edrych ar y gymuned, mae angen inni edrych ar fentrau a gefnogir gan y gymuned, ac mae'n rhaid inni wneud cymaint ag y gallwn i weld bod byrddau iechyd yn ymrwymo'n llwyr i hyn ac yn cymryd cyfrifoldeb am eu rhan ynddo.

16:15

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog Iechyd i ymateb i'r ddadl.

I call the Deputy Minister for Health to reply to the debate.

16:16 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

*Y Dirprwy Weinidog Iechyd / The Deputy Minister for Health*

Thank you, Deputy Presiding Officer, and thank you to Members for their contributions to what's been a very constructive debate about the liver disease delivery plan. I will have an opportunity to go through some of the comments, but not all of them, otherwise we'll be here until about 7 o'clock, and I know the Deputy Presiding Officer's patience does not stretch quite that far.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd, a diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau i'r hyn a fu'n ddadl adeiladol iawn am y cynllun cyflawni clefyd yr afu. Byddaf yn cael cyfle i fynd drwy rai o'r sylwadau, ond nid pob un ohonynt, neu fel arall byddwn yma tan tua 7:00, a gwn nad yw amynedd y Dirprwy Lywydd yn estyn mor bell â hynny.

I thank Darren Millar for his first contribution, which, again was constructive, dealing with a number of the choices that we have to make and in the focus on this particular area and, again, a number of other Members mentioned that it's welcome to have a focus on this particular condition and this particular area, which often doesn't get lots of publicity and activity within this Chamber or in our committees. It's fair to deal with, perhaps, the point he made about the choices over the £1 million allocated to the plan, and other Members took an interest in this as well; I recognise that. The implementation group will be determining how that money is used. It won't be a central directive from myself or the Minister about how that money will be used. I think this all helps to deal with a number of points that both Darren Millar and other people raised about who will be involved in doing that.

Diolch i Darren Millar am ei gyfraniad cyntaf, a oedd, unwaith eto yn adeiladol, ac yn ymdrin â nifer o'r dewisiadau y mae'n rhaid inni eu gwneud a'r pwyslais ar y maes penodol hwn ac, unwaith eto, crybwyllodd nifer o Aelodau eraill ei bod yn galonogol gweld pwyslais ar y cyflwr penodol hwn a'r maes penodol hwn, nad yw yn aml yn cael llawer o gyhoeddusrwydd a gweithgarwch o fewn y Siambr hon nac yn ein pwyllgorau. Mae'n deg ymdrin, efallai, â'r pwynt a wnaeth am y dewisiadau ynghylch yr £1 miliwn a ddyrannwyd i'r cynllun, a chymerodd Aelodau eraill ddiddordeb yn hyn hefyd; rwyf yn cydnabod hynny. Y grŵp cyflawni fydd yn penderfynu sut y caiff yr arian ei ddefnyddio. Ni fydd cyfarwyddeb ganolog gennyf i na'r Gweinidog ynghylch sut y caiff yr arian hwnnw ei ddefnyddio. Credaf fod hyn i gyd yn helpu i ymdrin â nifer o bwyntiau y gwnaeth Darren Millar a phobl eraill eu codi ynglŷn â phwy fydd yn rhan o wneud hynny.

There'll be clinical leadership coming together from across Wales, but also the third sector will have a role, both campaign and advocacy groups, but importantly it's about ensuring that the voice of the patient is part of helping to design the outcomes and then to determine the priorities for the spend of the money that goes with the delivery plan. We're inviting the British Liver Trust and the Children's Liver Disease Foundation to take part in the implementation group and also to help deal with the issues specifically mentioned by a number of Members around hepatitis C. We're looking for third sector groups to take part in infrastructure around the plan to have an input in that particular area. I'll give way to Darren Millar on this point.

Bydd arweiniad clinigol yn dod at ei gilydd o bob rhan o Gymru, ond hefyd bydd rhan i'r trydydd sector, grwpiau ymgyrchu ac eiriolaeth, ond yn bwysig mae'n ymwneud â sicrhau bod llais y claf yn rhan o helpu i gynllunio'r canlyniadau ac yna benderfynu ar y blaenoriaethau ar gyfer gwario'r arian sy'n mynd gyda'r cynllun cyflawni. Rydym yn gwahodd Ymddiriedolaeth Afu Prydain a Sefydliad Plant Clefyd yr Afu i gymryd rhan yn y grŵp cyflawni, a hefyd i helpu i ymdrin â'r materion a grybwyllwyd yn benodol gan nifer o Aelodau ynghylch hepatitis C. Rydym yn chwilio am grwpiau trydydd sector i gymryd rhan yn seilwaith y cynllun a chyfrannu at y maes penodol hwnnw. Ildiaf i Darren Millar ar y pwynt hwn.

16:17 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Minister. I'm very grateful for that response, particularly in terms of the engagement with different groups. Can you tell us how the £1 million was arrived at, though, in terms of your estimate of the figure that Wales needed to spend in order to bring these services up to scratch so that this plan can be implemented? I can't see any science behind that figure; I think it's been plucked out of the sky.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Weinidog. Rwyf yn ddiolchgar iawn am yr ymateb hwnnw, yn enwedig o ran ymgysylltu â gwahanol grwpiau. A wnewch chi ddweud wrthym sut y cyrhaeddwyd yr £1 miliwn, o ran eich amcangyfrif o'r ffigur y mae angen i Gymru ei wario er mwyn i'r gwasanaethau hyn gyrraedd y safon fel y gellir gweithredu'r cynllun hwn? Ni allaf weld dim gwyddoniaeth y tu ôl i'r ffigur hwnnw; credaf ei fod wedi ei dynnu o'r awyr.

16:18 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

There was a choice made to give each of the delivery plans £1 million to help advance their areas of activity. So, there's commonality and equality for each delivery plan about how they take that forward. What really matters in each delivery plan is it combines clinical leadership from across Wales and the third sector, so the voices of the campaign and charitable groups and the patient are there to help to determine what the key priorities will be and then how that money is used. There's always got to be a choice about how much and how far we determine from the centre what the priorities will be and how you actually involve the clinicians and their patients in determining not just resource but priorities for action as we go forward—and not all of those will be finance intensive.

Gwnaed dewis i roi £1 miliwn i bob un o'r cynlluniau cyflenwi i helpu i hyrwyddo eu meysydd gweithgaredd. Felly, mae elfennau cyffredin a chydraddoldeb i bob cynllun cyflawni ynghylch sut y maent yn bwrw ymlaen â hynny. Yr hyn sy'n bwysig mewn gwirionedd ym mhob cynllun cyflawni yw eu bod yn cyfuno arweiniad clinigol o bob rhan o Gymru a'r trydydd sector, felly mae lleisiau'r ymgyrch a grwpiau elusennol a'r claf yno i helpu i benderfynu beth fydd y blaenoriaethau allweddol ac yna sut y caiff yr arian ei ddefnyddio. Mae'n rhaid bod dewis bob amser ynglŷn â faint a pha mor bell yr ydym yn penderfynu o'r canol beth fydd y blaenoriaethau a sut yr ydych mewn gwirionedd yn cynnwys y clinigwyr a'u cleifion wrth benderfynu nid yn unig ar adnoddau, ond blaenoriaethau ar gyfer gweithredu wrth inni symud ymlaen—ac ni fydd pob un o'r rhain yn ddwys o ran cyllid.

I welcome support from pretty much every Member who spoke for the principle of minimum unit pricing, and everyone recognises the challenges that we have on actually being able to get a law that every party here would recognise actually passed. In particular, Elin Jones made a very constructive argument for why minimum unit pricing is part of the solution but not all of the solution—the point made by Elin, Kirsty, Sandy and Jenny in particular about the phenomenon of middle-class drinking, because this is not an area where you look at a straight line of a greater challenge of deprivation. It's one of the few significant public health challenges where there is a greater problem for middle-income groups, and it's not something that we avoid or ignore; it will absolutely be something that the implementation group will need to look at and, in particular, in terms of our delivery on substance misuse as well.

Rwyf yn croesawu cefnogaeth gan bob Aelod a siaradodd fwy neu lai am egwyddor isafswm pris uned, ac mae pawb yn cydnabod yr heriau sy'n ein hwynebu mewn gwirionedd o ran gallu pasio deddf y byddai pob plaid yma yn ei chydnabod. Yn benodol, cyflwynodd Elin Jones ddadl adeiladol iawn ynghylch pam y mae isafswm pris uned yn rhan o'r ateb, ond nad dyna'r cyfan o'r ateb—y pwynt a wnaethpwyd gan Elin, Kirsty, Sandy a Jenny yn benodol am ffenomen yfed dosbarth canol, oherwydd nid yw hwn yn faes lle y mae llinell syth o ran mwy o her o safbwynt amddifadedd. Mae'n un o'r ychydig heriau sylweddol i iechyd y cyhoedd lle y mae mwy o broblem i grwpiau incwm canol, ac nid yw'n rhywbeth yr ydym yn ei osgoi neu'n ei anwybyddu; bydd yn rhywbeth y bydd angen i'r grŵp cyflawni edrych arno ac, yn benodol, o ran ein darpariaeth ar gamddefnyddio sylweddau yn ogystal.

I'd like to thank Jenny Rathbone for her contribution. Again, she is nothing if not consistent in her focus on the areas of obesity and the significant challenge that brings, not just in this area, but in a wide range of others, in terms of a very major public health challenge for the whole country, and it's impact on health services and what it will mean if we're not able to persuade our public to take a different view and attitude to managing their own health and health behaviours. It's not for me in this debate to try and set out a new path for the Government on fat, sugar and salt taxation, but there will be a lively debate around that with the public health Bill, and other opportunities in this Chamber and beyond.

Diolch i Jenny Rathbone am ei chyfraniad. Unwaith eto, mae'n gwbl gyson yn ei phwyslais ar feysydd gordewdra a'r her sylweddol sydd ynghlwm wrth hynny, nid dim ond yn y maes hwn, ond mewn ystod eang o feysydd eraill, o ran her fawr iawn o safbwynt iechyd y cyhoedd i'r wlad gyfan, a'i effaith ar wasanaethau iechyd a'r hyn y bydd yn ei olygu os nad ydym yn gallu darbwyllo ein cyhoedd i gymryd golwg ac agwedd wahanol tuag at reoli eu hiechyd a'u hymddygiad iechyd eu hunain. Nid mater i mi yn y ddadl hon yw ceisio nodi llwybr newydd i'r Llywodraeth ar drethu braster, siwgr a halen, ond bydd trafodaeth fywiog ynghylch hynny gyda Bil iechyd y cyhoedd, a chyfleoedd eraill yn y Siambr hon a thu hwnt.

I'd like to return to my closing remarks, and I will pick up some other points mentioned by Members. We recognise that we do need to keep a focus on prevention and enabling strategies that reduce the burden of liver disease. This goes to the point Sandy Mewies made about public awareness of this issue, which is relatively low. The plan has an important role in supporting this, but is not the place to lead the wider effort against obesity and alcohol misuse. We have bespoke approaches to increasing physical activity, improving diets, tackling alcohol and substance misuse, and those efforts all have an impact across a number of diseases and conditions. But, it is always something that is in our mind in a whole range of areas of activity in the health service.

Hoffwn ddychwelyd at fy sylwadau cloi, a byddaf yn codi rhai pwyntiau eraill a grybwyllwyd gan yr Aelodau. Rydym yn cydnabod bod angen inni gadw pwyslais ar strategaethau atal a galluogi sy'n lleihau baich clefyd yr afu. Mae hyn yn mynd at y pwynt a wnaeth Sandy Mewies ynghylch ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r mater hwn, sydd yn gymharol isel. Mae rôl bwysig i'r cynllun o ran cefnogi hyn, ond nid dyma'r lle i arwain yr ymdrech ehangach yn erbyn gordewdra ac alcohol. Mae gennym ddulliau pwrpasol o gynyddu gweithgarwch corfforol, gwella diet, mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol a sylweddau, ac mae'r ymdrechion hynny i gyd yn cael effaith ar draws nifer o glefydau a chyflyrau. Ond, mae bob amser yn rhywbeth sydd yn ein meddyliau mewn amryw helaeth o feysydd gweithgaredd yn y gwasanaeth iechyd.

This plan now provides leadership on blood-borne viral hepatitis and it is the successor to the blood-borne viral hepatitis plan. Now, we have had mentioned in the debate by a number of Members, including Kirsty Williams, the genuinely exciting developments aimed at the treatment of hepatitis C. There are new medicines coming onto the market that can more effectively clear hepatitis from the liver, with a better safety profile and tolerance by patients. So, it's not just the outcomes; it's the patient experience that is being improved as well. And, as Kirsty Williams mentioned, sofosbuvir has the potential to save the health service a significant amount of money in the long term and improve outcomes. The challenge, as you identify, is that the cost of treatment is very high and the number of individuals requiring treatment in the first year has been estimated already in NHS Wales at more than 400. The challenge for the NHS in Wales is how we roll out those new medicines in a targeted and phased manner to ensure the greatest impact on hepatitis C transmission and patient outcomes. And, I won't pretend that it's an easy challenge.

Mae'r cynllun hwn bellach yn darparu arweiniad ar hepatitis firysol a gludir yn y gwaed ac mae'n olynydd i'r cynllun hepatitis feirysol a gludir yn y gwaed. Yn awr, rydym wedi clywed yn y ddadl gan nifer o Aelodau, gan gynnwys Kirsty Williams, am y datblygiadau gwirioneddol gyffrous er mwyn trin hepatitis C. Mae meddyginiaethau newydd yn dod ar y farchnad sy'n gallu clirio hepatitis yn fwy effeithiol o'r afu, â phroffil diogelwch gwell a goddefgarwch gwell gan gleifion. Felly, nid dim ond mater o ganlyniadau ydyw; mae'n fater o wella profiad y claf hefyd. Ac, fel y crybwyllodd Kirsty Williams, mae gan sofosbuvir y potensial i arbed swm sylweddol o arian i'r gwasanaeth iechyd yn y tymor hir ac i wella canlyniadau. Yr her, fel y dywedwch, yw bod cost triniaeth yn uchel iawn ac amcangyfrifir y bydd angen triniaeth ar 400 yn y flwyddyn gyntaf yn GIG Cymru. Yr her ar gyfer y GIG yng Nghymru yw sut yr ydym yn cyflwyno'r meddyginiaethau newydd hynny mewn ffordd wedi'i thargedu ac yn raddol er mwyn cael yr effaith fwyaf ar drosglwyddo hepatitis C a chanlyniadau i'r cleifion. Ac nid wyf am esgus ei bod yn her hawdd.

16:22 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I agree, it is a very difficult problem the Government faces. Would you agree with me, though, that, at present, the emphasis is on treating, quite understandably, those who are the most ill first? Those who have tried to manage their condition feel a sense of injustice, that because they've tried to manage, and they're a little bit better, they will wait longer. There's almost a disincentive for people to try and manage their health.

Rwyf yn cytuno bod y Llywodraeth yn wynebu problem anodd iawn. A fyddech yn cytuno â mi, fodd bynnag, fod y pwyslais, ar hyn o bryd, yn ddigon dealladwy, ar drin y rhai sydd fwyaf sâl gyntaf? Mae'r rhai sydd wedi ceisio rheoli eu cyflwr yn teimlo rhywfaint o anghyfiawnder oherwydd y byddant, am eu bod wedi ceisio rheoli'r cyflwr, a'u bod ychydig yn well, yn aros yn hwy. Mae'n anghymhelliad bron i bobl i geisio rheoli eu hiechyd.

16:22 **Vaughan Gething** Bywgraffiad Biography

I understand the point you're making. Indeed, I've had representations from people who had contaminated blood. Some of those contracted hepatitis, and they're actively trying to manage their condition. I recognise the argument they make. However, we must always look at where the greatest benefit lies and how we do that. So, I'm not pretending it's an easy issue, and I won't try and give a glib answer that says we can do this all in one go, or that there won't be challenges as we try to roll this out. But, the message about managing your condition, and how to successfully manage it, is about much more than just access to drugs and treatment.

Rwyf yn deall y pwynt yr ydych yn ei wneud. Yn wir, rwyf wedi derbyn sylwadau gan bobl a gafodd waed wedi'i halogi. Cafodd rhai o'r rheini hepatitis, ac maent yn mynd ati i geisio rheoli eu cyflwr. Rwyf yn cydnabod y ddadl a wnânt. Fodd bynnag, rhaid inni edrych bob amser ar ble y mae'r budd mwyaf a sut y gwnawn hynny. Felly, nid wyf yn honni ei fod yn hawdd, ac ni fyddaf yn ceisio rhoi ateb slic sy'n dweud y gallwn wneud hyn i gyd ar yr un pryd, neu na fydd heriau wrth inni geisio cyflwyno hyn. Ond, mae'r neges ynghylch rheoli eich cyflwr, a sut i'w reoli'n llwyddiannus, yn golygu llawer mwy na dim ond gallu cael cyffuriau a thriniaeth.

I need to move on and make some progress so I don’t run out of time. Perhaps the biggest challenge for the NHS in Wales will be how it grows its hepatology workforce and expertise at a time when workforce requirements point to the need for more generalist care and especially more care in the community. So, a proper balance has to be struck between growing that generalist medical care and access to specialist advice from hepatologists. For some patients access to specialist secondary and tertiary care is key to improving their outcomes. Health boards will need to consider how best to provide a balance of generalist and specialist care in areas to meet their population need. This plan has been developed in collaboration with Public Health Wales, the Welsh association of gastroenterology and endoscopy, and hepatologists from the NHS in Wales. I’m pleased that the Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board director of public health, Dr Sara Hayes, has agreed to chair the implementation group and help to drive forward implementation of the plan. In line with the other delivery plans and their implementation groups, membership will be sought from health boards, the third sector and key stakeholders.

Mae angen imi symud ymlaen a gwneud rhywfaint o gynnydd fel nad wyf yn rhedeg allan o amser. Efallai mai’r her fwyaf i’r GIG yng Nghymru fydd sut y mae'n tyfu ei arbenigedd a’i weithlu hepatoleg ar adeg pan fo gofynion y gweithlu yn awgrymu bod angen mwy o ofal cyffredinol ac yn enwedig mwy o ofal yn y gymuned. Felly, rhaid sicrhau cydbwysedd priodol rhwng cynyddu’r gofal meddygol cyffredinol a mynediad i gyngor arbenigol gan hepatolegwyr. I rai cleifion mae gallu cael gofal eilaidd a thrydyddol arbenigol yn allweddol i wella eu canlyniadau. Bydd angen i fyrddau iechyd ystyried y ffordd orau o ddarparu cydbwysedd rhwng gofal cyffredinol ac arbenigol mewn ardaloedd er mwyn bodloni anghenion y boblogaeth. Datblygwyd y cynllun hwn ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, cymdeithas gastroenteroleg ac endosgopi Cymru, a hepatolegwyr yn y GIG yng Nghymru. Rwyf yn falch bod cyfarwyddwr iechyd y cyhoedd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Dr Sara Hayes, wedi cytuno i gadeirio'r grŵp cyflawni a helpu i sbarduno gweithredu'r cynllun. Yn unol â'r cynlluniau cyflawni eraill a'u grwpiau gweithredu, ceisir aelodau o blith y byrddau iechyd, y trydydd sector a rhanddeiliaid allweddol.

Briefly before I finish, I do want to mention that I recognise the points made by a number of Members, including Sandy Mewies, about end-of-life care. I do, of course have an end-of-life care delivery plan, and there is absolutely an ambition to see a much greater level of achievement and consistency in end-of-life care here in Wales. This document and this plan isn’t just a vision statement or a strategy; it is supposed to be a specific action plan for NHS Wales, developed by NHS Wales with its partners and stakeholders. And, I expect, as do Members, to see improvements in outcomes in the coming years and a greater link to integrated medium-term plans.

Yn fyr cyn imi orffen, hoffwn ddweud fy mod yn cydnabod y pwyntiau a wnaethpwyd gan nifer o Aelodau, gan gynnwys Sandy Mewies, ynghylch gofal diwedd oes. Mae gennyf, wrth gwrs, gynllun cyflawni gofal diwedd oes, ac mae yna uchelgais yn sicr i weld llawer mwy’n cael ei gyflawni a llawer mwy o gysondeb mewn gofal diwedd oes yma yng Nghymru. Nid dim ond datganiad o weledigaeth neu strategaeth yw’r ddogfen hon a’r cynllun hwn; bwriedir iddynt fod yn gynllun gweithredu penodol ar gyfer GIG Cymru, wedi’i ddatblygu gan GIG Cymru a'i bartneriaid a’i randdeiliaid. Ac, rwyf yn disgwyl, fel y mae’r Aelodau, gweld y canlyniadau’n gwella yn y blynyddoedd i ddod a mwy o gyswllt â chynlluniau tymor canolig integredig.

I thank Members who have contributed to today’s very constructive debate, and I look forward to discussing this issue in the future with Members. Thank you, Deputy Presiding Officer.

Diolch i'r Aelodau sydd wedi cyfrannu at y ddadl adeiladol iawn hon heddiw, ac edrychaf ymlaen at drafod y mater hwn â’r Aelodau yn y dyfodol. Diolch, Ddirprwy Lywydd.

16:25

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y cwestiwn yw: a ddylid derbyn gwelliant 1? A oes unrhyw wrthwynebiad? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The question is to agree amendment 1. Does any Member object? [Objection.] I will defer all voting on this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

16:25

# 8. Cyfnod Pleidleisio

# 8. Voting Time

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Voting time now follows. Before I conduct the vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so we will now vote on this debate on the liver disease delivery plan. I call for a vote on amendment 1, tabled in the name of Paul Davies. Open the vote. Quickly please. Close the vote. There voted in favour 9. There voted against 29. There were 9 abstentions. Therefore, the amendment is not agreed.

Mae’n gyfnod pleidleisio. Cyn imi gynnal y bleidlais, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes, felly pleidleisiwn yn awr ar y ddadl hon am y cynllun cyflawni ar gyfer clefyd yr afu. Galwaf am bleidlais ar welliant 1, a gyflwynwyd yn enw Paul Davies. Agor y bleidlais. Yn gyflym os gwelwch yn dda. Cau’r bleidlais. Pleidleisiodd 9 o blaid. Pleidleisiodd 29 yn erbyn. Roedd 9 yn ymatal. Felly, nid yw'r gwelliant wedi ei dderbyn.

*Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 9, Yn erbyn 29, Ymatal 9.*

*Amendment not agreed: For 9, Against 29, Abstain 9.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 1 i gynnig NDM5743

Result of the vote on amendment 1 to motion NDM5743

16:26

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I call for a vote on amendment 2, tabled in the name of Elin Jones. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 44. One vote against. There were two abstentions. Therefore, amendment 2 is agreed.

Galwaf am bleidlais ar welliant 2, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones. Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 44 o blaid. Un bleidlais yn erbyn. Roedd dau yn ymatal. Felly, mae gwelliant 2 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 44, Yn erbyn 1, Ymatal 2.*

*Amendment agreed: For 44, Against 1, Abstain 2.*

Canlyniad y bleidlais ar welliant 2 i gynnig NDM5743

Result of the vote on amendment 2 to motion NDM5743

16:26

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

I now call for a vote on the motion as amended.

Galwaf yn awr am bleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio.

Cynnig NDM5753 fel y'I diwygiwyd:

Motion NDM5753 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefyd yr Afu, fframwaith tan 2020 ar gyfer GIG Cymru i wella gwasanaethau clefyd yr afu.

Notes the Liver Disease Delivery Plan, a framework for NHS Wales to improve liver disease services until 2020.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi prisiau uned sylfaenol ar gyfer alcohol ar waith cyn gynted ag y bo modd.

Calls on the Welsh Government to implement a minimum unit pricing for alcohol as soon as possible.

16:26

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Open the vote. Close the vote. There voted in favour 47. There were no votes against. Therefore, the motion as amended is agreed.

Agor y bleidlais. Cau'r bleidlais. Pleidleisiodd 47 o blaid. Nid oedd dim pleidleisiau yn erbyn. Felly, mae'r cynnig fel y'i diwygiwyd wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd cynnig NDM5753 fel y'I diwygiwyd: O blaid 47, Yn erbyn 0, Ymatal 0.*

*Motion NDM5753 as amended agreed: For 47, Against 0, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5743 fel y'i diwygiwyd

Result of the vote on motion NDM5743 as amended

16:26

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw

*Daeth y cyfarfod i ben am 16:26.*

*The meeting ended at 16:26.*